

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
3/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/01/2022

Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1

Damcaniaeth Newid, Effaith COVID-19, a Fframwaith y
Gwerthusiad

Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1

Damcaniaeth Newid, Effaith COVID-19, a Fframwaith y Gwerthusiad

Awdur(on): Endaf Griffiths, Calvin Lees, David Hagendyk, Dr Nina Sharp, Paula Gallagher, Sam Grunhut, Lovedeep Vaid

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E. Lees, C. Hagendyk, D. Sharp, N. Grunhut, S. (2021). *Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Damcaniaeth Newid, Effaith COVID-19, a Fframwaith y Gwerthusiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 3/2022.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaeth-cymrun-gweithio-2019-i-2022-adroddiad-1>

wavehillTM
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Hannah Davies, Uwch Swyddog Ymchwil

Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chefnidir	6
2.	Methodoleg	13
3.	Damcaniaeth Newid ar gyfer Cymru'n Gweithio	16
4.	Dadansoddiad o Wybodaeth Monitro'r Gwasanaeth	29
5.	Effaith Pandemig COVID-19 ar Gyflenwi Cymru'n Gweithio	70
6.	Astudiaethau Achos Cwsmeriaid Cymru'n Gweithio	84
7.	Casgliad	110
Atodiad 1: Modelau Damcaniaeth Newid ar gyfer Cymru'n Gweithio		114
Atodiad 2: Arolwg Ar-lein o Ddata Atodol Staff rheng flaen Cymru'n Gweithio		116
Atodiad 3: Fframwaith y Gwerthusiad		118

Rhestr tablau

Tabl 3.1: Damcaniaeth newid llinol ar gyfer Cymru'n Gweithio	19
Tabl 3.2: Teitlau swyddi staff Cymru'n Gweithio a'u nifer	22
Tabl 4.1: Cyfanswm y cwsmeriaid unigryw sy'n wnaeth ofyn am gymorth fesul blwyddyn...	32
Tabl 4.2: Statws cwsmeriaid oedolion newydd fesul blwyddyn	36
Tabl 4.3: Statws cwsmeriaid ifanc newydd (15–17) fesul blwyddyn.....	39
Tabl 4.4: Cyfanswm y cwsmeriaid a gafodd eu hatgyfeirio i dderbyn cymorth pellach yn ôl blwyddyn	41
Tabl 4.5: Lle cafodd cwsmeriaid oedolion gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn .	43
Tabl 4.6: Lle cafodd cwsmeriaid ifanc (15–17) gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn	44
Tabl 4.7: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn	46
Tabl 4.8: Mathau o ryngweithiadau anuniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn	48
Tabl 4.9: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn	49
Tabl 4.10: Defnyddwyr unigryw sy'n defnyddio microsafle Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn	51
Tabl 4.11: Nifer y dilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol fesul blwyddyn.....	52
Tabl 4.12: Cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth carchardai oedolion fesul blwyddyn...	53
Tabl 4.13: Oedolion a gafodd eu hatgyfeirio fesul blwyddyn	54
Tabl 4.14: Cwsmeriaid ifanc (15–17) a gafodd eu hatgyfeirio fesul blwyddyn.....	55
Tabl 4.15: Atgyfeiriadau i ddarpariaeth briodol – oedolion 18+ fesul blwyddyn.....	57
Tabl 4.16: Atgyfeiriadau i ddarpariaeth briodol – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn	59
Tabl 4.17: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – oedolion 18+ fesul blwyddyn	61
Tabl 4.18: Deilliannau yn sgil cymorth 'cyswllt ysgafn' – oedolion 18+ fesul blwyddyn	63
Tabl 4.19: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – pobl ifanc (15–17) fesul blwyddyn	65
Tabl 4.20: Deilliannau yn sgil cymorth 'cyswllt ysgafn' – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn	66
Tabl A3.1: Rôl ymatebwyr yn yr arolwg.....	116
Tabl A3.2: Yr awdurdodau lleol lle'r oedd yr ymatebwyr yn gweithio	116

Rhestr ffigyrau

Ffigur 3.1: Enghraifft o ddamcaniaeth newid llinol.....	17
Ffigur 3.2: Rhesymeg ganolog damcaniaeth newid Cymru'n Gweithio	18
Ffigur 4.1a: Nifer cronrus cwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n oedolion ac oedolion sy'n ymuno fesul mis, Blwyddyn 1.....	32
Ffigur 4.1b: Nifer cronrus cwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n oedolion ac oedolion sy'n ymuno fesul mis, Blwyddyn 2.....	33
Ffigur 4.2a: Nifer cronrus cwsmeriaid ifanc Cymru'n Gweithio a phobl ifanc sy'n ymuno fesul mis, Blwyddyn 1	33
Ffigur 4.2b: Nifer cronrus cwsmeriaid ifanc Cymru'n Gweithio a phobl ifanc sy'n ymuno fesul mis, Blwyddyn 2.....	34
Ffigur 4.3a: Nifer cronrus carcharorion sy'n derbyn cymorth un i un a niferoedd fesul mis (mae carcharorion wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer oedolion), Blwyddyn 1	34
Ffigur 4.3b: Nifer cronrus carcharorion sy'n derbyn cymorth un i un a niferoedd fesul mis (mae carcharorion wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer oedolion), Blwyddyn 2	35
Ffigur 4.4: Statws cwsmeriaid newydd sy'n oedolion fesul mis	37
Ffigur 4.5: Statws cwsmeriaid newydd ifanc (15–17) fesul mis.....	40
Ffigur 4.6: Nifer y cwsmeriaid a atgyfeiriwyd i gael cymorth ychwanegol fesul mis.....	41
Ffigur 4.7: Lle cafodd cwsmeriaid sy'n oedolion gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul mis .	43
Ffigur 4.8: Lle cafodd cwsmeriaid ifanc (15–17) gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul mis..	44
Ffigur 4.9: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol ag oedolion fesul mis	47
Ffigur 4.10: Mathau o ryngweithiadau anuniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn.....	48
Ffigur 4.11: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid ifanc (15–17) fesul mis	50
Ffigur 4.12: Defnyddwyr unigryw sy'n defnyddio microsafle Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn.....	51
Ffigur 4.13: Nifer y dilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol fesul blwyddyn.....	52
Ffigur 4.14: Ffynhonnell atgyfeirio oedolion fesul mis	54
Ffigur 4.15: Cwsmeriaid ifanc (15–17) a atgyfeiriwyd fesul mis	56
Ffigur 4.16: Atgyfeiriadau at ddarpariaeth briodol – oedolion 18+ fesul mis.....	58
Ffigur 4.17: Atgyfeiriadau at ddarpariaeth briodol - cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul mis	59
Ffigur 4.18: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl cymorth 'ysgafn' – oedolion 18+ fesul mis	62
Ffigur 4.19: Canlyniadau cymorth 'ysgafn' – oedolion 18+ fesul mis	64
Ffigur 4.20: Cwsmeriaid a wnaeth gynnydd ar ôl derbyn cymorth 'ysgafn' – pobl ifanc (15– 17) fesul mis	65

Ffigur 4.21: Canlyniadau cymorth 'ysgafn' – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn	67
Ffigur5.1: Safbwyntiau staff rheng flaen ar ba mor effeithiol maent wedi gallu cyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19	76
Ffigur 5.2: Safbwyntiau staff rheng flaen ar effaith y newidiadau, os o gwbl, a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 ar ansawdd gwasanaethau a chefnogaeth Cymru'n Gweithio.....	78
Ffigur 5.3: Safbwyntiau staff rheng flaen ar effaith cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 ar ddarpariaeth y cymorth y gall Cymru'n Gweithio atgyfeirio unigolion i'w dderbyn	81

Geirfa

Acronym/Prif lythrennau/Gair allweddol Diffiniad

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
ALMPs	Rhaglenni Marchnad Lafur Weithredol
CV	Curriculum Vitae
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
ESA	Lwfans Cymorth Cyflogaeth
ESP	Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd
JSCI	Offeryn Dosbarthu Ceiswyr Swyddi
JSTOR	Ffurf gryno 'Journal Storage' ar gyfer data yn system Gyrfa Cymru
NEET	Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NTFW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
PACE	Partnership Action for Continuing Employment (rhaglen Llywodraeth yr Alban)
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WPRS	Gwasanaethau Proffilio ac Ailgyflogi Gweithwyr

1. Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.0 Mae Cymru'n Gweithio yn wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw darparu cymorth cyflogadwyedd syml ac effeithlon sy'n ymateb i anghenion unigol. Cyflwynwyd y gwasanaeth yn 2019 ac mae'n ddull newydd o gynnig cyngor di-duedd ac am ddim ar gyflogadwyedd a gyrfaoedd ledled Cymru. Cyflenwir y gwasanaeth ar ran Llywodraeth Cymru gan Gyrfa Cymru.
- 1.1 Bydd gwerthusiad gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Ebrill 2022. Prif rôl yr adroddiad cyntaf hwn yw nodi'r ddamcaniaeth newid¹ ar gyfer y gwasanaeth a, drwy adeiladu ar y ddamcaniaeth honno, y fframwaith gwerthuso. At hyn, bydd yn adrodd ar ganfyddiadau cam cwmpasu'r gwerthusiad, adolygiad o'r wybodaeth reoli ar gyfer y gwasanaeth, ac adolygiad o effaith pandemig COVID-19 ar gyflenwi'r gwasanaeth. Cyflwynir astudiaethau achos 10 o ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan ystyried y cymorth maent wedi'i dderbyn a'r budd maent wedi'u gael o'r cymorth hwnnw.
- 1.2 Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi y mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu ynddo, cyn rhoi trosolwg o'r gwasanaeth. Mae nodau ac amcanion y gwerthusiad wedi'u nodi hefyd.
- 1.3 Yna mae gweddill yr adroddiad yn dilyn y cynllun a ganlyn:
- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn
 - Mae Pennod 3 yn ystyried y ddamcaniaeth newid ar gyfer Cymru'n Gweithio
 - Mae Pennod 4 yn cynnig dadansoddiad o'r wybodaeth reoli sydd ar gael ar gyfer Cymru'n Gweithio
 - Mae Pennod 5 yn ystyried effaith pandemig COVID-19 ar y gwasanaeth
 - Mae Pennod 6 yn cynnwys yr astudiaethau achos sy'n seiliedig ar gyfweiliadau â chwsmeriaid Cymru'n Gweithio
 - Yn olaf, mae Pennod 7 yn dwyn ynghyd y prif gasgliadau y gallwn eu casglu o'r cam cyntaf hwn o'r gwerthusiad.
- 1.4 Mae fframwaith y gwerthusiad, sy'n tynnu ar y canfyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

¹ Cyfeiriwch at Bennod 3 (Damcaniaeth Newid ar gyfer Cymru'n Gweithio) i gael cyflwyniad i'r broses damcaniaeth newid.

Cyd-destun Polisi

- 1.5 Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer Cymru'n Gweithio yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant cenedlaethol a roddir ar waith gan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#). Mae'r nodau yn cynnwys Cymru Lewyrchus (sy'n ceisio datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas). Mae'r Ddeddf yn cynnwys pum ffordd o weithio, sydd wedi'u hadlewyrchu yn nyheadau Cymru'n Gweithio: Hirdymor (meddwl), Atal, Integreiddio, Cydweithio, a Chynnwys. Un o nodau eraill y Ddeddf yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a disgwylir y bydd Cymru'n Gweithio yn creu amodau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gan gyd-fynd felly â Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a dyheadau Strategaeth Cymraeg 2050.
- 1.6 Nod hirdymor strategaeth [Ffyniant i Bawb](#), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, sy'n iach ac egnïol, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Mae'r strategaeth yn nodi cyflogadwyedd fel thema graidd ar gyfer llesiant a ffyniant, ac mae'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer cyflawni mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol ar draws y sector cyhoeddus gan roi pobl wrth galon gwell darpariaeth gwasanaeth.
- 1.7 At hyn, fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, [Symud Cymru Ymlaen](#) yn 2016, mae gwella ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn flaenoriaeth i Gymru, gan gynnwys yr ymrwymiad i gynyddu ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc.
- 1.8 Rhan allweddol o'r ymrwymiad hwn yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) drwy'r [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid](#) (2013), sy'n ymwneud ag unigolion rhwng 11 a 25 oed. Mae'r Fframwaith yn cynnig dulliau mwy systematig i awdurdodau lleol nodi'r bobl hynny y mae angen cymorth arnynt, sefydlu pa fath o gymorth sydd ar gael, ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt symud o fyd addysg i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae'r Fframwaith yn gofyn i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan weithredu mewn dull integredig wrth gyflenwi gweithgareddau i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolion. Mae'n seiliedig ar chwe elfen allweddol, y dangoswyd eu bod yn effeithiol wrth gynyddu ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc. Nod y chwe elfen yw:
- Nodi'r bobl ifanc sy'n fwyaf tebygol o ymddieithrio
 - Gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth

- Prosesau tracio a chymorth cryfach drwy'r system i bobl ifanc
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth
- Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc

- 1.9 Mae'r [Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#), a gyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2017, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf cynhwysol, wedi'i adeiladu ar seiliau cadarn, diwydiannau cryf y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo dau nod sef sicrhau twf yn yr economi a lleihau anghydraddoldeb gan roi pwyslais ar "gefnogi pobl pa le bynnag y maen nhw ar yr ysgol waith, gan eu helpu i symud yn nes at waith, i gael a chadw gwaith ac i symud yn eu blaen yn eu gwaith".
- 1.10 Mae hyn yn golygu cydweithio ar draws meysydd polisi (addysg, iechyd, tai, datblygu economaidd, a chymunedau) i hyrwyddo gwell canlyniadau o ran cyflogaeth, lleihau anweithgarwch economaidd a diweithdra, a chodi lefelau cymwysterau a chynhyrchedd.
- 1.11 [Mae'r Rhaglen Lywodraethu newydd 2021-2026](#) yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddi da, sgiliau perthnasol, a chyfleoedd hyfforddiant newydd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad ychwanegol i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan roi i bawb o dan 25 oed, y cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.
- 1.12 Gan fod y rhwystrau rhag cyflogaeth yn amrywiol ac yn gallu bod yn gymhleth o ran eu rhyngweithio, mae consensws y gall ymyriadau cynnar a chynghor ac arweiniad wedi'i deilwra, yn ogystal â chymorth ymarferol, wneud gwahaniaeth mawr. Er mwyn adlewyrchu'r cymhlethdod hwn, mae angen i gymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth fod yn hyblyg ac yn briodol i amgylchiadau unigol. At hyn, mae angen i gymorth fod yn gydlynol, er mwyn galluogi unigolion i gael mynediad ato a llywio'r gwahanol fathau o ymyriadau.
- 1.13 Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull trawslywodraethol i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i'w wneud yn addas i'r dyfodol. Credir mai'r allwedd i sicrhau cymorth cyflogadwyedd effeithiol yw symleiddio mynediad, cynghor wedi'i deilwra, ymyriadau sy'n bodloni anghenion unigolion, yn ogystal ag atgyfeirio unigolion i'r cymorth sydd ar gael er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag cael gwaith. Dyma un o'r prif elfennau sydd wrth wraidd datblygiad Cymru'n Gweithio, a gyflwynir isod.

- 1.14 Yn olaf, mae'r [Cynllun Cyflogadwyedd](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyflenwi cymorth cyflogadwyedd mewn ffordd glyfar a chydlynus, gan dorri ar draws ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i lywodraeth. Trwy gyflwyno'r Cynllun hwn, nod Llywodraeth Cymru yw cyfrannu at gynyddu lefelau cynhyrchedd yng Nghymru dros y degawd nesaf drwy gyflawni'r canlynol:
- Cael gwared ar y bwlch o ran cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a chyfartaledd y DU ymhen 10 mlynedd.
 - Cael gwared ar y bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU ar bob lefel cymhwyster ymhen 10 mlynedd a sicrhau ein bod yn y dyfodol — o leiaf — yn cynnal ein perfformiad o gymharu â gweddill y DU.
 - Lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.
 - Cynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith.
- 1.15 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ail-greu ar ôl Covid 19 – Heriau a Blaenoriaethau](#), sy'n nodi wyth maes blaenoriaeth, gan gynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir, gyda'r nod o helpu i sefydlogi Cymru yn ystod pandemig COVID-19 sy'n parhau ac yn y dyfodol.
- 1.16 Un o'r blaenoriaethau allweddol tymor byr yw helpu pobl yr effeithiwyd ar eu bywiolaeth gan y cyfyngiadau clo i ddod o hyd i waith, ynghyd â helpu unigolion a chwmnïau o Gymru i drosglwyddo i economi a swyddi'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar raglenni sgiliau presennol a chreu amgylchedd dysgu gydol oes. Ymhellach, mae ymrwymiad i gefnogi creu swyddi a sectorau sy'n dod i'r amlwg er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i swyddi cynaliadwy a phwyslais parhaus ar waith teg.
- 1.17 Nodir bod y pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol, a dulliau gweithio o bell. Mae atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed yn y cyd-destun hwnnw yn ystod y pandemig yn cael ei nodi fel blaenoriaeth, ynghyd â nodi cyfleoedd i ddefnyddio dulliau digidol o weithio a chynllunio i gefnogi ymyriadau ar draws y sector cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae angen cynyddu cymorth i hwyluso a sicrhau cynhwysiant digidol ar gyfer y rhai a fydd fel arall mewn perygl o gael eu gwrthio (hyd yn oed ymhellach), i gyrion gwasanaethau cyhoeddus.

Trosolwg o wasanaeth Cymru'n Gweithio

- 1.18 Prif swyddogaeth Cymru'n Gweithio yw darparu pwynt mynediad ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ar draws Cymru. Mae'n galluogi unigolion i siarad ag ymgynghorwyr gyrfa hyfforddedig am waith a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau maent yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith, addysg neu hyfforddiant ac aros yn y lleoliadau hynny.
- 1.19 Mae cyngor ac arweiniad yn cael eu cynnig wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru (er bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar hyn, fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn), mewn canolfannau gwaith lleol, neu mewn hybiau cymunedol, yn ogystal â thros y ffôn ac ar-lein.
- 1.20 Mae ymgynghorwyr yn helpu drwy nodi rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Ar sail amgylchiadau a dyheadau unigolion, mae ymgynghorwyr gyrfa hyfforddedig yn nodi'r cymorth mwyaf addas sydd ar gael i helpu'r unigolyn i wneud cynnydd ar y cyfle cynharaf. At hyn, mae Cymru'n Gweithio yn helpu i oresgyn rhwystrau a all gael eu creu gan gymhlethdod y cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael i'r unigolyn dan sylw.
- 1.21 Yn dibynnu ar y rhwystrau sy'n wynebu'r unigolyn, bydd ymgynghorwyr, ar ôl cytuno â'r unigolyn, naill ai yn atgyfeirio unigolion i'r cymorth mwyaf addas sydd ar gael neu'n cynnig rhyw fath o gymorth cyflogadwyedd llai ffurfiol i'r rheini sy'n gymwys drwy Hyfforddwr Cyflogadwyaeth Cymru'n Gweithio (a arferai gael ei galw'n rhaglen Camau at Lwyddiant (STEPS), ond y cyfeirir ati fel rhaglen cymorth cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio ers mis Ebrill 2021).²
- 1.22 Er mwyn sicrhau bod ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio yn nodi'r holl rwystrau rhag cyflogaeth ac yn atgyfeirio'r unigolion i'r cymorth priodol, maent yn defnyddio asesiad anghenion uwch sy'n cael ei arwain gan gyngor ac arweiniad ar sail amgylchiadau'r unigolyn a'r rhwystrau sy'n ei atal rhag gwneud cynnydd, gan olygu bod modd iddynt atgyfeirio'r unigolion i dderbyn y cymorth cywir.
- 1.23 Prif amcan yr asesiad anghenion uwch hwn yw nodi'r lefel priodol o gymorth sydd ei angen. Bydd hyn yn cynnwys asesu sgiliau presennol yr unigolyn, hanes o brofiad gwaith, dyheadau o ran gyrfa, gallu i deithio, cyfrifoldebau gofal plant a gofalu,

² Darperir cymorth cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio ar gyfer cwsmeriaid 16 oed a throsodd. Mae cwsmeriaid yn derbyn amrywiaeth o gefnogaeth gan Hyfforddwr Cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio, gan gynnwys ysgrifennu neu wella CV, paratoi ar gyfer cyfweiliadau /ffug gyfweiliadau (gan gynnwys cyfweiliadau digidol), sut i hyrwyddo eich hun (Cyd-destun, Gweithredu, Canlyniad), cwblhau ceisiadau, deall y farchnad lafur, cymorth i chwilio am swydd, a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwaith.

iechyd ac anabledd, yn ogystal â statws tai er mwyn nodi'r rhwystrau sy'n atal yr unigolyn rhag cael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

1.24 Mae'r unigolion a nodir fel y rhai y mae arnynt fwyaf o angen cymorth Cymru'n Gweithio yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Pobl sy'n anweithgar yn economaidd
- Pobl ddi-waith
- Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- Pobl a dangyflogir
- Pobl o dan rybudd diswyddo
- Pobl anabl
- Pobl sy'n cael eu cadw dan glo mewn sefydliadau carchar diogel
- Pobl sy'n cael eu cadw dan glo ond sydd ar fin cael eu rhyddhau
- Pobl sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned

Nodau ac amcanion gwerthusiad Cymru'n Gweithio 2019–2022

1.25 Nod cyffredinol y gwerthusiad yw ystyried effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Ebrill 2022. Bydd y pwyslais ar berfformiad ac effaith y gwasanaeth, ynghyd ag adolygiad o gynllun y gwasanaethau a'r prosesau cyflenwi. Y nodau penodol yw:

- Gwerthuso pa mor effeithiol mae Cymru'n Gweithio yn cael ei gyflenwi i'r cynulleidfaoedd targed, a chynnig gwersi ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth yn y dyfodol; a
- Gwerthuso effaith Cymru'n Gweithio ar gwsmeriaid yn nhermau cyflogaeth, dysgu a datblygu sgiliau, a lles.

1.26 Amcanion y gwerthusiad yw:

- a) Adolygu a yw'r gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith o sicrhau blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau mae'n llwyddo i wneud hynny, gan gynnwys y Cynllun Cyflogadwyedd, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a Strategaeth y Gymraeg.
- b) Asesu perfformiad Cymru'n Gweithio yn erbyn ei nodau ac amcanion ar gyfer cyfnod yr adolygiad, gan gynnwys adolygiad o'r rhwystrau mae cwsmeriaid a Gyrfa Cymru wedi'u hwynebu ac a yw'r rhain wedi cael eu goresgyn, ac os felly sut cawsant eu goresgyn, ynghyd ag adolygiad o ymgysylltu a chyfranogiad (er

mwyn deall pwy sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth a phwy sydd ddim yn gwneud hynny) ac adolygiad o gynnydd yn erbyn targedau.

- c) Adolygu cynllun, rheolaeth a gweithrediad Cymru'n Gweithio er mwyn asesu pa mor addas ydyw i gyflawni nodau ac amcanion y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys deall unrhyw wahaniaethau rhanbarthol o ran gweithrediad, ffactorau llwyddiant, deilliannau na chawsant eu rhagweld, a chyfraniad y gwasanaeth i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (fel y'u nodir yn Cymraeg 2050).
- ch) Asesu effaith Cymru'n Gweithio i sefydlu system cymorth cyflogadwyedd syml ac effeithlon drwy ddarparu asesiadau holistaidd a phriodol (gan gynnwys defnyddio'r pecyn cymorth categoreiddio), arweiniad ac atgyfeiriadau; lle bo'n bosibl ac yn dibynnu ar argaeledd y data angenrheidiol, bydd hyn yn cynnwys cymhariaeth â charfan wrthffeithiol a dadansoddiad yn ôl y math o atgyfeiriad.
- d) Asesu effaith y gwasanaeth ar yr unigolion hynny sydd wedi defnyddio Cymru'n Gweithio, gan roi ystyriaeth benodol i ddeilliannau unigolion sydd wedi defnyddio Cymru'n Gweithio yn y tymor byr iawn ac yn y tymor hirach, ac a oes modd priodoli'r rhain i Cymru'n Gweithio ei hun.
- dd) Gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'n gryno y dulliau a'r gweithgareddau ymchwil a ddefnyddiwyd ac y byddwn yn adrodd arnynt yn y penodau dilynol.

Cyfweliadau a chyfarfodydd cwmpasu

- 2.2 Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu ar ddechrau 2020 a'u nod oedd ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid i archwilio'r rhesymeg ar gyfer Cymru'n Gweithio ac elfennau penodol o'r cynllun. At hyn, roeddent yn gyfle i drafod blaenoriaethau'r ymchwil. Yn bwysig iawn, cyfrannodd y cyfweliadau cwmpasu at ddatblygu'r ddamcaniaeth newid a fframwaith y gwerthusiad hefyd (fel yr amlinellir ym mhenodau diweddarach yr adroddiad hwn).
- 2.3 Cynhaliwyd 30 o gyfweliadau cwmpasu, gan gynnwys rhai ag aelodau allweddol o dîm Cymru'n Gweithio o fewn Gyrfa Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â chynllun y gwasanaeth), ac amryw o sefydliadau partner sy'n gweithio ym maes cyflogadwyedd yng Nghymru (gan gynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW), nifer o awdurdodau lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a Chyngres yr Undebau Llafur (TUC)).
- 2.4 Cynhaliwyd gwahanol weithgareddau hefyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydliadau partner yn ystod cam cwmpasu'r gwerthusiad. Mae'r rhain wedi cynnwys mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Rhanddeiliaid Cymru'n Gweithio (2) a chyfarfodydd grwpiau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (De Orllewin a De Ddwyrain Cymru). Prif ddiben y cyfarfodydd hyn oedd codi ymwybyddiaeth am y gwerthusiad, ond hefyd, unwaith yn rhagor, casglu barn am faterion allweddol y bydd y gwerthusiad yn eu hystyried.

Dadansoddiad o wybodaeth reoli

- 2.5 Mae'r gwerthusiad yn defnyddio'r data rheoli sy'n cael eu casglu gan dîm Cymru'n Gweithio i ystyried pob math o faterion gwahanol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol, y galw am y cymorth sy'n cael ei ddarparu, y dull o gael mynediad i'r gwasanaeth, a'r math o gwsmeriaid. Bydd y dadansoddiad yn cael ei gynnal ar adegau rheolaidd yn ystod y gwerthusiad, gan adeiladu ar y dadansoddiad cychwynnol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Rhagfyr 2020, fel y gwelir yn yr adroddiad hwn.

Gweithdai damcaniaeth newid

- 2.6 Fel y nodir mewn pennod ddiweddarach, mae datblygu damcaniaeth newid yn rhan bwysig o gam cwrpasu gwerthusiad ac mae'n elfen allweddol o'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd dau weithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu'r ddamcaniaeth newid; cymerodd wyth swyddog ran yn y gweithdy cyntaf a 12 swyddog yn yr ail.
- 2.7 Cynhaliwyd y gweithdai yn ystod y cyfnod clo a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19, felly cawsant eu hwyluso gan Microsoft Teams a defnyddiwyd Microsoft Whiteboard i gofnodi'r drafodaeth. Y cwestiynau allweddol a drafodwyd yn ystod y sesiynau hyn oedd:
- Beth yw nod Cymru'n Gweithio? Beth yw'r deilliannau mae'r gwasanaeth yn ceisio eu cyflawni?
 - Beth yw'r deilliannau y gallwn eu defnyddio yn y cyfnod canol i fapio cynnydd unigolion tuag at y deiliant/nod hwnnw?
 - Pa ragdybiaethau rydym wedi'u gwneud? Beth yw'r rhwystrau mae angen eu goresgyn? Beth yw'r galluo gwyr allweddol?

Adolygiad o ymateb COVID-19

- 2.8 Cadarnhawyd bod pandemig COVID-19 wedi lledaenu i Gymru ar ddiwedd mis Chwefror 2020, a chyflwynwyd cyfnod clo ar 23 Mawrth a wnaeth barhau nes i'r cyfyngiadau gael eu codi ym mis Mai a mis Mehefin 2020. Fodd bynnag, ailgyflwynwyd mesurau clo lleol ym mis Medi oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion o'r feirws, a daeth "cyfnod atal byr" 17 diwrnod o hyd i rym ar draws Cymru ar ddiwedd mis Hydref 2020.
- 2.9 Gwelwyd newidiadau sylweddol i'r ffordd roedd Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ac mae'r gwerthusiad wedi ceisio archwilio beth oedd effaith y newidiadau hyn ar y gwasanaeth.
- 2.10 Mae hyn wedi cael ei gynnwys fel llif gwaith ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod Cam 1 y gwerthusiad gyda'r gwaith maes ar gyfer yr adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod mis Hydref 2020 (cyn y "cyfnod atal byr"). Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn ag 18 aelod o dîm rheoli Cymru'n Gweithio ac arolwg ar-lein o staff rheng flaen Cymru'n Gweithio, a ddenodd 96 o ymatebion (holl staff Gyrfa Cymru a chyfradd ymateb o 48%). Mae dadansoddiad o broffil y rhai a atebodd yr arolwg ar-lein ar gael yn Atodiad 3.

Effaith COVID-19 ar y fethodoleg

- 2.11 Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 a'i gyfyngiadau a chyfnodau clo cysylltiedig hefyd wedi cael effaith ar yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod Cam 1 y gwerthusiad. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith maes, er enghraifft, wedi cael ei gynnal dros y ffôn a thrwy gyfrwng fideo, yn hytrach nag wyneb yn wyneb.
- 2.12 Y newid mwyaf sylweddol i'r fethodoleg oedd nad oedd modd ymgynghori'n sylweddol â chwsmeriaid gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ystod Cam 1, a oedd wedi'i gynllunio i ystyried y gwasanaeth o safbwynt y cyfranogwyr. Nid oedd cynnal gwaith maes sylweddol gyda chwsmeriaid yn cael ei ystyried yn briodol yn ystod y pandemig, gan fod y cyfyngiadau a oedd yn eu lle yn debygol o gael dylanwad arwyddocaol ar yr ymatebion i'r cwestiynau. Oherwydd yr oedi wrth ymgynghori â chwsmeriaid (a fydd yn rhan allweddol o Gam 2 y gwerthusiad) cafodd adnoddau eu rhyddhau a oedd yn golygu bod modd adolygu effaith COVID-19 ar wasanaeth Cymru'n Gweithio, fel y cyflwynwyd uchod.
- 2.13 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyswllt â chwsmeriaid yn ystod Cam 1 y gwerthusiad, cyflwynwyd cam ychwanegol ar ddiwedd 2020, a gafodd ei gynnal ar ddechrau 2021. Roedd hyn yn cynnwys datblygu 10 astudiaeth achos manwl gydag amryw o unigolion sydd wedi ymgysylltu â Cymru'n Gweithio ar ryw adeg yn ystod y 10 mis diwethaf. Mae'r astudiaethau achos hyn i'w gweld ym Mhennod 6 yr adroddiad.

3. Damcaniaeth Newid ar gyfer Cymru'n Gweithio


Pwyntiau allweddol

- Mae damcaniaeth newid yn esbonio sut mae disgwyl i ymyriad weithio, gan ddechrau â'r mewnbynnau, ac yna'r allbynnau (y gweithgareddau a gynhaliwyd), y deilliannau uniongyrchol (o ganlyniad i'r gweithgareddau), ac, yn olaf, effaith fwy hirdymor yr ymyriad.
- Mae mewnbynnau gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cynnwys y gyllideb o £9m y flwyddyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn i Gyrfa Cymru ddarparu'r gwasanaeth, ynghyd â dyraniad o £1.7m o gronfa graidd Gyrfa Cymru. Mae angen cynnwys mewnbwn o'r tu allan i Gyrfa Cymru gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau hynny sy'n atgyfeirio cwsmeriaid i'r gwasanaeth hefyd.
- Prif allbwn y gwasanaeth yw nifer yr unigolion sy'n derbyn cymorth drwy'r amrediad o weithgareddau a gynhelir. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn nodweddion yr unigolion hynny sydd wedi derbyn cymorth.
- Prif allbwn Cymru'n Gweithio yw nifer yr unigolion y mae'n eu hatgyfeirio neu'n eu cyfeirio. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y mathau o gyfeiriadau/atgyfeiriadau a wneir (y math o gwrs, y math o gymorth, ac ati) ac, unwaith yn rhagor, nodweddion yr unigolion sy'n cael eu cyfeirio/eu hatgyfeirio.
- Mae 'ansawdd' y deiliant yn bwysig gan ei fod yn elfen allweddol o resymeg Cymru'n Gweithio. A yw unigolion yn cael eu hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol/effeithiol i roi sylw i'w hanghenion arbennig/penodol?
- Yn achos yr unigolion sy'n derbyn cymorth, rhagwelir y bydd y cymorth yn arwain at wella eu cymhelliant a'u hunan-hyder o ganlyniad i wella eu dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael, cyfleoedd swyddi, ac ati.
- Dylai Cymru'n Gweithio wneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawni effeithiau economaidd yn ymwneud â chyflogadwyedd. Fodd bynnag, ni all y gwasanaeth sicrhau'r effeithiau hynny ar ei ben ei hun, gan ei fod yn dibynnu ar ddarparu cymorth hyfforddiant a datblygu yn effeithiol (y mae'n cyfeirio ato yn nhermau sicrhau effaith gadarnhaol).

Cyflwyniad

- 3.1 [Yn ôl Llyfr Magenta Trysorlys Ei Mawrhydi](#), er mwyn llunio polisïau da mae'n rhaid cael dealltwriaeth drylwyr o'r ymyriad a'r ffordd y bydd disgwyl iddo sicrhau'r deilliannau disgwyliedig. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ofynnol ar gyfer gwerthusiad da hefyd, ac mae damcaniaeth newid yn ddull sy'n helpu i sicrhau bod testun gwerthusiad yn cael ei ddeall yn iawn.
- 3.2 Mae damcaniaeth newid yn esbonio sut mae disgwyl i ymyriad weithio (drwy nodi'r holl gamau y disgwylir y byddant yn cael eu dilyn i sicrhau'r deilliannau a ddymunir), y rhagdybiaethau a wneir, ansawdd a chryfder y dystiolaeth sy'n eu cefnogi, a ffactorau cyd-destunol ehangach.³ Mae datblygu damcaniaeth newid fel arfer yn golygu ystyried y mewnbynnau arfaethedig (pa fuddsoddiadau/camau gweithredu fydd yn digwydd) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hyn at yr allbynnau disgwyliedig (yr hyn sy'n cael ei gyflawni neu ei gynhyrchu), deilliannau (canlyniadau cynnar neu dymor canol), ac, yn y pen draw, yr effaith (y canlyniadau hirdymor).

Ffigur 3.1: Enghraifft o ddamcaniaeth newid llinol




Ffynhonnell: The Magenta Book: Central Government Guidance on Evaluation

³ Gellir defnyddio sawl adnodd i ystyried sut mae disgwyl i ymyriad weithio, sy'n aml yn cael ei disgrifio fel 'damcaniaeth y rhaglen'. Mae'r rhain yn cynnwys damcaniaeth newid, mapio rhesymeg, fframiau log, mapio buddiannau, a mapio systemau. Mae'r holl brosesau hyn yn cynnwys mapio achosion ac effeithiau. Gweler Pennod 2 o'r Llyfr Magenta.

- 3.3 Gan dynnu ar ganfyddiadau a gasglwyd o'r cyfweiliadau cwmpasu, y gweithdai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o gynllunio, rheoli a chyflenwi'r gwasanaeth, a thrwy ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, mae'r bennod hon yn amlinellu damcaniaeth newid ar gyfer gwasanaeth Cymru'n Gweithio, gan ddechrau ag adolygiad o'r rhesymeg ar gyfer Cymru'n Gweithio fel ymyriad.
- 3.4 Mae diagram o'r ddamcaniaeth newid i'w weld yn Ffigur 3.2. Yn gryno, fodd bynnag, rydym yn nodi fod y ddamcaniaeth newid ar gyfer Cymru'n Gweithio yn seiliedig ar resymeg ganolog gymharol syml, fel y dangosir isod.

Ffigur 3.2: Rhesymeg ganolog damcaniaeth newid Cymru'n Gweithio



- 3.5 Mae'r drafodaeth sy'n dilyn a'r ddamcaniaeth newid a ddangosir yn Ffigur 5.3 yn tynnu ar ddau fath o ddamcaniaeth newid a ddatblygwyd i ystyried Cymru'n Gweithio fel ymyriad, sef un sy'n seiliedig ar un gweithgaredd ac un deiliant ac un a ddechreuodd â thaith y cyfranogwyr. Mae diagramau o'r ddau fodel yn Atodiad 1.

Tabl 3.1: Damcaniaeth newid llinol ar gyfer Cymru'n Gweithio

<i>O dan reolaeth Cymru'n Gweithio</i>			<i>Y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio</i>	
Mewnbynnau →	Allbynnau (gweithgareddau) →	Deilliannau A →	Deilliannau B →	Effeithiau
Y gyllideb a ddarperir i Gyrfa Cymru i gyflenwi gwasanaeth Cymru'n Gweithio + dyraniad i'r gwasanaeth o gyllideb graidd Gyrfa Cymru Mewnbwn swyddogion Llywodraeth Cymru o ran polisi a rheolaeth Atgyfeiriadau rhanddeiliaid allanol i'r gwasanaeth (e.e. DWP)	Nifer yr unigolion a dderbyniodd gymorth Mae amrediad eang o unigolion yn ymgysylltu â'r cymorth — gan ddangos fod rhwystrau wedi'u dileu Nifer yr atgyfeiriadau/cyfeiriadau a'u ffynhonnell Amrediad y gweithgareddau a gwblhawyd/cymorth a ddarparwyd Gweithgareddau allgymorth Gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo	<i>Ar gyfer y gwasanaeth:</i> Nifer yr atgyfeiriadau/cyfeiriadau a wnaed Amrediad yr unigolion a gafodd eu hatgyfeirio/cyfeirio Gwelliant yn 'ansawdd' atgyfeiriadau /cyfeirio (goddrychol) <i>Ar gyfer yr unigolyn:</i> Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol: a) Potensial/gallu personol b) Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad personol c) Cyfleoedd gwaith lleol ch) Dull o oresgyn rhwystrau rhag gwaith Yn arwain at newid cadarnhaol o ran: (a) Hunan-gymhelliant (b) Hunan-hyder	Cynnydd yn y budd mae unigolion yn ei gael o'r cymorth/hyfforddiant pellach (gan mai dyna'r cymorth cywir ar eu cyfer, mwy o gymhelliant ar ran yr unigolyn, ac ati) Mae dangosyddion posibl yn cynnwys cynnydd yn y nifer /cyfran sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddiant, ac ati.	<i>Yn cyfrannu at:</i> Effaith economaidd gadarnhaol: • Cynyddu trosiant y farchnad lafur • Lleihau diweithdra • Lleihau tangyflogaeth • Lleihau anweithgaredd economaidd • Cynyddu cynhyrchedd Effaith gadarnhaol ar lefelau lles Mae cymorth cyflogadwyedd yn cael ei gyflenwi yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan wella'r cost-budd

O dan reolaeth Cymru'n Gweithio			Y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio	
Mewnbynau →	Allbynau (gweithgareddau) →	Deilliannau A →	Deilliannau B →	Effeithiau
<i>Rhagdybiaethau, rhwystrau a galluogwyr</i> →	Gallu i gyflenwi'r gwasanaeth fel y cafodd ei gynllunio Galw am y gwasanaethau/cymorth sy'n cael eu darparu Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Gallu i gael mynediad iddo	Gallu i gyflenwi'r gwasanaeth fel y cafodd ei gynllunio Argaeledd yr hyfforddiant/cymorth angenrheidiol (er mwyn atgyfeirio /cyfeirio pobl iddo) Parodrwydd unigolion i gael eu hatgyfeirio/cyfeirio Cyfyngiadau o ran gallu unigolion i gael eu hatgyfeirio/cyfeirio	Ansawdd yr hyfforddiant/cymorth a ddarperir (y mae Cymru'n Gweithio wedi atgyfeirio/cyfeirio pobl iddo)	Argaeledd swyddi/cyfleoedd priodol
<i>Dylanwadau allanol</i> →	Yr amodau economaidd sydd ohoni Cyflyrau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol (e.e. effaith pandemig COVID-19) Y strwythurau cymorth lles a diweithdra sydd ohoni (e.e. y drefn fudd-daliadau, cynlluniau cyflogadwyedd eraill, ac ati)			

Rhesymeg

- 3.6 Prif rôl Cymru'n Gweithio yw darparu pwynt mynediad ar draws Cymru gyfan i gymorth cyflogadwyedd y gall unigolion ei ddefnyddio i gael asesiad anghenion uwch er mwyn nodi'r lefel priodol o gymorth mae arnynt ei angen i fodloni eu hanghenion unigol. Er bod Cymru'n Gweithio 'ar gael i bawb', mae sawl categori o unigolion wedi cael eu hadnabod fel pobl y mae 'fwyaf o angen' cymorth Cymru'n Gweithio arnynt, fel y rhestrir yn y cyflwyniad, sy'n elfen bwysig o'r gwasanaeth.
- 3.7 Mae'r ddamcaniaeth sy'n sail i Cymru'n Gweithio yn nodi'r canlynol:
- Mae cyflogadwyedd yn thema graidd ar gyfer lles a ffyniant
 - Mae'r dull newydd o fynd i'r afael â chyflogadwyedd (fel y nodir yng Nghynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru) i fod yn fwy clyfar ac yn fwy cysylltiedig er mwyn torri ar draws ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i lywodraeth, a lleihau unrhyw ddyblygu
 - Gan fod y rhwystrau rhag cyflogadwyedd yn amrywiol ac yn gallu bod yn gymhleth o ran eu rhyngweithio, gall ymyriad cynnar a chynghor ac arweiniad personol, ynghyd â chymorth ymarferol, wneud gwahaniaeth mawr
 - Er mwyn adlewyrchu'r cymhlethdod hwn, mae angen i anghenion cymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth fod yn hyblyg ac yn briodol i amgylchiadau unigol. At hyn, mae angen i'r cymorth fod yn gydlynus fel y gall unigolion ddewis o blith yr holl ymyriadau sydd ar gael.
- 3.8 Gwnaeth mwyafrif helaeth y rheini a gafodd eu cyfweld yn y cyfweiliadau cwmpasu ddisgrifio'r rhesymeg ar gyfer gwasanaeth Cymru'n Gweithio fel un clir a chadarn. Lleiafrif bach yn unig o'r rhai a gafodd eu cyfweld a ddywedodd pethau negyddol am resymeg y gwasanaeth, gan godi pryderon ynglŷn â bodloni'r galw sylweddol tebygol am y gwasanaeth a ddarperir heb gael effaith ar ansawdd y gwasanaeth. Yn benodol, mynegodd lleiafrif bach bryder ynglŷn ag argaeledd y nifer angenrheidiol o staff cymwysedig i gyflenwi'r gwasanaeth petai'r galw yn uchel iawn. (Dylid nodi i'r sylwadau hyn gael eu gwneud cyn pandemig COVID-19, sy'n debygol o gynyddu'r galw am y cymorth.)
- 3.9 Nid oedd y pryderon, felly, yn ymwneud â'r rhesymeg dros yr ymyriad ond yn hytrach y gallu i'w gyflawni ac, yn benodol (i ddefnyddio terminoleg damcaniaeth newid), argaeledd y 'mewnbwn' sydd ei angen. Mae'r pryderon hefyd yn nodi un o'r rhagdybiaethau allweddol yn ymwneud â Cymru'n Gweithio — bod adnoddau digonol ar gael i ateb y galw am y gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mewnbynnau

- 3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o ychydig dros £9m y flwyddyn i Gyrfu Cymru i reoli a chyflenwi Cymru'n Gweithio. At hyn, dyrennir £1.7m y flwyddyn i gyflenwi'r gwasanaeth o gyllideb graidd Gyrfu Cymru. Mae'r arian hwnnw wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer y canlynol:
- Yr holl weithgareddau gyda phobl NEET 16–17 oed
 - Yr holl weithgareddau gyda disgyblion blwyddyn 11/12 sy'n gadael yr ysgol ac sy'n bwriadu symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant
 - Yr holl weithgareddau gyda phobl ifanc mewn sefydliadau diogel
- 3.11 Mae Cymru'n Gweithio yn cael ei gyflenwi gan dîm o 209.3 o staff cyfwerth amser llawn (FTE) (gan gynnwys 35.5 o staff cyfwerth amser llawn a arenir drwy gyllideb graidd Gyrfu Cymru). Mae swyddi'r tîm wedi'u dangos yn y tabl isod, wedi'u trefnu yn ôl rhanbarth.

Tabl 3.1: Teitlau swyddi staff Cymru'n Gweithio a'u nifer

Staff/Swydd	Cyfanswm Staff FTE
Pennaeth Cyngor Cyflogaeth	1.00
Rheolwyr Datblygu Gweithredol	3.93
Rheolwr Prosiect Cymru'n Gweithio	1.00
Rheolwr Strategaeth Cymru'n Gweithio	0.80
Rheolwyr Tîm	11.80
Ymgynghorwyr Gyrfu	119.63
Hyfforddwyr Cyflogadwydd	36.79
Cynorthwyyr Gweinyddol	24.17
Uwch Ddatblygwr Systemau	1.00
Uwch Swyddog Gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth	1.00
Uwch Gydlynnydd Marchnata	1.00
Rheolwyr Ymgysylltiad Rhanddeiliaid	4.00
Cydlynnydd Dysgu a Datblygu	1.00
Rheolwr Tîm Cyswllt Gyrfu Cymru	0.60
Cydlynnydd Marchnata	0.40
Arweinydd Cydlynnydd Gwybodaeth / Cynnwys	0.20
Gwiriwr Data Technegol	1.00
Cyfanswm	209.32

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

- 3.12 Darperir gwasanaethau mewn canolfannau gyrfaedd yn ogystal â lleoliadau allgymorth. Darperir gwasanaethau ar-lein/digidol hefyd, sy'n gofyn am fewnbwn o ran eu cynnal, ac ati.
- 3.13 Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hefyd yn gofyn am fewnbwn o'r tu allan i Gyrfu Cymru i weithredu. Mae hyn yn cynnwys amser sawl swyddog Llywodraeth Cymru

yn rhinwedd eu rôl polisi a rheolaeth. Yn bwysig iawn, mae rhanddeiliaid a phartneriaid allanol hefyd yn darparu mewnbwn ar ffurf atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.

Allbynnau (y gweithgareddau a gynhaliwyd)

- 3.14 Prif allbwn gwasanaeth Cymru'n Gweithio yw nifer yr unigolion a gefnogir drwy'r amryw o weithgareddau a gynhelir, sy'n cynnwys:
- Cymorth wyneb yn wyneb mewn amryw o leoliadau
 - Cymorth i unigolion dros y ffôn a thrwy gyfrwng fideo (yn enwedig ers cyfyngiadau clo COVID-19)
 - Sesiynau grŵp (gan gynnwys ymateb brys i sefyllfaoedd diswyddo)
 - Sgyrsiau gwe
 - Amryw o wasanaethau digidol
- 3.15 Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb hefyd yn nodweddion yr unigolion sy'n derbyn cymorth ac, yn benodol, i ba raddau mae Cymru'n Gweithio yn ymgysylltu â'r grwpiau penodol yn y boblogaeth sydd wedi'u targedu gan y gwasanaeth ac sy'n helpu i oresgyn rhwystrau rhag ymgysylltu â chymorth cyflogadwydd.^{4 5}
- 3.16 Cynhelir gweithgareddau ymgysylltu helaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid hefyd, yn ogystal ag amryw o weithgareddau marchnata a hyrwyddo (sy'n cynhyrchu allbynnau gan gynnwys nifer y gweithgareddau ymgysylltu ac ati). Fodd bynnag, yr allbwn craidd yw nifer yr unigolion (a'r mathau) sy'n derbyn cymorth.

Deilliannau (canlyniadau'r gweithgareddau)

- 3.17 Mae deilliannau yn cynrychioli'r hyn sy'n digwydd o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynhelir. Yn achos Cymru'n Gweithio, mae dau fath penodol o ddeilliannau (a drafodir isod). Yn gyntaf, mae'r deilliannau ar gyfer gwasanaeth Cymru'n Gweithio; yn ail, mae'r deilliannau ar gyfer yr unigolion sy'n derbyn cymorth.

Ar gyfer y gwasanaeth

- 3.18 Ar lefel gwasanaeth, mae nifer yr atgyfeiriadau a/neu gyfeiriadau a wnaed gan Cymru'n Gweithio i gael cymorth dilynol a nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio yn ddeilliannau pwysig (gan adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion gael eu hatgyfeirio

⁴ Er hwylustod, y grwpiau hyn yw: unigolion anweithgar yn economaidd, di-waith, ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), tangyflogedig, o dan rybudd diswyddo, anabl, yn y ddalfa mewn sefydliadau carchar diogel, yn y ddalfa ond ar fin cael eu rhyddhau, a throsgeddwy'r sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned.

⁵ Bydd y dadansoddiad hwn yn tynnu ar wybodaeth bersonol a ddarperir gan gwsmeriaid Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, darperir yr wybodaeth honno yn wirfoddol (a bydd angen ystyried hynny wrth gynnal y dadansoddiad).

mwy nag unwaith neu i fwy nag un gwasanaeth). Ymhellach, mae gennym ddiddordeb yn y mathau o atgyfeiriadau/cyfeiriadau a wneir (y math o gwrs, ac ati) a nodweddion yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio.⁶

- 3.19 Mae gennym ddiddordeb hefyd yn 'ansawdd' y deiliant, gan fod hwn yn elfen allweddol o resymeg Cymru'n Gweithio. Un o'r deilliannau a ragwelir o ran Cymru'n Gweithio yw bod y dull sy'n cael ei fabwysiadu yn golygu bod unigolion yn cael eu hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol/effeithiol i roi sylw i'w hanghenion arbennig/penodol. Fodd bynnag, mae asesu a yw hyn yn digwydd neu beidio yn anodd (h.y. diffinio ansawdd yr atgyfeiriad), gan nad yw'n hawdd sefydlu beth fyddai natur yr atgyfeiriad pe na bai gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn bodoli (h.y. sefydlu'r gwrthfffaith).
- 3.20 Fodd bynnag, fel y nodir yn fframwaith y gwerthusiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae hwn yn ddeiliant y bydd y gwerthusiad yn ceisio ei archwilio drwy asesu 'ansawdd' yr atgyfeiriad sy'n cael ei wneud o sawl safbwynt gwahanol, gan gynnwys un y cyfranogwr sy'n derbyn cymorth a'r sefydliad y cafodd yr unigolyn ei gyfeirio ato.
- 3.21 Un deiliant ychwanegol yw y dylai cyflwyno Cymru'n Gweithio ddileu'r rhwystrau sy'n atal rhai grwpiau rhag cael mynediad i wasanaethau cyflogadwyedd, drwy gynnig gweithgareddau allgymorth, er enghraifft. Dylai hyn arwain at leihad yn nifer yr unigolion/grwpiau sy'n cael eu heithrio o'r ddarpariaeth cymorth cyflogadwyedd, yn benodol y grwpiau hynny a gafodd eu hadnabod yng nghynllun y gwasanaeth fel y rhai sy'n cael eu 'targedu'.

Ar gyfer yr unigolyn

- 3.22 Mae nifer o ddeilliannau ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn cymorth wedi'u nodi yn y ddamcaniaeth newid ac maent yn deillio — o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd — o gael gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

⁶ Mae'n bwysig nodi ein bod yn gwahaniaethu rhwng 'atgyfeiriadau' (*referrals*) a 'chyfeirio' (*signposting*). Mae rhaglen Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio unigolion i raglenni eraill Llywodraeth Cymru neu i gael cymorth pellach y gallir ei ddarparu gan y gwasanaeth. Mae unigolion yn cael eu cyfeirio at raglenni a chymorth a ddarperir gan drydydd partïon.

- a) Potensial/galluoedd personol (cryfderau, gwendidau, ac ati)
- b) Cyfleoedd mewn perthynas â'r canlynol (i) y farchnad lafur/swyddi a (ii) hyfforddiant /cymorth datblygiad personol
- c) Dulliau o oresgyn unrhyw rwystrau sy'n bodoli rhag cael gwaith.

3.23 Mae gwella'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon yn arwain at newidiadau cadarnhaol yn yr unigolion yn nhermau'r hyn sy'n aml yn cael eu cyfeirio atynt fel 'deilliannau ysgafn', yn benodol:

- a) Cymhelliant (yn sgil deall y cyfleoedd, potensial, ac ati)
- b) Hunan-hyder (am yr un rhesymau)

3.24 Dylai hyn, yn ei dro, arwain at gynydd yn y budd a gaiff unigolion o'r cymorth/hyfforddiant pellach maent yn ei dderbyn. Mae hyn oherwydd eu bod yn derbyn a/neu'n ymgymryd â'r cymorth sydd orau neu'n fwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. At hyn, bydd ganddynt fwy o gymhelliant gan fod ganddynt well dealltwriaeth o'r cymorth/hyfforddiant maent yn ei dderbyn. Nodir hyn yn Ffigur 3.3 fel Deilliant B.

Effaith (y canlyniadau mwy hirdymor)

3.25 Yr effaith y bwriadwyd i Cymru'n Gweithio *gyfrannu tuag ati* yw cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn nhermau cyflogadwyedd, datblygu economaidd, a llesiant, fel y nodir yn adran cyd-destun polisi'r cyflwyniad i'r adroddiad hwn. Mae'n gwneud hynny drwy ddadansoddi anghenion unigolion a'u hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol i roi sylw i'w hanghenion, gan greu effaith gadarnhaol. Yr hyn mae'r ddamcaniaeth newid yn ei ddangos, fodd bynnag, yw na all Cymru'n Gweithio gyflawni'r effeithiau hynny ar ei ben ei hun. Mae angen ymyriadau dilynol er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd.

3.26 Y 'deilliant olaf' y gall Cymru'n Gweithio ddylanwadu'n uniongyrchol arno yw gwneud yr atgyfeiriad yn ogystal ag ansawdd yr atgyfeiriad, fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol. Mae rôl allweddol Cymru'n Gweithio yn y 'darlun mwy' yn amlwg. Bydd y deilliannau y bwriadwyd i Cymru'n Gweithio eu cyflawni yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r effeithiau canlynol:

- Mae unigolion yn gwireddu eu potensial, gan gynyddu eu ffyniant economaidd o'r herwydd
- Mae deilliannau cyflogaeth yn arwain at ddeilliannau llesiant i'r unigolion dan sylw ac i gymdeithas yn gyffredinol

- 3.27 Felly, mae'r ffaith na all Cymru'n Gweithio sicrhau'r effeithiau hyn ar ei ben ei hun (ac, felly, na ellir barnu'r gwasanaeth ar y sail bod yr effeithiau hynny i'w gweld, yn unig) yn bwynt pwysig.
- 3.28 Effaith arall o safbwynt rheolaeth y gwasanaeth yw y dylai Cymru'n Gweithio, drwy wella ansawdd yr atgyfeiriadau a/neu gyfeiriadau, arwain at gyflenwi rhaglen cymorth cyflogadwyedd mwy effeithiol a mwy effeithlon yng Nghymru. Os yw unigolion yn derbyn y cymorth sy'n fwyaf addas ar eu cyfer (ac, felly, y mwyaf effeithiol), dylai hyn arwain at lai o angen am gymorth/ymyriadau yn y dyfodol, gan leihau'r gost i'r sector cyhoeddus yn y dyfodol.
- 3.29 Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio unigolion i wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â chyflogadwyedd lle bo'n briodol. Gallai'r rhain gynnwys cymorth tai, cymorth yn gysylltiedig ag iechyd, ac ati, gan olygu bod gan Cymru'n Gweithio rôl i'w chwarae y tu hwnt i gymorth cyflogadwyedd.

Rhagdybiaethau, galluogwyr allweddol a rhwystrau

- 3.30 Mae'r broses o ddatblygu'r ddamcaniaeth newid ar gyfer Cymru'n Gweithio wedi nodi nifer o ragdybiaethau pwysig, galluogwyr allweddol, a rhwystrau y mae angen eu goresgyn os yw Cymru'n Gweithio am sicrhau'r deilliannau a'r effaith a ddymunir.
- 3.31 Efallai mai'r rhagdybiaeth bwysicaf yw bod y math o gymorth y mae tîm Cymru'n Gweithio yn credu bod ei angen ar gael — h.y. bod modd atgyfeirio /cyfeirio pobl i'r math o gymorth y nodir bod ei angen ac, os yw ar gael, ei fod o'r ansawdd priodol.
- 3.32 Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod Cymru'n Gweithio yn un rhan o ymyriad ehangach y mae angen iddo fod yn ei le i gynhyrchu'r effaith y mae polisi cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni. Ni fydd y rhan gyntaf (Cymru'n Gweithio) yn effeithiol (yn nhermau creu'r effaith a ddymunir) heb yr ail ran (darparu hyfforddiant, ac ati). Mae sicrhau bod y rhan olaf yn ei lle ac yn effeithiol yn bwysig iawn felly.
- 3.33 Mae rhagdybiaeth hefyd (a) bod galw am y math o gymorth mae Cymru'n Gweithio yn ei ddarparu ac (b) y bydd unigolion yn gallu cael mynediad i'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Bydd angen i rai unigolion a grwpiau oresgyn rhwystrau er mwyn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth, ac mae gweithgareddau marchnata ac allgymorth yn cael eu nodi fel 'galluogwyr' allweddol yn y cyd-destun hwnnw.

- 3.34 Mae elfennau marchnata ac allgymorth y gwasanaeth wedi'u cynllunio ar y sail bod galw am y gwasanaeth a bod yna unigolion a /neu grwpiau sy'n chwilio am gymorth ond nad oeddynt wedi cael mynediad iddo, cyn i Cymru'n Gweithio gael ei gyflwyno. Os nad yw hyn yn wir, ni fyddai angen gweithgareddau marchnata nac allgymorth. Mae hyn yn rhywbeth y gall y gwerthusiad ei archwilio drwy ystyried sut daeth cwsmeriaid i glywed am Cymru'n Gweithio a dechrau ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- 3.35 Yn gysylltiedig â'r uchod mae'r rhagdybiaeth bod y mewnbynnau sy'n cael eu darparu (yn benodol, yr adnoddau sydd ar gael yn Gyrfa Cymru) yn ddigonol i ateb y galw am gymorth (heb orfod cyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaeth). Fel y nodwyd eisoes yn y bennod hon, roedd lleiafrif bach o'r rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau cwmpasu yn poeni nad oedd hyn yn wir, a bydd hyn yn fater pwysig i'r gwerthusiad ei ystyried.
- 3.36 Yn yr un modd, mae rhagdybiaeth y gall tîm Cymru'n Gweithio ddarparu a chynnal gwasanaeth o safon briodol. Mae'r ddamcaniaeth newid yn dibynnu ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n asesu anghenion unigol pob cyfranogwr yn effeithiol. Bydd angen sicrhau bod cynnal safon y gwasanaeth a rheoli ansawdd yn elfen allweddol felly o gyflenwi Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn cynnwys cynnal lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amodau'r farchnad lafur leol a'r hyfforddiant sydd ar gael i'r unigolion a gefnogir gan Cymru'n Gweithio.
- 3.37 Mae datblygu a chynnal cysylltiadau â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol wedi'i nodi fel galluoogydd allweddol yn y ddamcaniaeth newid am y rheswm hwn. Mae'r rhanddeiliaid hynny yn cynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, y DWP, Canolfannau Byd Gwaith, awdurdodau lleol, prosiectau cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru, ac ati.
- 3.38 Mae'n bwysig nodi'r dylanwad y caiff yr amodau economaidd presennol ar Cymru'n Gweithio hefyd. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5, mae'r sioc economaidd a achoswyd gan bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli'r feirws wedi cael effaith ar nifer y cyfranogwyr a'r mathau o gwsmeriaid, a gwelwyd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n cymryd rhan ar ôl cael eu diswyddo.
- 3.39 Bydd ffactorau eraill yn debygol o gael effaith yn y dyfodol ar yr ecosystem neu'r cyd-destun y mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu ynddo a'i 'berfformiad'. Mae'r rhain yn cynnwys effaith mwy hirdymor Brexit ar yr economi a'r farchnad lafur, newidiadau yn y cymorth sydd ar gael i unigolion wrth i arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben, a chyflwyno ymyriadau newydd (gan gynnwys ymyriadau a reolir

y tu hwnt i Gymru). Mae'r pwynt olaf yn bwysig iawn a gwelwyd enghraifft eisoes o'r math hwn o newid yn sgil cyflwyno Cynllun Kickstart ar draws y DU yn 2020 mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19.⁷ Bydd rhaglenni o'r fath yn cael effaith ar Cymru'n Gweithio yn nhermau, er enghraifft, nifer y cyfranogwyr ac unigolion a all dderbyn cymorth gan y cynllun hwnnw yn hytrach na'r nifer sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio. Felly bydd angen i'r gwerthusiad ystyried ffactorau o'r fath.

Casgliad

- 3.40 Y prif ganfyddiad mewn perthynas â'r broses o ddatblygu damcaniaeth newid ar gyfer Cymru'n Gweithio yw bod y ddamcaniaeth yn gymharol syml a chadarn. Mae'r pwyslais ar nifer y cwsmeriaid (a'r mathau o gwsmeriaid) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, nifer yr atgyfeiriadau (a'r mathau), yn ogystal â'r gwaith cyfeirio sy'n cael ei wneud, a buddion cymryd rhan yn Cymru'n Gweithio i'r unigolion (cwsmeriaid) dan sylw.
- 3.41 Mae gennym ddiddordeb hefyd yn 'ansawdd' y deilliant a ddaw yn sgil Cymru'n Gweithio, gan fod hwn yn elfen allweddol o resymeg y gwasanaeth. A yw unigolion yn cael eu hatgyfeirio a'u cyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol/effeithiol er mwyn rhoi sylw i'w hanghenion arbennig/penodol? Bydd gwerthuso hyn yn fwy heriol, er yn bwysig iawn.
- 3.42 Mae'r broses hefyd wedi canfod y bydd Cymru'n Gweithio (os caiff y ddamcaniaeth newid ei gwireddu) yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i sicrhau effeithiau economaidd yn ymwneud â chyflogadwyedd. Yn bwysig iawn, ni all y gwasanaeth, fodd bynnag, sicrhau'r effeithiau hynny ar ei ben ei hun, gan ei fod yn dibynnu ar gyflenwi hyfforddiant a chymorth datblygu yn effeithiol (y mae'n cyfeirio ato yn nhermau sicrhau effaith gadarnhaol). Dyma ragdybiaeth allweddol y ddamcaniaeth — bod y cymorth y caiff unigolion eu hatgyfeirio ato ar gael ac yn effeithiol.

⁷ Cyflwynwyd Cynllun [Kickstart](#) gan y DWP ym mis Medi 2020 ac mae'n rhoi arian i gyflogwyr greu lleoliadau gwaith ar gyfer unigolion 16–24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

4. Dadansoddiad o Wybodaeth Monitro'r Gwasanaeth

Pwyntiau allweddol

Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn ymwneud â Blwyddyn 1 y gwasanaeth (Ebrill 2019–Mawrth 2020) a Blwyddyn 2 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020.

Blwyddyn 1 (Ebrill 2019–Mawrth 2020)

- Roedd nifer y cwsmeriaid oedolion newydd fesul mis yn aml yn fwy na 2,000.
- Roedd dros 17,000 o'r cwsmeriaid oedolion newydd yn ddi-waith pan wnaethant ymuno, ac roedd ychydig dros wyth y cant o dan rybudd diswyddo.
- Roedd rhwng 100 a 200 o bobl ifanc ddi-waith yn ymuno bob mis.
- Yn ystod Blwyddyn 1, cafodd 23,731 o gwsmeriaid oedolion a 5,630 o gwsmeriaid ifanc eu hatgyfeirio i gael cymorth pellach.
- Roedd Cymru'n Gweithio yn cynnig cymorth mewn tua 110 o ganolfannau allgymorth (gan gynnwys eu canolfannau eu hunain) tan ddechrau'r cyfnod clo cyntaf ar 23 Mawrth 2020.
- Roedd dros 37,000 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb ag oedolion, sef 55 y cant o'r holl ryngweithiadau ag oedolion.
- Cafodd bron i 60 y cant o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid ieuenctid eu cynnal wyneb yn wyneb — mae hyn yn cyfateb i 6,700 rhyngweithiad wyneb yn wyneb.
- Anfonwyd bron i 115,000 o negeseuon testun ac 16,000 o negeseuon e-bost at gwsmeriaid oedolion.
- Roedd dros 114,000 o ddefnyddwyr unigryw wedi defnyddio safle micro Cymru'n Gweithio.
- Roedd dros 12,000 (neu 46 y cant) o atgyfeiriadau oedolion yn hunan-atgyfeiriadau. Roedd atgyfeiriadau gan y Canolfannau Byd Gwaith yn cyfrif am 36 y cant o'r holl atgyfeiriadau (neu 9,631 atgyfeiriad).
- Roedd hanner y cwsmeriaid ifanc a gafodd eu hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio yn hunan-atgyfeiriadau, sy'n cyfateb i bron i 2,700 atgyfeiriad. Roedd bron i 1,500 atgyfeiriad (neu 27 y cant o'r holl atgyfeiriadau) gan Dîm Addysg Gyrfa Cymru.
- Roedd 21 y cant (neu bron i 7,000) o'r atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio ar ran cwsmeriaid oedolion i fathau o hunan-gymorth, ac aeth 12 y cant i ReAct III a 7 y cant i raglen STEPS. Nid oedd angen cymorth pellach ar 19 y cant (neu 6,440) o gwsmeriaid.

- Yn achos cwsmeriaid ifanc, roedd 32 y cant o'r atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio i hyfforddeiaethau. Cafodd dros 1,000 o gwsmeriaid ifanc eu hatgyfeirio i brentisiaethau (neu 11 y cant o'r holl atgyfeiriadau).

Blwyddyn 2 (Ebrill 2020–Rhagfyr 2020)

- Roedd llai o gwsmeriaid oedolion newydd ar ddechrau Blwyddyn 2, ond dechreuodd y niferoedd godi eto yn ystod yr haf 2020. Roedd nifer y cwsmeriaid ifanc newydd fesul mis yn dilyn yr un patrwm.
- Roedd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid oedolion newydd a oedd o dan rybudd diswyddo ar ôl y cyfnod clo cyntaf ar ddechrau Blwyddyn 2, gan gyrraedd uchafbwynt yn ystod mis Gorffennaf 2020.
- Cafodd y cyfnod clo cyntaf o ganlyniad i bandemig COVID-19 fwy o effaith ar gwsmeriaid oedolion (Mawrth 2020) nag ar gwsmeriaid ifanc.
- Nid oedd fawr ddim rhyngweithiadau wyneb yn wyneb na sesiynau grŵp yn ystod nac ar ôl y cyfnod clo gan nad oedd canolfannau Gyrfa Cymru ar agor, ond gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y rhyngweithiadau dros y ffôn.
- O safbwynt rhyngweithiadau anuniongyrchol, gwelwyd llai o ddefnydd o negeseuon testun yn ystod yr ail flwyddyn, ond roedd cynnydd yn nifer y negeseuon e-bost.
- Roedd lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau i bob math o ddarpariaeth gan Cymru'n Gweithio yn ystod misoedd cyntaf Blwyddyn 2. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd cyson yn niferoedd yr atgyfeiriadau yn dilyn hynny.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer yr hyfforddeiaethau ar lefel ymgysylltiad ar gyfer cwsmeriaid ifanc o 24 y cant ym Mlwyddyn 1 i 58 y cant ym Mlwyddyn 2.

Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r data monitro ar gyfer gwasanaeth Cymru'n Gweithio ar gyfer y cyfnodau Ebrill 2019–Mawrth 2020 (Blwyddyn 1 y gwasanaeth) ac Ebrill 2020–Rhagfyr 2020, gyda'r olaf yn cynrychioli dwy ran o dair o Flwyddyn 2 y gwasanaeth.
- 4.2 Wrth ystyried y ffigyrau ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (hyd yma), mae'n rhaid ystyried y cyfyngiadau a gafodd eu cyflwyno oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r rhain wedi cael effaith ar nifer y cwsmeriaid a'r math o gymorth sy'n cael ei ddarparu yn ystod Blwyddyn 2 hyd yma. Mae angen cymryd gofal felly wrth ddehongli a chymharu'r data. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r data ochr yn ochr yn fwy dymunol gan fod hyn yn dangos yn glir sut mae'r gwasanaeth wedi newid o

ganlyniad i'r pandemig, ac mae hyn yn bwysig o safbwynt gwerthuso. Ni chyflwynir unrhyw gasgliadau ar sail y newidiadau yn y data rhwng Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

- 4.3 Er hwylustod, dechreuodd y cyfnod clo cyntaf yn gysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru ar 23 Mawrth 2020 a daeth i ben ar 1 Mehefin. Cafodd cyfyngiadau eu codi'n raddol rhwng 1 Mehefin a 7 Medi cyn cael eu hailgyflwyno rhwng 7 Medi ac 19 Hydref pan roddwyd 'cyfyngiadau lleol' ar waith mewn gwahanol rannau o Gymru. Cyflwynwyd 'cyfnod atal byr' rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd yng Nghymru, cyn i'r wlad ddychwelyd i ail gyfnod glo ar 20 Rhagfyr 2020 (sydd yn dal mewn grym ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn).

Nifer y cwsmeriaid

- 4.4 Nifer cronus cwsmeriaid Cymru'n Gweithio a dderbyniodd gymorth yn ystod Blwyddyn 1 (Ebrill 2019–Mawrth 2020) oedd 35,485, a'r nifer ym Mlwyddyn 2 oedd 20,189⁸ (Ebrill 2020 tan ddiwedd Rhagfyr 2020).
- 4.5 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd dros 2,000 o gwsmeriaid oedolion newydd bob mis. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid newydd a oedd yn oedolion ar ddechrau Blwyddyn 2, ond dechreuodd y niferoedd godi eto yn ystod yr haf 2020 (gweler Tabl 4.1 a Ffigyrau 4.1a a 4.1b). Roedd nifer y cwsmeriaid ifanc newydd fesul mis yn dilyn patrwm tebyg i'r oedolion (gweler Ffigyrau 4.2a a 4.2b). Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y carcharorion a dderbyniodd gymorth un i un fesul mis gan ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio yn ystod Blwyddyn 2. Roedd hyn oherwydd nad oedd yn bosibl i staff Cymru'n Gweithio ymweld â'r carchardai ac oherwydd bod cyfyngiadau wedi'u gosod ar ymyriadau digidol (gweler Ffigyrau 4.3a a 4.3b).


⁸ Gofynnodd cyfanswm cronus o 20,189 o gwsmeriaid unigryw am gymorth gan Cymru'n Gweithio yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020. O blith y nifer hwn, gofynnodd cyfanswm o 15,808 o oedolion a 4,381 o bobl ifanc am gymorth. Mae'n bwysig nodi bod y cyfansymiau ar gyfer y cyfnod hwn ar gyfer oedolion a phobl ifanc yn cynnwys cwsmeriaid presennol ('rhai sy'n aros') a oedd eisoes wedi cael cymorth cyn 1 Ebrill 2021, ynghyd â chwsmeriaid newydd ('rhai sy'n ymuno') a wnaeth geisio cymorth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020.

Tabl 4.1: Cyfanswm y cwsmeriaid unigryw a wnaeth ofyn am gymorth fesul blwyddyn

Grŵp Cwsmer	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)
Oedolion	29,618	15,808
Roedd y canlynol o'u plith yn y gwasanaeth carchardai oedolion	1,084	121
Pobl ifanc	5,867	4,381


Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.1a: Nifer cronnus cwsmeriaid oedolion Cymru'n Gweithio a nifer yr oedolion a wnaeth ymuno fesul mis, Blwyddyn 1




* Gallai'r rhai sy'n ymuno yn ystod mis gynnwys cwsmeriaid a oedd yn ailymweld
Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.1b: Nifer cronrus cwsmeriaid oedolion Cymru'n Gweithio a nifer yr oedolion a wnaeth ymuno fesul mis, Blwyddyn 2




* Gallai'r rhai sy'n ymuno yn ystod mis gynnwys cwsmeriaid a oedd yn ailymweld
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.2a: Nifer cronrus cwsmeriaid ifanc Cymru'n Gweithio a nifer y bobl ifanc a wnaeth ymuno fesul mis, Blwyddyn 1




* Gallai'r rhai sy'n ymuno yn ystod mis gynnwys cwsmeriaid a oedd yn ailymweld
Sylwer: mae ffigurau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.2b: Nifer cronrus cwsmeriaid ifanc Cymru'n Gweithio a phobl ifanc a wnaeth ymuno fesul mis, Blwyddyn 2




* Gallai'r rhai sy'n ymuno yn ystod mis gynnwys cwsmeriaid a oedd yn ailymweld
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.3a: Nifer cronrus y carcharorion a oedd yn derbyn cymorth un i un a'r niferoedd fesul mis (mae carcharorion wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer oedolion), Blwyddyn 1



Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.3b: Nifer cronrus y carcharorion a oedd yn derbyn cymorth un i un a'r niferoedd fesul mis (mae carcharorion wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer oedolion), Blwyddyn 2



Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Statws cwsmeriaid oedolion newydd

- 4.6 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd dros 17,000 o'r cwsmeriaid oedolion newydd yn ddi-waith pan wnaethant ymuno. Ar ôl gostwng ym mis Ebrill 2020, dechreuodd nifer y cwsmeriaid oedolion a oedd yn ddi-waith godi unwaith yn rhagor rhwng mis Mai 2020 a mis Medi 2020 ond ni wnaeth y nifer gyrraedd uchafbwynt Blwyddyn 1. Yn gyffredinol, roedd dau o bob tri chwsmer yn ddi-waith — mae'r gyfran ym Blwyddyn 2 (hyd yma) yn fwy nag ym Blwyddyn 1 (gweler Tabl 4.2).
- 4.7 Ym Blwyddyn 1, roedd ychydig dros 8 y cant o gwsmeriaid oedolion newydd o dan rybudd diswyddo. Roedd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid yn dilyn y cyfnod clo cyntaf (yn dechrau ym mis Mehefin 2020) ar gyfer y rheini a oedd o dan rybudd diswyddo, gan gyrraedd uchafbwynt yn ystod mis Gorffennaf 2020 (Ffigur 4.4). Hyd yma, ym Blwyddyn 2, y gyfran o dan rybudd diswyddo yw 12.6 y cant. Mae cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (neu'r 'cynllun ffyrlo' fel mae'n cael ei alw)⁹ wedi arwain at leihad yn nifer y diswyddiadau posibl, ond mae'n bosibl

⁹ Ar 20 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws. Diben y Cynllun hwn yw darparu grantiau i gyflogwyr er mwyn sicrhau y gallant gadw staff a pharhau i'w talu, er gwaethaf effeithiau pandemig COVID-19.

y bydd mwy o gwsmeriaid yn perthyn i'r categori hwn unwaith y daw'r cynllun i ben tua diwedd 2021.

- 4.8 Yn ystod Blwyddyn 1, yn ogystal ag ymgysylltu â nifer mawr o gwsmeriaid di-waith a'r rheini a oedd o dan rybudd diswyddo, bu Cymru'n Gweithio mewn cysylltiad â phobl a oedd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur, e.e. dros 1,000 o gwsmeriaid nad oeddynt ar gael i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (EET) am wahanol resymau a thros 500 o gwsmeriaid a oedd yn anweithgar yn economaidd (o bosibl am resymau yn ymwneud ag iechyd neu anabledd neu oherwydd bod ganddynt ddyletswyddau gofalu, ymhlith rhesymau eraill).


Tabl 4.2: Statws cwsmeriaid oedolion newydd fesul blwyddyn

Statws	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhag '20)		Cyfanswm	
Di-waith	17,189	64.9%	8,275	67.7%	25,464	65.8%
O dan rybudd diswyddo	2,151	8.1%	1,540	12.6%	3,691	9.5%
Yn gweithio amser llawn	2,418	9.1%	1,019	8.3%	3,437	8.9%
Yn gweithio rhan amser	1,474	5.6%	477	3.9%	1,951	5.0%
Ddim ar gael ar gyfer EET	1,103	4.2%	137	1.1%	1,240	3.2%
Addysg bellach amser llawn	799	3.0%	305	2.5%	1,104	2.9%
Anweithgar yn economaidd	561	2.1%	146	1.2%	707	1.8%
Rhaglen cyflogadwyedd/s giliau arall LIC	310	1.2%	105	0.9%	415	1.1%
Hunangyflogedig	205	0.8%	128	1.0%	333	0.9%
Addysg uwch	116	0.4%	35	0.3%	151	0.4%

Statws	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhag '20)		Cyfanswm	
Addysg bellach rhan amser	51	0.2%	8	0.1%	59	0.2%
Yn byw y tu allan i Gymru	4	0.0%	2	0.0%	6	0.0%
Cyfanswm	26,480		12,225		38,705	

Sylwer: Mae'r cyfansymiau yn cynnwys y rheini sydd â statws annilys: 99 ym Mlwyddyn 1 a 48 ym Mlwyddyn 2
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.4: Statws cwsmeriaid oedolion newydd fesul mis



Sylwer: Mae ffigyrau Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Statws cwsmeriaid ifanc newydd (15–17)

- 4.9 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd bron i 2,000 o gwsmeriaid ifanc yn addysg CA4¹⁰, gan gyfrif am 37 y cant o'r holl gwsmeriaid ifanc newydd. Roedd 26 y cant ychwanegol yn ddi-waith, ac roedd 19 y cant mewn addysg bellach amser llawn. At hyn, ymgysylltwyd â dros 300 o bobl ifanc yr oedd ganddynt rwystrau ychwanegol ac nad oeddynt ar gael ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu roeddynt yn anweithgar yn economaidd.
- 4.10 Yn ystod mis Mehefin 2019, cafodd dros 500 o bobl ifanc mewn addysg CA4 eu gweld. Roedd gostyngiad yn y niferoedd fesul mis yn dilyn hynny, ond gwelwyd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a oedd mewn addysg CA4 rhwng mis Chwefror 2020 a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y niferoedd yn ystod yr haf 2020, sef yr hyn fyddai i'w ddisgwyl yn gyffredinol yn ystod misoedd yr haf (gweler Ffigur 4.5).
- 4.11 Roedd rhwng 100 a 200 o bobl ifanc ddi-waith yn ymuno bob mis yn ystod Blwyddyn 1, a dyna oedd y sefyllfa tan fisoedd olaf Blwyddyn 1 (pan ostyngodd y niferoedd o dan 100). Roedd y niferoedd yn is yn ystod hanner cyntaf 2020 cyn cynyddu unwaith eto a chyrraedd uchafbwynt ym mis Medi 2020, pan oedd y niferoedd yn uwch na chyn y cyfnod clo. Mae'r patrwm hwn yn wahanol i'r oedolion a oedd yn ddi-waith pan wnaethant ymuno, pan welwyd niferoedd uwch ym Mlwyddyn 1. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd bod 9,000 yn ychwanegol o gwsmeriaid oedolion ym Mlwyddyn 1 nag ym Mlwyddyn 2.
- 4.12 Ymunodd tua 100 o gwsmeriaid ifanc a oedd mewn addysg bellach amser llawn bob mis yn ystod Blwyddyn 1. Hyd yma, yn ystod Blwyddyn 2, mae'r nifer o gwsmeriaid ifanc a oedd mewn addysg bellach amser llawn wedi gostwng bob mis ond mae'r niferoedd wedi dechrau codi tua diwedd 2020.


¹⁰ Pobl ifanc yw'r rhain sy'n bwriadu gadael addysg yn 16 oed ac sydd wedi derbyn gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn yr ysgol.

Tabl 4.3: Statws cwsmeriaid ifanc newydd (15–17) fesul blwyddyn

Statws	Blwyddyn 1		Blwyddyn 2		Cyfanswm	
	(Ebrill '19 – Mawrth '20)		(Ebrill '20 – Rhagfyr '20)			
Addysg CA4	1,985	37%	1,238	38%	3,223	37%
Di-waith	1,429	26%	1,177	36%	2,606	30%
Addysg bellach amser llawn	1,038	19%	430	13%	1,468	17%
Rhaglen gyflogadwyedd neu sgiliau arall LIC	325	6%	124	4%	448	5%
Ddim ar gael ar gyfer EET	219	4%	113	3%	332	4%
Yn gweithio amser llawn	129	2%	50	2%	179	2%
Anweithgar yn economaidd	99	2%	63	2%	162	2%
Yn gweithio rhan amser	109	2%	51	2%	160	2%
Statws annilys	44	1%	25	1%	69	1%
Yn byw y tu allan i Gymru	13	0%	7	0%	20	0%
Addysg bellach rhan amser	6	0%	2	0%	8	0%
Hunan-gyflogedig	1	0%	1	0%	2	0%
O dan rybudd diswyddo	1	0%	0	0%	1	0%
Cyfanswm	5,398		3,281		8,679	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.5: Statws cwsmeriaid ifanc newydd (15–17) fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Atgyfeiriadau i gymorth pellach


- 4.13 Yn ystod Blwyddyn 1, atgyfeiriwyd 23,731 o gwsmeriaid oedolion a 5,630 o gwsmeriaid ifanc i gael cymorth pellach.
- 4.14 Effeithiodd cyfnod clo cyntaf y pandemig yn fwy ar y gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer cwsmeriaid oedolion nag ar y gwasanaeth i gwsmeriaid ifanc. Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau yn ystod mis Ebrill 2020 o'u cymharu â'r mis blaenorol (gweler Ffigur 4.6). Mae Tabl 4.4 yn dangos, o ran canran, bod cyfran yr holl atgyfeiriadau ar gyfer oedolion wedi gostwng rhywfaint o 81 y cant ym Mlwyddyn 1 i 79 y cant ym Mlwyddyn 2 (hyd yma). Mae'r gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau oedolion oherwydd y gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid yn ystod Blwyddyn 2, ond mae effaith y cyfnod clo yn llai amlwg yn achos cwsmeriaid ifanc, gan fod ganddynt yr opsiwn o aros yn yr ysgol.
- 4.15 Dechreuodd nifer yr atgyfeiriadau godi eto ym mis Mehefin 2020 ond ni lwyddwyd i gyrraedd y niferoedd uchel a welwyd cyn y cyfnod clo. Roedd gostyngiad pellach yn nifer yr atgyfeiriadau yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig (gweler Ffigur 4.6).

Tabl 4.4: Cyfanswm y cwsmeriaid a gafodd eu hatgyfeirio i gael cymorth pellach fesul blwyddyn

Grŵp Cwsmer	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	%	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr 20)	%	Cyfanswm yr Atgyfeiriadau	%
Oedolion	23,731	81%	10,758	79%	34,489	80%
Pobl ifanc	5,630	19%	2,910	21%	8,540	20%
Cyfanswm	29,361		13,668		43,029	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.6: Nifer y cwsmeriaid a gafodd eu hatgyfeirio i gael cymorth pellach fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Darpariaeth gwasanaeth

Lle derbyniodd cwsmeriaid oedolion ac ieuenctid y cymorth


- 4.16 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd Cymru'n Gweithio yn cynnig cymorth mewn tua 110 o ganolfannau allgymorth (gan gynnwys canolfannau Gyrfa Cymru). Fodd bynnag, o 23 Mawrth 2020 gwasanaeth digidol yn unig a oedd yn cael ei gynnig, ac nid oedd cwsmeriaid yn cael eu gweld yn y Canolfannau Gwaith ychwaith. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y rhyngweithiadau mewn lleoliadau eraill hefyd (fel safleoedd cyflogwyr a charchardai).
- 4.17 Dechreuodd canolfannau Gyrfa Cymru agor pan gafodd cyfyngiadau'r cyfnod clo eu llacio ond ni wnaeth y ddarpariaeth yn y canolfannau allgymorth ailddechrau. Mae mwyafrif y rhyngweithiadau â chwsmeriaid ers mis Ebrill 2020 wedi cael eu cyflwyno'n ddigidol gan ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio ac, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei fonitro'n gadarn, rhoddwyd cyfarwyddyd i'r ymgynghorwyr gofnodi eu hapwyntiadau dros y ffôn a'u rhyngweithiadau fel rhai a gynhaliwyd yn eu swyddfa arferol. Felly, mae mwyafrif y rhyngweithiadau ar gyfer Blwyddyn 2 a gofnodwyd yn Nhabl 4.5 a Ffigur 4.7 (ar gyfer oedolion) wrth ymyl Gyrfa Cymru yn ymwneud ag ymgynghorwyr yn rhyngweithio dros y ffôn neu sianeli digidol eraill. Mae'r un peth yn wir am Dabl 4.6 a Ffigur 4.7 (sy'n dangos y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc).
- 4.18 Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid pan gafodd rheolau'r cyfnod clo eu llacio yn ystod yr haf, ond yna gwelwyd gostyngiad yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig (a oedd hefyd yn cyd-fynd â'r cyfnod clo a gyflwynwyd ar 20 Rhagfyr). Gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y rhyngweithiadau ar y gwasanaethau digidol yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Ebrill, cyn gostwng eto ym mis Rhagfyr 2020.

Tabl 4.5: Lle derbyniodd cwsmeriaid oedolion gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn

Lle gwnaethant dderbyn cymorth	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Gyrfa Cymru	44,170	65%	33,283	73%	77,453	68%
Digidol	5,727	8%	11,649	26%	17,376	15%
Canolfan waith	11,811	17%	242	1%	12,053	11%
Arall	6,037	9%	407	1%	6,444	6%
Cyfanswm	67,745		45,581		113,326	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.7: Lle derbyniodd cwsmeriaid oedolion gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul mis




Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Tabl 4.6: Lle derbyniodd cwsmeriaid ifanc (15–17) gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn

Lle gwnaethant dderbyn cymorth	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Gyrfa Cymru	8,567	75%	5,782	80%	14,349	77%
Digidol	604	5%	795	11%	1,399	7%
Sefydliad addysg bellach neu leoliad addysgiadol arall	980	9%	386	5%	1,366	7%
Arall	1,315	11%	251	3%	1,566	8%
Cyfanswm	11,466		7,214		18,680	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.8: Lle derbyniodd cwsmeriaid ifanc (15–17) gymorth gan Cymru'n Gweithio fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Mathau o ryngweithiadau â chwsmeriaid oedolion¹¹

- 4.19 Mae rhyngweithiadau cwsmeriaid Cymru'n Gweithio wedi'u rhannu yn rhyngweithiadau 'uniongyrchol' ac 'anuniongyrchol'.
- 4.20 Bydd rhyngweithiad uniongyrchol yn cynnwys cyfathrebu dwy-ffordd sylweddol rhwng y cwsmer a'r ymgynghorydd, a bydd y ddau yn bresennol ar yr un pryd, e.e. wyneb yn wyneb, sgwrs dros y ffôn neu fideo. Ar y llaw arall, bydd rhyngweithiad anuniongyrchol fel arfer yn unffordd, e.e. neges e-bost neu destun a anfonwyd. Mae negeseuon testun ac e-bost yn cael eu hystyried yn rhyngweithiadau 'uniongyrchol' os cafodd nifer o negeseuon eu hanfon yn ôl ac ymlaen.
- 4.21 Mae rhyngweithiad uniongyrchol yn golygu targedu cymorth at gwsmer neu gwsmeriaid penodol, e.e. cyfweiliad arweiniad, neu sesiwn grŵp i wella sgiliau cyfweiliad cwsmer. Ar y llaw arall, gall rhyngweithiad anuniongyrchol gael ei dargedu tuag at gwsmer penodol mewn rhai achosion (e.e. atgoffa cwsmer fod ganddo gyfweiliad swydd y diwrnod canlynol) neu gall ymwneud â gwybodaeth fwy cyffredinol (e.e. anfon neges destun at 100 o gwsmeriaid di-waith ar unwaith i ddweud wrthynt fod cyflogwr lleol yn cynnal digwyddiad recriwtio).
- 4.22 Yn ystod rhyngweithiad uniongyrchol bydd y cwsmer bob amser yn bresennol (er yn rhithiol weithiau) ac yn cymryd rhan yn weithredol, ond bydd rhyngweithiadau anuniongyrchol hefyd yn cynnwys gweithgareddau cefnogol y mae'r ymgynghorydd yn eu gwneud pan nad yw'r cwsmer yn bresennol (e.e. gweithgareddau tebyg i eiriolaeth/cysylltu fel ffonio nifer o ddarparwyr hyfforddiant i ddod o hyd i un all ddarparu cwrs penodol, neu anfon e-bost i goleg i weithredu fel eiriolwr ar ran cwsmer).
- 4.23 Mae rhyngweithiad uniongyrchol bob amser yn cynnwys yr amser a gafodd ei dreulio yn rhoi cymorth i'r cwsmer. Ar y llaw arall, gall rhyngweithiad anuniongyrchol olygu rhoi cymorth, neu wneud rhywbeth er mwyn 'cadw mewn cysylltiad' (e.e. cadarnhau bod cwsmer eisiau parhau i dderbyn cymorth ar ôl colli apwyntiad), neu ymgais i gysylltu (e.e. gadael neges ar beiriant ateb).
- 4.24 Bydd cyfnod amser yn gysylltiedig â rhyngweithiad uniongyrchol bob amser, ond nid oes cyfnod amser fel arfer yn gysylltiedig â rhyngweithiadau anuniongyrchol (gan y

¹¹ Mae data ar goll ar gyfer nodi 'dwysedd' y rhyngweithiadau rhwng yr ymgynghorwyr â chwsmeriaid. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio gyda chwsmeriaid CG wedi cynyddu; felly, hyd yn oed pan oedd y niferoedd yn fach, roedd y rhyngweithiadau yn llawer mwy dwys i'r ymgynghorydd. Bydd data yn cael ei gasglu ar hyn er mwyn adrodd gwybodaeth reoli yn y dyfodol.

gallant fod yn ymwneud â llawer o gwsmeriaid ar yr un pryd), ac eithrio gwaith eiriolaeth/cysylltu.

Rhyngweithiadau uniongyrchol


- 4.25 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd dros 37,000 o rhyngweithiadau wyneb yn wyneb ag oedolion, sy'n cyfrif am 55 y cant o'r holl rhyngweithiadau uniongyrchol ag oedolion. Cafodd 4,000 o oedolion ychwanegol eu gweld mewn sesiynau grŵp. Nid yn annisgwyl, ni chafodd sesiynau wyneb yn wyneb a grŵp eu defnyddio bron o gwbl yn ystod y cyfnod clo ym Mlwyddyn 2.
- 4.26 Roedd dros 6,000 o rhyngweithiadau ag oedolion dros y ffôn yn ystod Blwyddyn 1, ond roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y rhyngweithiadau dros y ffôn ym Mlwyddyn 2 o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19, ynghyd â chynnydd yn y defnydd o e-bost a Cyswllt Gyrfya Cymru (gwasanaeth canolfan alw Gyrfya Cymru sy'n cynnwys system 'sgwrsio byw' ar gyfer cwsmeriaid Gyrfya Cymru a Cymru'n Gweithio), fel y dangosir yn Nhabl 4.7 a Ffigur 4.9.

Tabl 4.7: Mathau o rhyngweithiadau uniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn

Rhyngweithiad	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Wyneb yn wyneb	37,386	55%	539	1%	37,925	33%
Ffôn (rhyngweithio)	6,398	9%	25,372	56%	31,770	28%
Cyswllt Gyrfya Cymru	15,746	23%	9,649	21%	25,395	22%
E-bost (rhyngweithio)	3,687	5%	8,387	18%	12,074	11%
Sesiwn grŵp	3,931	6%	35	0%	3,966	3%
Arall	597	1%	1,599	4%	2,196	2%
Cyfanswm	67,745		45,581		113,326	

Ffynhonnell: Gyrfya Cymru

Ffigur 4.9: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol ag oedolion fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Rhyngweithiadau anuniongyrchol


- 4.27 Anfonwyd bron i 115,000 o negeseuon testun ac 16,000 o negeseuon e-bost at gwsmeriaid oedolion yn ystod Blwyddyn 1. Ar y cyfan dros y ddwy flynedd, roedd dau o bob tri rhyngweithiad anuniongyrchol drwy negeseuon testun, ac roedd 22 y cant ohonynt drwy negeseuon e-bost. Anfonwyd llai o negeseuon testun yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2020 cyn iddynt ddechrau cynyddu unwaith eto, ac roedd cynnydd sylweddol yn y defnydd o negeseuon e-bost yn ystod yr ail flwyddyn.
- 4.28 At hyn, roedd dros 8,000 o ryngweithiadau dros y ffôn yn ystod Blwyddyn 1 ac roedd 6,732 o ryngweithiadau drwy eiriolaeth/cyswllt. Cafodd y ddau ddull o gysylltu eu cynnal ar yr un lefel yn ystod Blwyddyn 2 (gweler Tabl 4.8 a Ffigur 4.10).

Tabl 4.8: Mathau o ryngweithiadau anuniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn

Rhyngweithiad	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Neges destun (cadw mewn cysylltiad)	114,945	78%	78,916	55%	193,861	66%
Neges e-bost (cadw mewn cysylltiad)	15,758	11%	47,958	33%	63,716	22%
Ffôn (ymgais i gysylltu)	8,145	6%	7,435	5%	15,580	5%
Eiriolaeth/cyswllt	6,732	5%	6,789	5%	13,521	5%
Arall (ymgais i gysylltu)	2,058	1%	3,022	2%	5,080	2%
Cyfanswm	147,638		144,120		291,758	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.10: Mathau o ryngweithiadau anuniongyrchol ag oedolion fesul blwyddyn



Sylwer: mae Blwyddyn 1 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, ond mae Blwyddyn 2 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2020 yn unig
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Mathau o ryngweithiadau â chwsmeriaid ifanc (15–17)

Rhyngweithiadau uniongyrchol


- 4.29 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd bron i 60 y cant o'r rhyngweithiadau uniongyrchol â phobl ifanc yn rhai wyneb yn wyneb — sy'n cyfateb i 6,700 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb. Cafodd chwarter y rhyngweithiadau uniongyrchol eu gwneud drwy Cyswllt Gyrfu Cymru ac 13 y cant dros y ffôn (gweler Tabl 4.9 a Ffigur 4.11).
- 4.30 Fel yn achos oedolion, ni chafwyd bron iawn dim rhyngweithiadau wyneb yn wyneb yn ystod ac yn dilyn y cyfnod clo, ond roedd cynnydd sylweddol yn nifer y rhyngweithiadau dros y ffôn (yn ogystal â chynnydd yn y defnydd o Cyswllt Gyrfu Cymru) ar ôl y cyfnod clo. Roedd gostyngiad yn y ddau fath o ryngweithiad eto ar ôl mis Medi 2020. Roedd tri-chwarter yr holl ryngweithiadau anuniongyrchol â phobl ifanc dros y ffôn yn ystod Blwyddyn 2.
- 4.31 Nifer bach iawn o ryngweithiadau a gafodd eu gwneud drwy e-bost yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond mae'r rhain wedi cynyddu yn ystod yr ail flwyddyn. Ni chynhaliwyd unrhyw sesiynau grŵp oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Tabl 4.9: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn

Rhyngweithiad	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhag '20)		Cyfanswm	
Ffôn (rhyngweithio)	1,469	13%	5,442	75%	6,911	37%
Wyneb yn wyneb	6,697	58%	93	1%	6,790	36%
Cyswllt Gyrfu Cymru	2,778	24%	983	14%	3,761	20%
E-bost (rhyngweithio)	170	1%	397	6%	567	3%
Arall	352	3%	299	4%	651	3%
Cyfanswm	11,466		7,214		18,680	

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Ffigur 4.11: Mathau o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid ifanc (15–17) fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

- 4.32 O fis Ebrill 2021 ymlaen, bydd data ar ryngweithiadau anuniongyrchol yn canolbwyntio ar faes eiriolaeth/cyswllt, a fydd yn rhan o'r gwerthusiad yn y dyfodol.

Defnydd o wefan Cymru'n Gweithio a rhyngweithiadau â'r cyfryngau cymdeithasol

- 4.33 Gwnaeth dros 114,000 o ddefnyddwyr unigryw ddefnyddio gwefan Cymru'n Gweithio¹² yn ystod Blwyddyn 1. Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd fersiwn 'Saesneg' a 'Chymraeg' y wefan a thudalennau Cymraeg y wefan ym Mlwyddyn 2. Ar yr un pryd, gostyngiad bach yn unig a welwyd yn nifer y defnyddwyr unigryw a wnaeth ymweld â thudalennau Saesneg y wefan (gweler Tabl 4.10 a Ffigur 4.12).
- 4.34 Cadarnhaodd gweinyddwyr y wefan fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd a wnaed o'r wefan dros y ddwy flynedd, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn 2020–2021 mae ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu

¹² www.workingwales.gov.wales


unwaith eto. Mae'r patrwm hwn yn debyg ar gyfer prif wefan [Gyrfa Cymru](#), sydd hefyd wedi gweld llawer llai o ymweliadau yn ystod y ddwy flynedd.

Tabl 4.10: Defnyddwyr unigryw sy'n defnyddio microsafle Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn

Tudalen Gwefan	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm
Defnyddwyr unigryw sy'n defnyddio microsafle CG (Cymraeg a Saesneg)	114,194	60,023	174,217
Ymweliadau unigryw â thudalennau Saesneg	139,538	131,976	271,514
Ymweliadau unigryw â thudalennau Cymraeg	32,188	5,565	37,753

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.12: Defnyddwyr unigryw sy'n defnyddio microsafle Cymru'n Gweithio fesul blwyddyn



Sylwer: mae Blwyddyn 1 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, ond mae Blwyddyn 2 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2020 yn unig
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

- 4.35 Roedd gan dudalen Facebook Cymru'n Gweithio 3,800 o ddilynwyr newydd yn ystod Blwyddyn 1, ynghyd â bron i 800 o ddefnyddwyr newydd ar y dudalen Instagram a 600 defnyddiwr newydd ar y dudalen Twitter. Yn ystod Blwyddyn 1 defnyddiodd bron i 70 y cant o'r holl ddilynwyr y cyfryngau cymdeithasol Facebook, defnyddiodd 14 y cant Instagram a defnyddiodd 11 y cant Twitter (gweler Tabl 1.11 a Ffigur 1.13).


- 4.36 Gwelwyd gostyngiad yn nifer y dilynwyr a oedd yn defnyddio holl wefannau'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod Blwyddyn 2, ond gall hyn godi ar ôl cael y data ar gyfer y flwyddyn gyfan. O ran cyfran, roedd defnyddwyr y gwefannau cyfryngau cymdeithasol gwahanol yn debyg i Flwyddyn 1.

Tabl 4.11: Nifer y dilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol fesul blwyddyn

Cyfrwng	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Facebook	3,800	69%	2,911	69%	6,711	69%
Twitter	594	11%	396	9%	990	10%
LinkedIn	322	6%	255	6%	577	6%
Instagram	781	14%	661	16%	1,442	15%
Cyfanswm	5,497		4,223		9,720	

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Ffigur 4.13: Nifer y dilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol fesul blwyddyn



Sylwer: mae Blwyddyn 1 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, ond mae Blwyddyn 2 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2020 yn unig
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Gwasanaeth carchardai oedolion

- 4.37 Derbyniodd dros 1,000 o garcharorion gymorth un i un gan ymgynghorydd yn ystod Blwyddyn 1. Gwnaeth 85 o gwsmeriaid ychwanegol ofyn am gymorth Gyrfu Cymru ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar (gweler Tabl 4.12).

- 4.38 Oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo, roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y carcharorion a dderbyniodd gymorth un i un gan ymgynghorydd yn ystod Blwyddyn 2. Roedd gostyngiad o bron i 70 y cant yn nifer y carcharorion a wnaeth ofyn am gymorth Gyrfa Cymru ar ôl eu rhyddhau yn ystod Blwyddyn 2, gan fod cyfyngiadau ar gysylltu â charcharorion ac mewn rhai achosion gwnaeth y carcharorion atal pob cysylltiad oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo.

Tabl 4.12: Cwsmeriaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth carchardai oedolion fesul blwyddyn

Gwasanaeth Carchardai	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr'20)	Cyfanswm
Nifer y carcharorion a oedd yn derbyn cymorth un i un gan ymgynghorydd Gyrfa Cymru	1,084	121	1,205
Nifer y carcharorion a oedd yn ceisio cymorth gan Gyrfa Cymru ar ôl eu rhyddhau	85	27	112
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru			

Atgyfeiriadau i Cymru'n Gweithio

Oedolion


- 4.39 Roedd mwy na 12,000 (neu 46 y cant) o atgyfeiriadau oedolion yn hunan-atgyfeiriadau yn ystod Blwyddyn 1. Roedd atgyfeiriadau o Ganolfannau Byd Gwaith yn cyfrif am 36 y cant (neu 9,631) o'r holl atgyfeiriadau (gweler Tabl 4.13).
- 4.40 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod clo cyntaf cyn iddynt gynyddu'n gyflym yn ystod misoedd yr haf 2020. Fodd bynnag, ni wnaeth nifer yr atgyfeiriadau gyrraedd yr uchafbwynt a welwyd cyn y cyfnod clo cyntaf (gweler Ffigur 4.14).

Tabl 4.13: Oedolion a gafodd eu hatgyfeirio fesul blwyddyn

Ffynhonnell yr Atgyfeiriad	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Canolfan Byd Gwaith	9,631	36%	3,900	32%	13,531	35%
Hunan- atgyfeiriad	12,163	46%	6,661	54%	18,824	49%
Arall	4,686	18%	1,664	14%	6,350	16%
Cyfanswm	26,480			12,225	38,705	

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Ffigur 4.14: Ffynhonnell atgyfeiriadau oedolion fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Pobl ifanc (15–17)

- 4.41 Yn ystod Blwyddyn 1, roedd hanner yr atgyfeiriadau ymhlith pobl ifanc yn hunan-gyfeiriadau, gan gyfateb i bron i 2,700 o atgyfeiriadau. Roedd bron i 1,500 o atgyfeiriadau (neu 27 y cant o'r holl atgyfeiriadau) ym Blwyddyn 1 gan Dîm Addysg Gyrfu Cymru.


- 4.42 Roedd atgyfeiriadau gan Dîm Addysg Gyrfa Cymru eisoes yn lleihau yn ystod yr haf 2019, ynghyd â hunan-atgyfeiriadau o fis Medi 2019 ymlaen. Fodd bynnag, gwelwyd atgyfeiriadau gan Dîm Addysg Gyrfa Cymru yn cynyddu rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 cyn lleihau eto yn ystod yr haf 2020.
- 4.43 Mae adolygiad o'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn dangos bod patrwm ailadroddus o ran lleihad yn yr atgyfeiriadau yn ystod misoedd yr haf. Gallai'r ffigyrau is yn ystod y cyfnod presenol fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod ymyriadau ym mlwyddyn 11 yn cael eu cynnal yn yr ysgolion, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Fodd bynnag, mae ysgolion wedi bod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn academiaidd ddiwethaf; felly, mae pobl ifanc wedi gorfod defnyddio dulliau digidol i gysylltu â'r gwasanaeth, ac mae hyn wedi effeithio ar fynediad.
- 4.44 Gwelwyd hunan-atgyfeiriadau yn cynyddu eto yn ystod mis Medi 2020 ond nid ar yr un lefelau ag yn ystod y flwyddyn flaenorol (gweler Tabl 4.14 a Ffigur 4.15).

Tabl 4.14: Cwsmeriaid ifanc (15–17) a gafodd eu hatgyfeirio fesul blwyddyn

Ffynhonnell yr Atgyfeiriad	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Tîm Addysg Gyrfa Cymru	1,472	27%	1,288	39%	2,760	32%
Hunan-atgyfeiriad	2,693	50%	1,035	32%	3,728	43%
Arall	1,233	23%	958	29%	2,191	25%
Cyfanswm	5,398		3,281		8,679	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.15: Cwsmeriaid ifanc (15–17) a gafodd eu hatgyfeirio fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Atgyfeiriadau o Cymru'n Gweithio

Oedolion

- 4.45 Mae Tabl 4.15 a Ffigur 4.16 yn dangos atgyfeiriadau i wahanol ddarpariaethau i oedolion. Yn ystod Blwyddyn 1, roedd 21 y cant (neu bron i 7,000) o atgyfeiriadau yn rhai hunan-gymorth, a 12 y cant yn ychwanegol i ReAct III¹³ ac atgyfeiriwyd saith y cant i Raglen STEPS.¹⁴ Nid oedd angen cymorth pellach ar 19 y cant (neu 6,440) o gwsmeriaid ar adeg y rhyngweithiad, gan fod eu holl anghenion cymorth wedi'u bodloni (er y gellid bod wedi'u hatgyfeirio'n ddiweddarach yn ystod y cyfnod pan oeddynt yn derbyn cymorth Cymru'n Gweithio).
- 4.46 Gwelwyd gostyngiad yn yr atgyfeiriadau i bob math o ddarpariaeth yn ystod misoedd cyntaf Blwyddyn 2. Fodd bynnag, roedd cynnydd cyson yn y niferoedd a gafodd eu hatgyfeirio i'r rhan fwyaf o ddarpariaeth yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, fel Rhaglenni STEPS ac Access.¹⁵ Roedd cynnydd mwy sydyn yn nifer yr atgyfeiriadau

¹³ Rhaglen Llywodraeth Cymru a ddarperir drwy Gyrfu Cymru sy'n rhoi arian i unigolion yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl iddynt gael eu diswyddo neu golli eu gwaith, neu sydd o dan rybudd diswyddo, i ailhyfforddi neu ddiweddarau eu sgiliau er mwyn iddynt fynd yn ôl i weithio cyn gynted â phosibl.

¹⁴ Rhaglen gyflogadwyedd 'cyswllt ysgafn' a ddarperir gan Gyrfu Cymru (cyfeirwch at droednodyn 23 i gael rhagor o wybodaeth).

¹⁵ Rhaglen cymorth cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn ardal Tasglu'r Cymoedd ar gyfer oedolion di-waith sy'n agos at y farchnad lafur, i'w helpu i ennill y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddod o hyd i swydd a'i chadw.

i ReAct o'u cymharu â mathau eraill o ddarpariaeth ac roedd nifer yr atgyfeiriadau misol yn uwch nag yn y cyfnod cyn y cyfnod clo.

- 4.47 Prif elfennau'r categori 'Arall' yw atgyfeiriadau i Gymunedau am Waith (pedwar y cant), prentisiaethau (tri y cant), Canolfannau Byd Gwaith (tri y cant), a'r categori 'asiantaeth gymorth'¹⁶ (tri y cant).

Tabl 4.15: Atgyfeiriadau i ddarpariaeth briodol – oedolion 18+ fesul blwyddyn


Darpariaeth	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Rhaglen STEPS	2,364	7%	1,578	11%	3,942	8%
Hunan-gymorth	6,910	21%	2,099	14%	9,009	19%
Access	2,467	7%	1,449	10%	3,916	8%
ReAct III	3,957	12%	4,049	27%	8,006	17%
Arall	11,476	34%	5,727	38%	17,203	35%
Dim cymorth pellach	6,440	19%	017	0%	6,440	13%
Cyfanswm	33,614		14,902		48,516	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

¹⁶ Ystyr gyfannol 'asiantaeth cymorth' yw asiantaethau partner sy'n gallu anfon /derbyn unigolion at/gan Cymru'n Gweithio ond mewn niferoedd bach, felly nid ydynt yn cael eu henwi'n unigol.

¹⁷ Nid oedd data yn cael eu casglu mwyach o dan yr is-gategori 'Dim cymorth pellach' o fis Ebrill 2020 ymlaen.

Ffigur 4.16: Atgyfeiriadau i'r ddarpariaeth briodol – oedolion 18+ fesul mis¹⁸



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Pobl ifanc

- 4.48 Mae Tabl 4.16 a Ffigur 4.17 yn dangos atgyfeiriadau i wahanol ddarpariaethau i bobl ifanc. Yn ystod Blwyddyn 1, roedd 32 y cant o'r atgyfeiriadau i hyfforddeiaethau. Cafodd dros 1,000 o bobl ifanc eu hatgyfeirio i brentisiaethau (neu 11 y cant o'r holl atgyfeiriadau). Nid oedd angen cymorth pellach ar bedwar y cant ar adeg y rhyngweithiad.
- 4.49 Roedd nifer yr atgyfeiriadau ymhlith pobl ifanc i bob math o ddarpariaeth yn gostwng ar ôl mis Ionawr 2020 cyn y cyfnod clo. Gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Rhaglen STEPS ym mis Chwefror 2020 a gwnaeth y sefyllfa aros yn sefydlog ym mis Mawrth 2020. Roedd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i 'Hunan-gymorth' ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Yn ystod Blwyddyn 2, roedd cyflogwyr yn recriwtio llawer llai, gan fod gan lawer ohonynt staff ar ffyrlo.
- 4.50 Nid oedd 'Atgyfeiriwyd i gymorth haen 2' ac 'Atgyfeiriadau hyfforddeiaethau' yn is-gategoriâu Cymru'n Gweithio yn ystod Blwyddyn 2; felly, mae'r ddau yn cael eu

¹⁸ Mae amseru yn bwysig iawn wrth atgyfeirio pobl i raglenni ReAct ac Access. Roedd cyfnod gohirio yn gymwys i'r ddwy raglen. I'r cwsmeriaid yn y ffrâm amser hwn ni fyddai'r ymgynghorydd wedi cofnodi'r atgyfeiriad i ReAct/Access. Byddai'r atgyfeiriad wedi cael ei wneud yn ddiweddarach ar ôl lleihau'r cyfnod gohirio.


nodi fel sero ym Mlwyddyn 2. Felly, ni fyddai cymariaethau ar sail debyg â Blwyddyn 1 yn briodol yn yr achosion hyn. Mae'r un peth yn wir am 'Dim cymorth pellach'.

Tabl 4.16: Atgyfeiriadau i ddarpariaeth briodol – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn

Darpariaeth	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)		Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)		Cyfanswm	
Rhaglen STEPS	222	2%	152	4%	374	3%
Hunan-gymorth	423	4%	153	4%	576	4%
Prentisiaeth	1,083	11%	168	5%	1,251	10%
Hyfforddeiaethau ar lefel ymgysylltu	2,331	24%	2,072	58%	4,403	34%
Atgyfeiriwyd i gymorth haen 2	690	7%	0	0%	690	5%
Atgyfeiriad hyfforddeiaeth	3,071	32%	0	0%	3,071	23%
Arall	1,370	14%	1,043	29%	3,363	26%
Dim cymorth pellach	353	4%	0	0%	353	3%
Cyfanswm yr atgyfeiriadau	9,543		3,588		13,131	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.17: Atgyfeiriadau i ddarpariaeth briodol – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul mis



Sylwer: mae mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Cymorth 'cyswllt ysgafn'¹⁹

Oedolion

- 4.51 Cyfanswm y cwsmeriaid oedolion y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth 'cyswllt ysgafn' oedd 2,368 ym Mlwyddyn 1. Derbyniodd dau o bob tri o'r cwsmeriaid hyn gymorth 'cyswllt ysgafn', a gwnaeth tri-chwarter ohonynt gwblhau'r cymorth. Sicrhawyd deilliannau ar gyfer bron i 50 o'r rhai a oedd wedi cwblhau rhywfaint o gymorth (575 o oedolion) — ac roedd hanner y rhain wedi dod o hyd i waith cyflogedig.
- 4.52 Roedd gostyngiad yn y niferoedd yn ystod misoedd cyntaf Blwyddyn 2, ond roedd nifer yr oedolion y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth 'cyswllt ysgafn' ac a wnaeth ei dderbyn a'i gwblhau wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y cyfnod clo erbyn mis Medi ym Mlwyddyn 2 (gweler Tablau 4.17 a 4.18 a Ffigyrau 4.18 a 4.19).

Table 4.17: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – oedolion 18+ fesul blwyddyn


Cynnydd	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm
Cyfanswm y cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth 'cyswllt ysgafn'	2,368	1,411	3,779
Nifer y cwsmeriaid a wnaeth dderbyn cymorth 'cyswllt ysgafn'	1,574	1,148	2,722
Nifer y cwsmeriaid a wnaeth gwblhau cymorth 'cyswllt ysgafn'	1,171	1,209	2,380

¹⁹ Yn ystod Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, cynigiodd Cymru'n Gweithio raglen gyflogadwyedd 'cyswllt ysgafn' o'r enw 'CAMAU at Lwyddiant / STEPS to Success'. Y bwriad gwreiddiol oedd rhoi cymorth i'r cwsmeriaid hynny nad oedd eu hanghenion yn ddigon sylweddol i'w hatgyfeirio i dderbyn cymorth pellach, ond newidiodd y gwasanaeth ei bwyslais yn ddiweddarach i gynig gweithgareddau cyflogadwyedd penodol, yn aml fel rhan o raglen gymorth mwy o faint a ddarparwyd mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (e.e. Cymunedau dros Waith). Rhan o'r gofyniad ar gyfer y cynnig 'cyswllt ysgafn' oedd bod Cymru'n Gweithio yn cysylltu â chwsmeriaid dri mis ar ôl iddynt adael y gwasanaeth, gan sicrhau bod deilliannau nid yn unig yn gadarnhaol ond hefyd yn cael eu cynnal. Mae'r oediad 3 mis hwn yn arwain at oedi wrth adrodd deilliannau. At hyn, bydd lefelau uwch o gyfranogiad yn rhaglen STEPS yn 2019/2020 yn cael eu hadlewyrchu fel niferoedd uchel o ddeilliannau a fydd yn parhau ar ddechrau 2020/2021. Yn yr un modd, ni fydd y lleihad yn nifer y cwsmeriaid newydd ar ddechrau'r pandemig yn dod i'r amlwg yn y data deilliannau nes i'r cwsmeriaid hynny dderbyn cymorth STEPS (~8 wythnos), ac mae'r bwlch gofynnol cyn y cyfarfod dilynol wedi mynd heibio; felly, byddai rhywun sy'n ymuno ym mis Ebrill yn debygol o gael ei gofnodi fel deiliant ym mis Medi, er enghraifft.

Cynnydd	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm
Deilliannau yn dilyn cymorth 'cyswllt ysgafn'	575	828	1,403
Nifer y cwsmeriaid a gafodd waith cyflogedig	283	275	558

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Ffigur 4.18: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – oedolion 18+ fesul mis




Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Tabl 4.18: Deilliannau ar ôl derbyn cymorth ‘cyswllt ysgafn’– oedolion 18+ fesul blwyddyn

Cynnydd	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm	%
Ymlaen i waith cyflogedig	283	275	558	40%
Gwaith amser llawn (30+ awr)	192	185	377	27%
Gwaith rhan amser (<30 awr)	84	80	164	12%
Hyfforddiant statws cyflogedig (prentisiaethau)	3	3	6	0%
Hunan-gyflogedig	5	7	12	1%
Ymlaen i waith gwirfoddol/profiad gwaith	11	12	23	2%
Gwaith gwirfoddol	11	12	23	2%
Deilliant nad yw'n gadarnhaol	266	528	794	56%
Deilliant nad yw'n gadarnhaol *	12	12	24	2%
Di-waith	254	516	770	55%
Ymlaen i ddysgu pellach	17	17	34	2%
Dysgu pellach	5	5	10	1%
Dysgu ar lefel uchel	5	3	8	1%
Hyfforddeiaeth/rhaglen hyfforddiant	7	9	16	1%
Cyfanswm**	577	832	1,409	

* Pobl nad yw eu statws presennol yn hysbys, maent wedi symud o Gymru neu mae'r cwsmer wedi marw. ** Nid yw'n cynnwys cwsmeriaid sydd wedi ailymgysylltu â Cymru'n Gweithio (gan sicrhau nad yw deilliannau yn cael eu cyfrif ddwywaith)
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.19: Deilliannau ar ôl derbyn cymorth ‘cyswllt ysgafn’ – oedolion 18+ fesul mis



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Cwsmeriaid ifanc


- 4.53 Cyfanswm y cwsmeriaid ifanc y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth ‘cyswllt ysgafn’ oedd 222 ym Mlwyddyn 1. Derbyniodd 45 y cant o’r cwsmeriaid hyn gymorth ‘cyswllt ysgafn’, a gwnaeth bron i 70 y cant ohonynt gwblhau’r cymorth. Sicrhawyd deilliannau ar gyfer 36 y cant o’r rhai a gwblhaodd rhywfaint o gymorth (25 o bobl ifanc) — yn achos 11 o’r deilliannau hyn roedd cwsmeriaid wedi dod o hyd i waith cyflogedig.
- 4.54 Roedd nifer y cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth ‘cyswllt ysgafn’ ac a wnaeth ei dderbyn a’i gwblhau wedi cynyddu erbyn mis Mehefin 2020 ym Mlwyddyn 2. Gwnaeth y deilliannau gynyddu yn Mlwyddyn 2 ar gyfer pobl ifanc ond roedd cyfanswm y deilliannau yn fach (gweler Tablau 4.19 a 4.20 a Ffigyrau 4.20 a 4.21).

Tabl 4.19: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – pobl ifanc (15–17) fesul blwyddyn

Cynnydd	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm
Cyfanswm y cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cymorth 'cyswllt ysgafn'	222	144	366
Nifer y cwsmeriaid a wnaeth dderbyn cymorth 'cyswllt ysgafn'	100	99	199
Nifer y cwsmeriaid a wnaeth gwblhau cymorth 'cyswllt ysgafn'	69	105	174
Deilliannau yn dilyn cymorth 'cyswllt ysgafn'	25	35	60
Nifer y cwsmeriaid a ddaeth o hyd i waith cyflogedig	11	16	27

Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Ffigur 4.20: Cwsmeriaid sy'n gwneud cynnydd ar ôl derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – pobl ifanc (15–17) fesul mis




Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd
Ffynhonnell: Gyrfu Cymru

Tabl 4.20: Deilliannau yn sgil derbyn cymorth 'cyswllt ysgafn' – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn

Cynnydd	Blwyddyn 1 (Ebrill '19 – Mawrth '20)	Blwyddyn 2 (Ebrill '20 – Rhagfyr '20)	Cyfanswm	%
Ymlaen i waith cyflogedig	11	16	27	44%
Gwaith amser llawn (30+ awr)	8	8	16	26%
Gwaith rhan amser (<30 awr)	1	6	7	11%
Hyfforddiant statws cyflogedig (prentisiaethau)	2	2	4	7%
Ymlaen i waith gwirfoddol/profiad gwaith	0	0	0	0%
Deilliant nad oedd yn gadarnhaol	10	13	23	38%
Deilliant nad oedd yn gadarnhaol	4	1	5	8%
Di-waith	6	12	18	30%
Ymlaen i ddysgu pellach	4	7	11	18%
Dysgu pellach	0	1	1	2%
Hyfforddeiaeth/rhaglen hyfforddiant	4	6	10	16%
Cyfanswm	25	36	61	

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Ffigur 4.21: Deilliannau yn sgil erbyn cymorth ‘cyswllt ysgafn’ – cwsmeriaid ifanc (15–17) fesul blwyddyn



Sylwer: mae ffigyrau mis Mai 2019 yn cynnwys cwsmeriaid mis Ebrill 2019 hefyd. Mae Blwyddyn 1 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, ac mae Blwyddyn 2 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2020 yn unig
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Casgliad

- 4.55 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn dangos yn glir raddfa ac effaith Cymru'n Gweithio yn ystod Blwyddyn 1af ei oes. Ymgysylltodd y gwasanaeth yn rheolaidd â thros 2,000 o gwsmeriaid oedolion newydd fesul mis ac atgyfeiriodd bron i 30,000 o gwsmeriaid (oedolion a phobl ifanc) yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig. At hyn, yn ystod Blwyddyn 1, roedd amrywiaeth o sianeli cadarn ar gael er mwyn rhyngweithio â chwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys 37,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a 4,000 o sesiynau grŵp, yn ogystal â nifer sylweddol yn rhyngweithio dros y ffôn a thrwy Cyswllt Gyrfa Cymru.
- 4.56 Mae'r data hefyd yn dangos yr amgylchiadau gwahanol yr oedd yn rhaid i raglen Cymru'n Gweithio weithredu ynddynt yn ystod Blwyddyn 2. Fel y trafodir yn fwy manwl ym Mhennod 5, arweiniodd y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil pandemig COVID-19 at newid yn y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, a chafodd gwaith mewn canolfannau allgymorth, fel yr Eisteddfod a'r Sioe Frenhinol, ei ohirio; ymhellach, roedd llai o ffyrdd i gwsmeriaid rhyngweithio. Yn arwyddocaol, symudodd Cymru'n Gweithio i gynnig gwasanaeth digidol yn unig ar 23 Mawrth 2020, ac oherwydd y cyfnod clo a'r gofynion i sicrhau pellter cymdeithasol cafodd canolfannau naill ai eu cau neu cyfyngwyd ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei

gynnig yn ystod y cyfnod hwn. Yn groes i weledigaeth wreiddiol Cymru'n Gweithio, cafodd yr holl ddarpariaeth allgymorth ei gohirio yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bosibl bod hyn wedi cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ymgysylltu ag unigolion na fyddent o bosibl yn gwybod amdano, ynghyd â grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd yn draddodiadol. Trafodir y materion hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

- 4.57 Mae'r her o ddarparu'r gwasanaeth ym Mlwyddyn 2 yn cael ei hadlewyrchu ym mhroffil gwahanol y rhyngweithiadau uniongyrchol yn yr wybodaeth reoli hyd at mis Rhagfyr 2020. Er enghraifft, er mai rhyngweithiadau wyneb yn wyneb oedd y prif ddull o ryngweithio uniongyrchol ar draws y ddwy flynedd, roedd yn cyfrif am 55 y cant (oedolion) a 58 y cant (pobl ifanc) o'r holl ryngweithiadau ym Mlwyddyn 1 ond un y cant yn unig ym Mlwyddyn 2. I'r gwrthwyneb, naw y cant yn unig (oedolion) ac 13 y cant (pobl ifanc) o ryngweithiadau ym Mlwyddyn 1 a gafodd eu cynnal dros y ffôn, gan gynyddu i 56 y cant (oedolion) a 75 y cant (pobl ifanc) ym Mlwyddyn 2. Mae hyn nid yn unig yn adlewyrchu'r her o newid i fodel cyflenwi digidol/o bell ond hefyd hyblygrwydd y gwasanaeth i gynnig llwybrau rhyngweithio niferus i gwsmeriaid.
- 4.1 Mae'r wybodaeth reoli yn awgrymu bod angen gwirioneddol am wasanaeth Cymru'n Gweithio: derbyniodd 35,485 o gwsmeriaid gymorth yn ystod Blwyddyn 1 a 20,189 o gwsmeriaid yn ystod naw mis cyntaf Blwyddyn 2. Mae pobl ddi-waith sy'n ymuno am y tro cyntaf yn cyfrif am bron i 65 y cant o'r holl gwsmeriaid ym Mlwyddyn 1 a bron i 66 y cant o'r holl gwsmeriaid hyd yma.
- 4.2 Yn ystod naw mis cyntaf Blwyddyn 2, ni wnaeth cwsmeriaid yn y categori oedolion di-waith gyrraedd y uchafbwynt a welwyd cyn y cyfnod clo. Mae'n bosibl mai effaith economiadd yr ymyriadau a gyflwynwyd i leihau effaith economaidd y pandemig sydd i gyfrif am hyn i raddau, gan gynnwys y cynllun ffyrlo, fel y trafodir ymhellach yn y bennod nesaf.
- 4.3 Mae'r gwrthwyneb yn wir yn achos pobl ifanc, ac yn ystod Blwyddyn 2 gwelwyd cynnydd o 10 y cant yng nghyfran y cwsmeriad ifanc di-waith (Tabl 4.3). Gallwn dybio fod modd priodoli hyn i'r dull gwahanol a fabwysiadwyd ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn 2021 o ganlyniad i'r pandemig, pan oedd ysgolion a cholegau, er enghraifft, yn cynnig mwy o gyfleoedd dysgu ar-lein o'r cartref neu mewn rhai achosion nid oeddynt ar agor o gwbl. Roedd cyflogwyr hefyd wedi rhoi'r gorau i recriwtio staff newydd dros dro o ganlyniad i'r pandemig. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos swyddi lefel mynediad yn y sectorau ad-werthu a lletygarwch (sy'n cyflogi llawer o bobl ifanc).

4.4 Ymhellach, mae atgyfeiriadau o'r Canolfannau Byd Gwaith wedi lleihau nid yn unig oherwydd eu bod wedi bod ar gau yn ystod y cyfnod clo ond hefyd yn sgil cyflwyno cynlluniau eraill gan Lywodraeth y DU (fel 'Kickstart') y mae'n ofynnol i staff Canolfannau Gwaith atgyfeirio cwsmeriaid iddynt yn gyntaf, a bydd hyn hefyd yn cael effaith ar nifer y cwsmeriaid oedolion di-waith (gweler Pennod 5). Yn y cyfamser, mae atgyfeiriadau gan Dîm Addysg Gyrfa Cymru wedi parhau i ddilyn y duedd flynyddol o gynyddu'n sydyn ym mis Mehefin cyn gostwng yn sydyn yn yr haf dros y ddwy flynedd. Er bod cyfanswm y cwsmeriaid ifanc wedi lleihau ym Mlwyddyn 2, gan fod mwy o bobl ifanc wedi dewis aros ym myd addysg, mae'r ymyriadau wedi parhau i ddigwydd yn yr ysgolion er mwyn rhoi cymorth i gwsmeriaid ifanc.

5. Effaith Pandemig COVID-19 ar Gyflenwi Cymru'n Gweithio

Pwyntiau allweddol

- Mae'r bennod hon yn tynnu ar ymchwil a gafodd ei gynnal gan dîm Cymru'n Gweithio ym mis Hydref 2020, a wnaeth ystyried effaith y cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 ar y pryd.
- Yn sgil y cyfnod clo cafodd yr holl weithgareddau wyneb yn wyneb eu hatal, a newidiodd Cymru'n Gweithio i ddarparu gwasanaeth digidol/ar-lein.
- Cyflwynwyd amrediad o gymorth newydd mewn ymateb i'r pandemig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan newid yr 'eco-strwythur' ar gyfer cyflenwi Cymru'n Gweithio.
- Gwelwyd gostyngiad dramatig yn nifer yr atgyfeiriadau o'r Canolfannau Byd Gwaith, wrth i staff yr Adain Gwaith a Phensiynau (DWP) gael eu cyfeirio i ymdrin â chynnydd yn y galw am gymorth o ganlyniad i'r pandemig.
- Roedd y farn am y ffordd roedd gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi addasu yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ac roedd teimlad clir bod gwasanaethau wedi parhau i gael eu cyflenwi'n effeithiol, er mewn ffordd wahanol iawn.
- Cyflwynwyd sawl gwasanaeth newydd mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys Bwletin Swyddi a Bwletinau misol yn rhoi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Cyflwynwyd ffeiriau swyddi rhithiol hefyd.
- Datblygwyd Ffurflen Atgyfeirio Cymru'n Gweithio generig newydd hefyd.
- Mynegwyd y farn bod cyfathrebu o fewn tîm Cymru'n Gweithio, er yn wahanol, wedi gwella yn ystod cyfnod y pandemig, drwy'r defnydd o lwyfannau ar-lein.
- Oherwydd bod llai o angen i bobl deithio i gyfarfodydd ac ati, ystyrid bod hyn wedi arwain at ffordd fwy effeithlon o weithio, er bod rhai yn pryderu am oblygiadau'r dull newydd o weithio ar lwythi gwaith.
- Dywedodd staff rheng flaen fod hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar ansawdd y gwasanaethau oherwydd diffyg cymorth wyneb yn wyneb, yn fwyaf penodol.
- Fodd bynnag, yn bwysig iawn, mewn sawl achos, roedd effaith hyn ar y gwasanaeth yn gadarnhaol. Yn benodol, ystyrid bod darparu cymorth dros y ffôn/fideo wedi gwella mynediad at y gwasanaeth mewn rhai achosion.
- Nodwyd bod y pandemig wedi cael effaith ar ddarpariaeth y gwasanaethau y byddai Cymru'n Gweithio fel arfer yn atgyfeirio unigolion iddynt, yn ogystal â'r broses o atgyfeirio unigolion i'r gwasanaeth ei hun. Mae gan hyn oblygiadau amlwg ar allu Cymru'n Gweithio i wneud atgyfeiriadau effeithiol.
- Mynegwyd y farn bod darpar-gwsmeriaid a chwsmeriaid wedi rhoi'r gorau i feddwl am faterion cyflogaeth am y tro yn ystod y pandemig, gan ddewis aros 'nes i bethau ddychwelyd i normal' a/neu y bydd y sefyllfa economaidd yn fwy clir.

- Awgrymodd staff rheng flaen y gallai'r cynnydd sylweddol yn y galw am gymorth yn ystod yr wythnosau a'r misoedd i ddod fod yn her sylweddol, ac roedd rhai yn pryderu ynghylch gallu'r gwasanaeth i ateb unrhyw gynnydd yn y galw yn effeithiol.

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried effaith y cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 ar gyflenwi gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Mae'r pwyslais ar nodi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod a defnyddio'r gwersi hyn i lywio trafodaethau ynghylch os a phryd y dylai unrhyw newidiadau a gyflwynwyd gael eu cadw pan fydd y cyfyngiadau yn cael eu codi.
- 5.2 Mae'r drafodaeth yn tynnu ar drafodaethau gydag uwch dîm rheoli Cymru'n Gweithio (18 cyfweiliad) ac arolwg ar-lein a gynhaliwyd gyda staff rheng flaen (derbyniwyd 96 ymateb a chyfradd ymateb o 48 y cant). Mae'n bwysig cofio felly bod y bennod hon yn trafod effaith COVID-19 ar Cymru'n Gweithio o safbwynt y rhai sy'n rheoli ac yn cyflenwi'r gwasanaeth o fewn Gyrfa Cymru. Ni chynhaliwyd unrhyw waith maes gydag unrhyw gwsmeriaid nag unrhyw randdeiliaid eraill ar y cam hwn.
- 5.3 Mae'n bwysig pwysleisio bod y gwaith maes a drafodir yn y bennod hon wedi cael ei gynnal yn ystod mis Hydref 2020 ac, felly, mae'n cynrychioli profiad ymatebwyr hyd at yr adeg honno. Mae ymateb tîm Cymru'n Gweithio i effaith pandemig COVID-19 wedi parhau i esblygu ers hynny, gan olygu nad yw rhai newidiadau i'r cymorth a ddarperir wedi'u hadlewyrchu yn y drafodaeth sy'n dilyn.

Newidiadau i'r ddarpariaeth oherwydd cyfyngiadau'r pandemig

Gwasanaethau cyfranogwyr

- 5.4 Yn sgil cyfyngiadau'r cyfnod clo a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19 cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth a ddarperir gan Cymru'n Gweithio. Roedd hyn o fewn cyd-destun lle newidiodd y dirwedd cymorth cyflogadwydd yn sylweddol yn ystod 2020 mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19.
- 5.5 Fel y daeth yn amlwg yn y drafodaeth ar wybodaeth reoli'r gwasanaeth yn y bennod flaenorol, un o bartneriaethau mwyaf arwyddocaol Cymru'n Gweithio ym Mlwyddyn 1 oedd yr un â'r Canolfannau Byd Gwaith, a ddarparodd wasanaethau allgymorth o'r rhan fwyaf o Ganolfannau Gwaith ar draws Cymru gyda chyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud gan staff y Canolfannau Gwaith. Ar

ddechrau'r pandemig, oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau a gysylltodd â'r Canolfannau Gwaith, cafodd atgyfeiriadau eu hoedi dros dro, wrth i staff Canolfannau Byd Gwaith gael eu hailgyfeirio i ymdrin â'r cynnydd yn y galw am yr adnodd mewn rhan arall o'r sefydliad.

- 5.6 Cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfres o wasanaethau newydd hefyd gyda'r nod o liniaru effaith y pandemig, gan gynnig cymorth cyflogadwyedd ar draws y DU a oedd ar gael drwy'r Canolfannau Gwaith yn unig. Roedd y rhaglenni hyn yn cynnwys Kickstart (ar gyfer pobl 16–24 oed), JETS (gwasanaeth cymorth dwys ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na 13 wythnos), a Cymorth Chwilio am Waith (cyfres o bedwar o ryngweithiadau cymorth chwilio am waith sydd ar gael o'r diwrnod cyntaf ar ôl cyflwyno hawliad am fudd-dal).
- 5.7 Mae'r berthynas waith â'r Canolfannau Byd Gwaith wedi parhau ac mae nifer o fentrau wedi cael eu datblygu (e.e. Taith Ieuencid (the Youth Journey) a Chymorth Kickstart) drwy waith partneriaeth agos i sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth newydd a dangos gwerth ychwanegol arweiniad gyrfa annibynnol, nodi rhwystrau, ac atgyfeiriadau priodol i gymorth ehangach.
- 5.8 Y newid mwyaf amlwg i wasanaeth Cymru'n Gweithio oedd y ffaith bod cyswllt wyneb yn wyneb wedi dod i ben yn ystod y cyfnodau clo, gyda'r staff yn gweithio o'u cartref. Dechreuwyd cynnal yr holl gyfweiliadau ac ymgynghoriadau â chwsmeriaid dros y ffôn o 23 Mawrth 2020, cyn i ymgynghoriadau fideo gael eu cyflwyno yn ddiweddarach. Cyflwynwyd cyfleusterau Facebook Messenger a sgwrsio byw hefyd ynghyd â'r gwasanaeth ffôn, rhwng dydd Llun a dydd Iau (8 a.m. tan 8 p.m.) a ddydd Gwener (9 a.m. tan 4.30 p.m.). Roedd yr oriau hyn yn ymestyn oriau arferol y gwasanaeth a oedd ar gael cyn pandemig COVID-19.
- 5.9 Cafodd rhai canolfannau Gyrfa Cymru eu hailagor ar sail 'apwyntiad yn unig' gyda mesurau pellter cymdeithasol yn eu lle wrth i'r cyfyngiadau clo godi. Roedd cam cyntaf yr ailagor ym mis Awst 2020 yng Nghaerdydd, Wrecsam, Abertawe, a Chasnewydd. Yna, ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2020, ailagorodd y canolfannau yng Nghaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, a Bangor (ac yna canolfannau'r Rhyl, y Drenewydd, Llandudno, Castell-nedd, Cwmbrân, Aberdâr, y Bari, Aberystwyth, ac yn olaf, Llanelli, Hwlfordd, a Merthyr).

5.10 Fodd bynnag, yn sgil cyfnodau clo lleol a'r 'cyfnod clo byr' cenedlaethol o 17 diwrnod a ddechreuodd ar 23 Hydref 2020, cafodd yr holl ganolfannau eu cau unwaith yn rhagor. Ailagorwyd rhai canolfannau ar ddiwedd y cyfnod clo byr cyn cau eto pan ddechreuodd yr ail gyfnod clo mawr a gyflwynwyd yng Nghymru ar 20 Rhagfyr 2020 ac sydd yn dal mewn lle ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Cyflwyno gwasanaethau newydd

- 5.11 Cyflwynwyd nifer o wasanaethau newydd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Datblygwyd **Bwletin Swyddi** a oedd yn rhoi gwybodaeth am swyddi gwag byw ar draws Cymru. Yn ogystal, cyflwynwyd [Bwletin Gwybodaeth am y Farchnad Lafur \(LMI\)](#) i'w dosbarthu ymhlith tîm Cymru'n Gweithio a rhanddeiliaid a phartneriaid allanol. Datblygwyd y gwasanaethau hyn gan ddefnyddio rhai o'r adnoddau a ddaeth ar gael o ganlyniad i'r lleihad yn nifer y cwsmeriaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y pandemig.
- 5.12 Hefyd, ychwanegwyd tudalen **cymorth ffyrlo** at wefan Cymru'n Gweithio, a oedd yn rhoi dolenni i amrediad o hyfforddiant ar-lein y gallai unigolion a oedd wedi bod ar 'ffyrlo' gymryd rhan ynddynt.
- 5.13 Rhwng misoedd Gorffennaf a Medi 2020, cynhaliodd Cymru'n Gweithio gyfres o **ffeiriau swyddi** rhithiol ar y cyfryngau cymdeithasol — yn yr achos hwn, Facebook — mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws Cymru. Roedd yr holl ddigwyddiadau yn galluogi cwsmeriaid i weld y swyddi gwag sydd ar gael a derbyn cymorth mewn perthynas â'u hanghenion cyflogadwyedd, gan gynnwys unigolion a oedd yn gadael addysg ac yn chwilio am waith, ar ffyrlo, yn ddi-waith, neu mewn perygl o gael eu diswyddo o ganlyniad i bandemig COVID-19. At hyn, roedd y digwyddiadau yn rhoi cymorth i gyflogwyr yn y rhanbarthau recriwtio gweithwyr.
- 5.14 Cynhaliwyd y digwyddiadau Facebook ar draws Cymru, gyda:
- Dau ddigwyddiad yng Ngogledd Cymru ar 23 Gorffennaf — a ddenodd bron i 700 o bartïon a diddordeb ac a fynychwyd gan 414;
 - Dau ddigwyddiad yn rhanbarth Gorllewin Cymru ar 9 Medi — mynegodd ychydig dros 1,000 o bartïon ddiddordeb (a mynychodd 672); ac
 - Un digwyddiad yn Ne Cymru ar gyfer y 10 awdurdod lleol, y gwnaeth dros 600 o bobl ei fynychu (gyda dros 1,200 yn dangos diddordeb).²⁰

Gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid

²⁰ Ffynhonnell: Adroddiad Misol Cymru'n Gweithio, Awst 2020.

- 5.15 Cyflwynwyd gweithgareddau ychwanegol er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid mewn ymateb i'r pandemig hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys:
- **Newyddlen Rhanddeiliaid** (lansiwyd ym mis Mehefin 2020) a gafodd ei ddosbarthu i dros 800 o bartneriaid, yn hyrwyddo Gyrfa Cymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau yn y gwasanaeth.
 - Nifer o **weminarau ar gyfer staff a chwsmeriaid**, a gafodd eu trefnu mewn partneriaeth â chyflogwyr a oedd yn cael trafferth recriwtio yn ystod y pandemig (e.e. prentisiaethau Archwilio Cymru) a phartneriaid yn cynnig gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer y rheini ar ffyrlo (e.e. cyrsiau OpenLearn am ddim y Brifysgol Agored).
- 5.16 Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd 'dal i fyny gyda phartneriaid' drwy gyfrwng fideo yn ystod misoedd Medi a Hydref 2020 ar draws Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd er mwyn rhoi cyfle i reolwyr Cymru'n Gweithio ddiweddarau partneriaid ar y gwasanaethau a'r datblygiadau cyfredol, ynghyd â hwyluso trafodaethau ar y ddarpariaeth leol. Cymerodd tua 200 o bartneriaid ar draws Cymru ran yn y sesiynau hynny.
- Datblygu'r gwasanaeth*
- 5.17 Darparwyd amrediad o hyfforddiant i staff yn ystod y cyfnod clo gyda phwyslais ar sicrhau bod darpariaeth y gwasanaethau ar-lein mor effeithiol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i ymgynghorwyr gyrfa (a ariannwyd drwy gronfa graidd Gyrfa Cymru) er mwyn gwella eu sgiliau mewn perthynas â phrosesau Cymru'n Gweithio.
- 5.18 Yn benodol, datblygwyd Ffurflen Atgyfeirio Cymru'n Gweithio generig newydd.²¹ Diben y ffurflen newydd²² oedd arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys:
- Lleihau'r amser gweinyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio dulliau atgyfeirio niferus
 - Darparu gwybodaeth gywir a manwl am gwsmeriaid i hwyluso pontio llwyddiannus
 - Hyrwyddo cysondeb yn ansawdd atgyfeiriadau ar draws Cymru

²¹ Mae copi o'r ffurflen atgyfeirio ar gael yma:

<https://partner.careersWalesgyrfacymru.com/Shared%20Documents/Ffurflen%20Atgyfeirio%20Cymru'n%20Gweithio.pdf>

²² Dylid nodi nad yw'r ffurflen atgyfeirio newydd wedi disodli'r dogfennau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer rhaglenni hyfforddeiaethau, Access a ReAct.

Cyfathrebu o fewn tîm Cymru'n Gweithio

- 5.19 Un nodwedd ddiddorol a ddaeth yn amlwg wrth drafod gyda staff rheoli Cymru'n Gweithio, yn benodol, oedd y farn bod cyfathrebu o fewn y tîm, er yn wahanol, wedi gwella yn ystod cyfnod y pandemig. Yn y lle cyntaf, roedd lefel y cyswllt (drwy alwadau fideo) wedi cynyddu i drafod sefydlu ffyrdd newydd o weithio ac am resymau yn ymwneud â lles staff. Fodd bynnag, yn ôl yr adborth cafodd y lefel uwch hwn o gyfathrebu ei gynnal yn ystod y cyfnod o 'weithio gartref', gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn amlach oherwydd hyblygrwydd cyfarfodydd fideo.
- 5.20 Un o'r enghreifftiau a roddwyd oedd bod cyfarfodydd tîm, a arferai gael eu cynnal unwaith y mis, ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd gan fod cyfarfodydd fideo yn fwy hwylus (sef y norm erbyn hyn). Roedd materion yn cael eu trafod yn gynt ac yn fwy aml nag o'r blaen oherwydd hyn. Er bod rhai anfanteision yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd yn bosibl cyfarfod wyneb yn wyneb (e.e. diffyg cyfathrebu mwy anffurfiol), ar y cyfan roedd staff Cymru'n Gweithio a gafodd eu cyfweld yn ystyried bod y newid hwn wedi bod o fudd iddynt a'u cydweithwyr.
- 5.21 Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod llai o angen teithio (yn enwedig yn yr ardaloedd mwy trefol a rhannau mwy gwledig Cymru), a dywedodd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod gweithio gartref yn fwy effeithlon oherwydd yr amser a oedd yn cael ei ennill gan nad oedd yn rhaid iddynt deithio mwyach, er nad yw'r budd hwn wedi cael ei feintoli. Yn ogystal â hyn, tynnwyd sylw at y manteision amgylcheddol yn sgil llai o deithio. Eto i gyd, mynegwyd pryder hefyd na fyddai rhai cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth yn niffyg y gwaith allgymorth.

Barn am effaith COVID-19 ar wasanaethau Cymru'n Gweithio


- 5.22 Roedd barn y rheolwyr a'r staff 'rheng flaen' am y ffordd roedd tîm/gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 yn gadarnhaol. Roeddynt yn cydnabod fod y gwasanaeth wedi gallu ymateb yn gyflym gan symud i fodel 'gweithio gartref' "dros nos i bob pwrpas". Un rheswm allweddol dros hyn oedd bod y systemau TG angenrheidiol eisoes mewn lle, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i'r gwaith allgymorth a wnaed gan Cymru'n Gweithio. Dywedodd uwch reolwyr fod rhai aelodau staff wedi tynnu sylw at broblemau TG, ac nid yw hyn yn annisgwyl o dan yr amgylchiadau, ond roedd yn ymddangos mai mân broblemau oedd y rhain a'u bod wedi'u datrys yn gyflym:

"Rydw i'n credu ein bod ni wedi addasu'n dda yn ystod y pandemig. Caeodd y swyddfeydd ddydd Gwener ac erbyn y dydd Llun canlynol roedd popeth yn ei le

ac roedden ni i gyd yn barod i ddarparu gwasanaeth i'r holl gwsmeriaid yn ddigidol.” (Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio)

- 5.23 Mae Ffigur 5.1 yn dangos bod 96 y cant o'r rhai a wnaeth ymateb i'r arolwg ar-lein wedi dweud eu bod, ar y cyfan, wedi gallu cyflawni eu swydd yn ystod pandemig COVID-19 ‘yn eithaf effeithiol’ (56 y cant) neu’n ‘effeithiol iawn’ (40 y cant).

Ffigur 5.1: Barn staff rheng flaen am ba mor effeithiol maent wedi gallu cyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19



Sylfaen: 94

Ffynhonnell: arolwg ar-lein staff Gyrfa Cymru


- 5.24 Pan ofynnwyd iddynt esbonio eu hymateb, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd bod darparu'r gwasanaeth yn ddigidol wedi cael ei integreiddio'n effeithiol i'r ddarpariaeth gwasanaeth (65 y cant) a bod y gwasanaeth wedi parhau i gael ei ddarparu yn effeithiol (49 y cant):

“Diolch i'r dechnoleg a'r systemau meddalwedd sydd gennym, rydw i wedi gallu cyfathrebu a rhoi cymorth i'm cwsmeriaid yn yr un ffordd ag y byddwn i mewn cyfweliad wyneb yn wyneb.” (Hyfforddwr Cyflogadwyedd)

“Mae pethau wedi gweithio i raddau helaeth, ac mae’r cwsmeriaid rydw i wedi delio â nhw yn dweud fod y gwasanaeth yn effeithiol. Mae ambell i achlysur wedi codi lle byddai apwyntiad wyneb yn wyneb wedi bod yn haws; er enghraifft, mae’n broses llawer cyflymach helpu pobl i greu CV wyneb yn wyneb.”
(Ymgynghorydd Gyrfaedd)

- 5.25 Ymhlith y cyfyngiadau a nodwyd oedd cwsmeriaid heb y math cywir o dechnoleg (11 y cant), cynnydd yn llwyth gwaith yr ymgynghorydd o ganlyniad i’r dull (9 y cant), a’r angen i ymgynghorwyr Cymru’n Gweithio gael hyfforddiant i ddefnyddio’r adnoddau ar-lein (3 y cant). Fel yn achos yr ail ddyfyniad uchod, dywedodd yr ymatebwyr er bod modd darparu rhai elfennau o’r gwasanaeth dros y ffôn/fideo, maent yn fwy effeithiol wyneb yn wyneb (10 y cant).
- 5.26 Lleiafrif bach yn unig o’r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddynt wedi gallu cyflawni eu rôl yn effeithiol (n=3), yn bennaf oherwydd eu bod yn eithaf newydd yn y swydd.
- 5.27 Yn ddiddorol, dywedodd 14 y cant o’r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod clo yn well na’r gwasanaeth cyn COVID-19 mewn rhai agweddau. Ymhlith y rhesymau dros hyn roedd y gallu i gysylltu â rhagor o gwsmeriaid a gweithio gyda nhw dros y ffôn /fideo, a’r ffaith bod llai o apwyntiadau yn cael eu colli:
- “Rydw i [wedi] gallu cysylltu â rhagor o gwsmeriaid ers gweithio gartref, a threulio mwy o amser yn gwneud yn siŵr eu bod nhw wedi derbyn y gwasanaeth gorau gallaf ei roi iddynt. Rydw i hefyd wedi gallu mynd ar ôl y darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y cwsmeriaid yn derbyn cymorth.” (Gweinyddydd)
- “Mae’r gyfradd llwyddiant yn well o ran apwyntiadau dros y ffôn o’i chymharu ag apwyntiadau wyneb yn wyneb yn y swyddfa. Mae’n bosibl cyfathrebu’n well dros y ffôn, neges destun ac e-bost.” (Hyfforddwr Cyflogadwyedd)
- 5.28 Yn gyffredinol, ystyrid bod y gwasanaeth wedi parhau i gael ei ddarparu’n effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd 75 y cant o’r staff rheng flaen a wnaeth ymateb i’r arolwg ar-lein fod y newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi cael rhywfaint o effaith ar ansawdd gwasanaethau Cymru’n Gweithio. Dywedodd 20 y cant o’r rheini fod yr effaith yn sylweddol (Ffigur 5.2). Fodd bynnag, dywedodd un o bob pedwar, nad oedd dim effaith, neu fawr ddim effaith, ar y gwasanaethau.

Ffigur 5.2: Barn staff rheng flaen am effaith (os o gwbl), y newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19, ar ansawdd gwasanaethau a chymorth Cymru'n Gweithio



Sylfaen: 81

Ffynhonnell: arolwg ar-lein staff Gyrfa Cymru

5.29 Mae'r ymatebion yn cynnwys cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol. Mae'r effeithiau negyddol yn cynnwys mynediad cyfyngedig at gymorth wyneb yn wyneb (n=28), problemau TG (n=22), a chynnydd yn y llwyth gwaith (n=17). Lle nodwyd bod yr effaith yn gadarnhaol, roedd y pwyslais ar welliannau yn effeithiolrwydd y gwasanaeth (n=15).

5.30 Y newid mwyaf amlwg yn y gwasanaeth yw'r symudiad i gynnal yr holl ymgynghoriadau â chwsmeriaid dros y ffôn a/neu fideo. Roedd yr adborth a gafwyd gan reolwyr a staff mewn perthynas â'r newid hwnnw yn gadarnhaol yn gyffredinol, er bod rhai pryderon, ac ar y cyfan roedd yn well ganddynt gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd nad oedd y newidiadau a orfodwyd ar y dull cyflenwi wedi cael effaith ddramatig ar safon y gwasanaeth:

“Rydw i wedi gweld ei bod yn rhyfeddol o hawdd i greu perthynas dda gyda phobl dros y ffôn a fideo. Wrth gwrs, mae rhai pethau yn fwy anodd (gall peidio â gweld iaith y corff fod yn anfantais gydag apwyntiadau dros y ffôn weithiau), ond rydw i wedi gweld bod pobl yn gallu bod yn fwy agored dros y ffôn weithiau hefyd.”
(Ymgynghorydd Gyrfaedd)

- 5.31 Cyflwynwyd y dewis o ymgynghoriadau fideo rai wythnosau ar ôl i'r cyfnod clo cyntaf ddechrau (unwaith roedd problemau posibl yn ymwneud â GDPR a chyfrinachedd wedi cael eu hystyried a'u datrys). Roedd yn amlwg bod yn well gan dîm Cymru'n Gweithio gynnal ymgynghoriadau â chwsmeriaid drwy gyfrwng fideo (yn hytrach na dros y ffôn). Y prif reswm dros hyn oedd bod fideo yn ei gwneud yn bosibl i asesu iaith y corff yr unigolyn yn ystod trafodaethau, ac nid yw hyn yn bosibl wrth siarad dros y ffôn. Fodd bynnag, ar adeg cynnal y gwaith ymchwil, roedd nifer yr unigolion a oedd yn dewis cyfarfod ymgynghorydd gyrfaoedd drwy gyfrwng fideo, yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd.
- 5.32 Awgrymwyd sawl rheswm posibl dros hyn yn ystod trafodaethau gyda thîm Cymru'n Gweithio, a'r mwyaf cyffredin oedd:
- Pryderon yn ymwneud ag ansawdd y cysylltiad band eang a/neu ansawdd dyfeisiau /offer
 - Dim llawer o brofiad o gyfathrebu drwy gyfrwng fideo, yn arwain at nerfusrwydd o ran dewis yr opsiwn hwnnw
 - Pryder mwy cyffredinol ynghylch 'ymddangos ar gamera'
- 5.33 Fodd bynnag, ystyrid bod y defnydd o fideo ar gynnydd ac roedd camau pellach i hyrwyddo ac annog y defnydd o fideo ar gyfer ymgynghoriadau ar fin cael eu cyflwyno ar adeg yr ymchwil.
- 5.34 Prif fantais arall ymgynghoriadau dros y ffôn/fideo a nodwyd yn ystod y trafodaethau oedd eu bod wedi hwyluso mynediad rhai pobl i'r gwasanaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a lleoliadau eraill lle mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn wael (gan olygu fod teithio i ganolfannau gyrfaoedd yn anodd ac yn cymryd llawer o amser o bosibl). Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n bosibl y byddai'n well gan lawer o bobl gael ymgynghoriadau dros y ffôn /fideo, hyd yn oed pan fyddai'r canolfannau gyrfaoedd ar agor. Yn wir, pwysleisiodd sawl un o'r rhai a gafodd eu cyfweld yr angen i gynnal y gwasanaeth dros y ffôn/fideo yn y dyfodol, ar y cyd ag ailgyflwyno gwasanaethau wyneb yn wyneb.


Effaith ganfyddedig y cynllun ffyrlo

- 5.35 Roedd 71 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg y staff rheng flaen o'r farn bod cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (neu'r 'cynllun ffyrlo') wedi cael effaith ar Cymru'n Gweithio. Y tair effaith fwyaf cyffredin a nodwyd oedd:
- Cynnydd yn nifer y cwsmeriaid (n=29)
 - Cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn ystyried eu hopsiynau (n=26)
 - Lefelau cynyddol o bryder ynghylch sicrwydd swyddi (n=23)
- 5.36 Fodd bynnag, nid oedd yn rhaid i'r adborth hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun y gostyngiad dramatig yn nifer cwsmeriaid Cymru'n Gweithio o ganlyniad i gyfnodau clo 2020 (fel y trafodwyd ym Mhennod 4). Mae'r niferoedd yn awgrymu nad yw effaith y cynllun ffyrlo a nodwyd gan staff rheng flaen wedi'i hadlewyrchu hyd yma yn yr ymgysylltiad â Cymru'n Gweithio. Mae'n bosibl y bydd hyn yn newid pan fydd y cynllun ffyrlo yn dod i ben, ynghyd â chymorth arall a ddarparwyd mewn ymateb i'r pandemig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Roedd cynnydd yn y galw yn y dyfodol am wasanaethau Cymru'n Gweithio pan ddaw'r cynllun 'ffyrlo' i ben yn nodwedd gyffredin yn y trafodaethau gyda staff, ond nid oedd yn amlwg pryd yn union y byddai'r cynllun yn dod i ben ar adeg y gwaith ymchwil:
- “Ar y dechrau, roedd apwyntiadau yn ymddangos yn fwy araf ac yn fwy tawel. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau yn y cynllun a'r ffaith bod cyflogwyr yn gorfod cyfrannu, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr unigolion sy'n cael eu diswyddo ac sy'n gofyn am gymorth gan Cymru'n Gweithio.” (Ymgynghorydd)
- “Os bydd cwsmeriaid yn cael eu diswyddo oherwydd bod y cynllun ffyrlo yn dod i ben, yna bydd cynnydd yn y niferoedd a fydd yn dod atom i gael cymorth.” (Ymgynghorydd)
- 5.37 Roedd uwch reolwyr Cymru'n Gweithio yn tybio bod y pandemig wedi arwain at newid agwedd ar ran defnyddwyr (y rhai presennol a darpar-ddefnyddwyr) gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Yn benodol, mynegwyd y farn bod pobl wedi 'rhoi'r gorau i feddwl am faterion cyflogaeth dros dro' yn ystod pandemig, a bod yn well ganddynt aros 'nes i bethau fynd yn ôl i normal' a/neu nes bod y sefyllfa economaidd yn dod yn fwy clir. Ystyrid bod cyflwyno'r cynllun ffyrlo wedi cyfrannu at hyn, a bod unigolion o bosibl yn oedi cyn ymgysylltu â gwasanaethau Cymru'n Gweithio nes i'r cynllun ffyrlo ddod i ben.

Effaith ar y cymorth y mae Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio cwsmeriaid iddo

- 5.38 Dywedodd 89 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg ar-lein y staff rheng flaen fod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael rhyw fath o effaith ar y ddarpariaeth cymorth y gellir atgyfeirio unigolion iddi, ac roedd 20 y cant o'r rhain yn credu bod yr effaith yn sylweddol (Ffigur 5.3).

Ffigur 5.3: Barn staff rheng-flaen am effaith y cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i pandemig COVID-19 ar y ddarpariaeth cymorth y gall Cymru'n Gweithio atgyfeirio unigolion ato



Sylfaen: 87

Ffynhonnell: arolwg ar-lein o staff Gyrfa Cymru

- 5.39 Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr wrth esbonio eu hymatebion oedd:

- Materion yn ymwneud ag argaeledd yr hyfforddiant (n=30)
- Diffyg cymorth wyneb yn wyneb (n=22)
- Oedi yn y ddarpariaeth (n=17)

“Yn amlwg, mae ein partneriaid yn gweithio mewn ffordd debyg i ni yn ystod y pandemig, felly nid yw'n bosibl cynnal rhai mathau o waith sefyllfa gyda grwpiau (sydd hefyd yn gymwys i'n gwasanaeth ni) neu glybiau swyddi — o leiaf yn y ffordd arferol. Ond rydym ni'n ymdopi.” (Ymgynghorydd)

“Dydy’r rhan fwyaf o wasanaethau ddim yn cynnig apwyntiadau [wyneb yn wyneb], ac mae’r sianeli a’r dulliau atgyfeirio arferol naill ai wedi newid neu dydyn nhw ddim ar gael. Mae hyn wedi golygu bod llawer o’r atgyfeiriadau heb gael eu cwblhau neu mae angen rhagor o amser i gael atgyfeiriad cadarnhaol.”
(Ymgynghorydd)

- 5.40 Mae’r ddamcaniaeth newid a drafodir ym Mhennod 3 o’r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith na all Cymru’n Gweithio sicrhau’r effaith a ddymunir (deilliannau cyflogadwyedd, ac ati) oni bai fod y cymorth y mae wedi’i nodi sydd ei angen ar gael ac yn cael ei ddarparu’n effeithiol. Felly, mae’n bwysig ystyried effaith cyfyngiadau pandemig COVID-19 ar y sector hwnnw wrth ystyried yr effaith ar Cymru’n Gweithio. Er bod cyfyngiadau amlwg yn y gwaith ymchwil hwn yn yr ystyr nad oes unrhyw ymgysylltiad wedi bod â darparwyr hyfforddiant yn y cam hwn, yr awgrym clir yw eu bod wedi cael rhywfaint o effaith ar eu gallu i gyflenwi cymorth yn ystod y pandemig, ac mae hyn yn cael sgil-effaith ar Cymru’n Gweithio.

Heriau allweddol yn y misoedd i ddod

- 5.41 Pan ofynnwyd i’r rhai a ymatebodd i’r arolwg staff rheng flaen beth roeddynt yn ei ragweld fyddai’r heriau allweddol i Cymru’n Gweithio dros y misoedd i ddod, y ddau ymateb mwyaf cyffredin oedd ymdopi â chynnydd rhagweladwy yn y galw am gymorth (n=37) a sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at y cymorth (n=23). Mae’r dyfyniadau a ganlyn yn enghreifftiau o’r sylwadau a wnaed:

“Bydd effaith diswyddiadau yn her enfawr yn y blynyddoedd i ddod a dydy’r effaith economaidd ddim wir wedi cael ei hadnabod eto.”

“Mae’n bosibl y bydd yn rhaid neilltuo mwy o amser i ddelio ag anghenion pob cwsmer; felly, bydd angen rhagor o staff.”

“Rydw i’n gobeithio na fyddwn ni’n cael ein llethu gan gwsmeriaid sy’n defnyddio’r gwasanaeth, ac rydw i’n gobeithio y gallwn ni weithio’n dda gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod cwsmeriaid yn symud ymlaen i ryw fath o hyfforddiant/gwaith/cyflogadwyedd neu brofiad gwaith fel y gall cwsmeriaid ddatblygu’r sgiliau mae arnynt eu hangen.”

“Yr heriau fydd ymdopi â’r llwyth gwaith wrth i fwy a mwy o bobl golli eu gwaith a dod atom i gael cymorth.”

5.42 Ymhlith yr heriau eraill a nodwyd gan nifer llai o ymatebwyr, roedd:

- Diffyg sgiliau priodol ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth (n=11) — “Bydd hyn yn arwain at yr angen i ailhyfforddi llawer o gwsmeriaid er mwyn iddyn nhw gael sgiliau newydd a hefyd (yn achos rhai) dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio technolegau newydd a normau newydd [...].”
- Materion staffio yn Gyrfa Cymru (n=11) — “Rydw i'n poeni am les ein staff a'n capasiti i ddelio â chynnydd yn y galw.”
- Diffyg swyddi a/neu amodau'r farchnad lafur (n=10) — “Mae llawer o swyddi yn cael eu colli'n gyfan gwbl, felly bydd mwy o bobl yn ceisio ymgeisio am [lai o] swyddi.”

5.43 Y mater canolog a nodwyd yw'r cynnydd sylweddol tebygol yn y galw am gymorth gan Cymru'n Gweithio a gallu'r gwasanaeth i fodloni'r galw hwn heb gyfaddawdu ar ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn bryder dealladwy ac mae'n cysylltu â'r ddamcaniaeth newid a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, ac a nododd y rhagdybiaeth y byddai'r mewnbynnau i'r gwasanaeth yn ddigonol i gyflenwir allbynnau (gweithgareddau) a bodloni'r galw am y cymorth. Yr awgrym clir yw bod staff yn rhagweld y bydd hyn yn her dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod o ganlyniad i effaith economaidd pandemig COVID-19.

6. Astudiaethau Achos Cwsmeriaid Cymru'n Gweithio

Pwyntiau allweddol

- Mae'r astudiaethau achos yn dangos yr amrediad eang o faterion y mae Cymru'n Gweithio yn rhoi cymorth i'w gwsmeriaid ymdopi â nhw.
- Ymhellach, mae'r astudiaethau achos yn dangos bod Cymru'n Gweithio yn llawer mwy na gwasanaeth 'dadansoddi anghenion ac atgyfeirio' gan roi cymorth i unigolion sydd weithiau yn wynebu cyfnodau anodd iawn yn eu bywydau.
- Nid oedd yr un o'r cwsmeriaid a holwyd wedi cael unrhyw broblemau i gael mynediad at gymorth Cymru'n Gweithio, er gwaethaf y cyfyngiadau a'r newidiadau i'r gwasanaeth o ganlyniad i bandemig COVID-19.
- Dywedodd pob un o'r cwsmeriaid a gafodd eu cyfweld eu bod wedi elwa ar y cymorth roeddynt wedi'i dderbyn.
- Mae'r deilliannau 'llesiant' a gynhyrchwyd ar gyfer cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, yn ogystal â'r deilliannau cyflogadwyedd, yn amlwg yn yr astudiaethau achos.
- Nodwyd bod y teimlad 'cadarnhaol' a'r 'sicrwydd' roedd unigolion wedi'i gael gan aelodau tîm Cymru'n Gweithio yn bwysig, ynghyd â'r 'ymagwedd bersonol'.

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r bennod hon yn dwyn ynghyd astudiaethau achos 10 o ddefnyddwyr gwasanaeth, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'cwsmeriaid' (sef y term a ddefnyddir gan staff Cymru'n Gweithio), sy'n defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Maent yn cynnwys amrediad o gwsmeriaid o bob rhan o Gymru, ac mae gan bob un ohonynt amgylchiadau personol ac anghenion gwahanol. Roedd un o'r unigolion o dan 21 oed, roedd pump ohonynt yn y grŵp oedran 22–49 oed, ac roedd pedwar dros 50 oed. Mae pobl ag anableddau corfforol neu broblemau iechyd meddwl wedi'u cynrychioli mewn dwy o'r astudiaethau achos. Mae un astudiaeth achos yn cynrychioli unigolyn sy'n perthyn i leiafrif ethnig.
- 6.2 Mae'r astudiaethau achos yn seiliedig ar gyfweiliadau rhannol-strwythuredig a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2021. Cafodd y cyfweiliadau eu cynnal naill ai ar alwadau fideo ar-lein neu dros y ffôn. Gwahoddwyd y cwsmeriaid i sôn am eu profiadau yn eu geiriau eu hunain. Er mwyn ychwanegu dyfnder a phersbectif i'r profiadau a ddisgrifiwyd gan y 'cwsmeriaid', cafodd eu hymgyngorwyr neu Hyfforddwyr Cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio eu cyfweld hefyd. Unwaith yn rhagor, cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn naill ai drwy alwad fideo neu dros y ffôn yn ystod yr un cyfnod.
- 6.3 Cafodd manylion cyswllt unigolion a oedd yn bodloni'r meini prawf i gael eu cynnwys yn yr astudiaethau achos eu darparu gan Gyrrfa Cymru ac, oherwydd hyn,

rhoddwyd gwybod i holl gwsmeriaid yr astudiaethau achos bod posibilrwydd y gallai tîm Gyrfa Cymru/ Cymru'n eu hadnabod. Roedd yr holl gwsmeriaid yn hapus i fwrw ymlaen ac nid oedd yn ymddangos bod hyn wedi cael unrhyw effaith ar yr ymatebion a gasglwyd. Fodd bynnag, mae enwau holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio a staff Cymru'n Gweithio wedi cael eu newid yn yr astudiaethau achos.

Astudiaeth achos 1: Sam

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.4 Mae Sam yn byw ac yn gweithio yn Ne Cymru. Mae'n 49 oed ar hyn o bryd, ac roedd wedi gweithio mewn gwahanol swyddi yn y diwydiant lloriau ers yn 17 oed. Cafodd ei roi ar ffyrlo o'i swydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn 2020 a gwelodd hynny fel cyfle i ddefnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio ym mis Mai 2020 gyda'r nod o newid ei swydd a'r sector lle'r oedd yn gweithio. Mae Sam yn disgrifio sut roedd wedi bod yn ceisio newid sectorau ers 2019 ac, yn benodol, roedd yn awyddus i ymuno â'r Gwasanaeth Ambiwlans. Roedd eisiau defnyddio ei waith gwirfoddol gydag Urdd Ambiwlans Sant Ioan a'r Gwasanaeth Achub Mynydd a'i droi yn swydd amser llawn.
- 6.5 Roedd Sam wedi gwneud dau gais blaenorol am swydd yn y Gwasanaeth Ambiwlans ac ar y ddau achlysur roedd wedi cyrraedd y cam cyfweiliad ond nid oedd wedi cael y swydd. Nid oedd yn credu bod hyn oherwydd diffyg profiad, ond yn hytrach oherwydd ei fod wedi bod yn gweithio yn yr un sector am lawer o flynyddoedd ac, felly, nad oedd ganddo'r 'sgiliau cyfweiliad' neu'r profiad angenrheidiol. Roedd Sam yn credu'n wreiddiol y byddai'n rhaid iddo dalu am gymorth i'w helpu i roi sylw i'r materion hyn, ond yna daeth o hyd i Cymru'n Gweithio wrth chwilio ar y rhyngrwyd.
- 6.6 Mae Sam yn disgrifio sut roedd cysylltu â Cymru'n Gweithio yn her gan nad oedd wedi arfer gofyn am gymorth ac oherwydd ei fod yn mynd yn nerfus pan fydd y tu allan i'w sefyllfa gyfforddus. Fodd bynnag, llwyddodd Sam i oresgyn hyn a ffoniodd i drefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd Cymru'n Gweithio:

“Dydw i ddim fel arfer yn gofyn am help, ond roeddwn yn credu fod angen help arnaf. Felly fe wnes i fagu digon o blwc i gysylltu. Er fy mod i bob amser yn ymddangos yn hyderus fel gwerthwr, dydw i ddim mor hyderus mewn bywyd go iawn.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.7 Dechreuodd Sam gyfarfod Hyfforddwr Cyflogadwyedd yn rheolaidd. Gyda'i gilydd, gwnaethant nodi'r angen i ddatblygu ei dechneg mewn cyfweiliadau. Roedd yr Hyfforddwr Cyflogadwyedd yn bendant nad oedd angen cymorth ar Sam i ddod o hyd i swydd (gan ei fod yn dal i weithio), ond roedd ei angen am gymorth wedi'i gymhell gan ei freuddwyd o weithio i'r Gwasanaeth Ambiwlans. Roedd gwneud y newid gyrfa hwn yn bwysig i hapusrwydd cyffredinol Sam a'i foddhad swydd. Ffactorau llesiant yn hytrach na ffactorau economaidd (a gysylltir fel arfer â gwasanaeth fel Cymru'n Gweithio) a oedd wedi ei gymhell i geisio cymorth:

“I Sam roedd hwn yn nod hirdymor. Roedd yn uchelgais fawr ac roedd wedi rhoi llawer o ymdrech i wirfoddoli a chefnogi pobl. Ac roedd hyn yn mynd i'w helpu mewn ffordd wahanol. O ran ei sefyllfa ariannol, roedd ganddo swydd, ond o ran cyflawniad, roedd angen cymorth arno.” (Cyfweliad â Hyfforddwr Cyflogadwyedd, 2021)

- 6.8 Dros gyfnod o ychydig fisoedd, roedd Sam a'i Hyfforddwr Cyflogadwyedd wedi gweithio gyda'i gilydd i roi sylw i'r mater hwn. Roedd yn cael ei ystyried yn bwysig bod Sam yn deall y technegau a fyddai'n helpu yn ystod cyfweiliad swydd. At hyn, gwnaethant ddadansoddi ac ystyried cwestiynau cyfweiliadau blaenorol i weld lle'r oedd yn mynd o'i le a sut gallai wella. Gan fod yn ymwybodol o'i nod gyrfa, llwyddodd hyfforddwr Sam i gynnwys y defnydd o'r dull STAR²³ yn y sesiynau, gan wybod fod y GIG yn defnyddio'r dull hwn wrth recriwtio.
- 6.9 Yn dilyn hyn, roedd yn bosibl iddynt edrych yn fwy manwl ar y cwestiynau y byddai'n debygol o'u cael mewn cyfweiliad, gan roi cyfle i Sam gynnig enghreifftiau ac esboniadau manwl o'i brofiad perthnasol. Er mwyn paratoi ymhellach, trefnodd Hyfforddwr Cyflogadwyedd Sam nifer o ffug gyfweiliadau ag aelodau eraill tîm Cymru'n Gweithio:

²³ Defnyddir dull STAR yn ystod cyfweiliadau i brofi ymatebion ymddygiadol. Mae'r dull yn annog y bobl sy'n cael eu cyfweld i ateb cwestiynau sefyllfaol drwy ddisgrifio sefyllfa, tasg, gweithred a chanlyniad (STAR: situation, task, action, result) ac i roi ymatebion cryno, manwl, sy'n helpu cyflogwyr i farnu a ydynt yn addas i'r swydd.

“Mae hyn wedi agor y byd i strwythur cyfweiliadau. Rydw i wedi cael beth roeddwn ei eisiau, sef pasio'r cyfweiliad, ac mae hynny wedi cael ei gyflawni.” (Cyfweiliad â Chyfranogwr, 2021)

“Gwnaethon ni ddangos iddo sut mae cyflogwyr yn sgorio ceisiadau. Gwnaethon ni dynnu pethau allan o'r swydd-ddisgrifiadau [...]. roedden ni'n dangos iddo sut bydden nhw'n defnyddio taflen sgorio.” (Cyfweiliad â Hyfforddwr Cyflogadwyedd, 2021)

Deilliannau

- 6.10 Yn ddiweddar, hysbysebodd y GIG swydd yn y Gwasanaeth Ambiwlans, ac ymgeisiodd Sam amdani. Unwaith yn rhagor, cafodd ei roi ar y rhestr fer am gyfweiliad a chafodd y swydd.
- 6.11 Oherwydd ei brofiad cadarnhaol gyda Cymru'n Gweithio, mae Sam bellach yn dweud ei fod yn argymhell y gwasanaeth i'w gydweithwyr pan fyddant yn trafod symud ymlaen yn y gwaith neu i swydd arall.

Astudiaeth achos 2: Gareth

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.12 Mae Gareth yn byw yng Ngogledd Cymru ac mae yn ei ddauddegau cynnar. Graddiodd â gradd Meistr mewn Ffiseg ar ddiwedd 2019 ac ers hynny mae wedi bod yn chwilio am swydd amser llawn.
- 6.13 Pan oedd Gareth yn y Ganolfan Waith, awgrymwyd wrtho y gallai Cymru'n Gweithio gynnig cymorth iddo ddod o hyd i swydd. Er bod Gareth wedi derbyn cymorth gan Cymru'n Gweithio yn sgil yr atgyfeiriad hwn, roedd yn teimlo bod y broses fel 'mynd drwy'r felin', yn enwedig gan ei fod eisoes yn derbyn cymorth cyflogadwyedd yn y Ganolfan Waith.
- 6.14 Fodd bynnag, yn dilyn hyn roedd wedi gweld bod Cymru'n Gweithio yn wasanaeth hyblyg a chyfleus ar ôl iddo ddechrau derbyn cymorth. Dechreuodd Gareth ddefnyddio Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2020. Roedd ei apwyntiad cyntaf ar ffurf cyfarfod ar-lein gyda'i ymgynghorydd Cymru'n Gweithio.

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.15 Nid oedd Gareth yn teimlo bod angen unrhyw hyfforddiant arno, gan ei fod newydd raddio. Yn hytrach, dywedodd Gareth ei fod yn teimlo fod yr hoffai gael cyfle i drafod ei opsiynau gyrfa a chael cymorth 'anfeirniadol':

“Y prif beth roeddwn eisiau ei gael o’r gwasanaeth gyrfaedd oedd cyfle i fynegi rhai o’r syniadau oedd gennyf heb i rywun gael barn unochrog amdanaf.”
(Cyfweliad â Chwsmer, 2021)

- 6.16 Dywedodd ei ymgynghorydd fod gan Gareth syniadau cyflogaeth tymor hir a thymor byr. Roedd y rhain yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar yr angen iddo ennill arian a chael yr annibyniaeth a ddaw yn sgil hynny. Roedd yn bwysig i Gareth gael y teimlad o bwrpas sy’n gysylltiedig â gweithio. Yn y tymor hirach, fodd bynnag, roedd Gareth eisiau cael swydd mewn maes o ddiddordeb iddo ac a oedd yn gysylltiedig â’i astudiaethau prifysgol:

“Roedd yn teimlo’n rhanedig rhwng chwilio am swyddi tymor hir a rhai tymor byr — yn y tymor byr roedd eisiau cael unrhyw swydd bosibl er mwyn ennill arian [...]. Roedd hefyd eisiau edrych ar swyddi ar gyfer graddedigion. Dyna le’r oedd y syniadau mwy hirdymor yn bwysig [...]. Roedd eisiau gwneud rhywbeth yn gysylltiedig â gwyddoniaeth. Roedd ganddo syniadau eraill ond roedd yn ansicr. Roedd yn gwneud llawer o geisiadau am swyddi ar y pryd [...]. Roedd eisiau gwybod a fyddai ei syniadau yn gallu ei arwain i’r cyfeiriad cywir.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)

- 6.17 Er nad oedd Gareth yn wynebu unrhyw rwystrau rhag cael cymorth, roedd o’r farn nad oedd y cymorth yn addas iawn i raddedigion yn ei sefyllfa. Roedd llawer o’r swyddi a chyfleoedd a anfonwyd ato yn canolbwyntio ar hyfforddiant mewn coleg neu brentisiaethau, a gan ei fod newydd raddio, nid oedd yn teimlo eu bod yn briodol. At hyn, dywedodd Gareth fod yr ardal lle’r oedd yn byw ac effaith byw mewn ardal wledig yn broblem o ran y mathau o swyddi a chyfleoedd a oedd ar gael yn lleol.
- 6.18 Yn ogystal â’r cymorth cyflogaeth roedd yn ei dderbyn, dywedodd Gareth fod gwasanaeth Cymru’n Gweithio wedi ei helpu i ymdopi ag effeithiau COVID-19 a chyfyngiadau’r cyfnod clo. Dyma ddywedodd Gareth am fod yn ddi-waith yn ystod y cyfnod:

“Mae’n debyg mai’r peth mwyaf yw’r diflastod. Mae’n teimlo fel nad ydw i’n gwneud dim o un diwrnod i’r llall, felly dydy hynny ddim yn deimlad da iawn. Yna, gyda COVID-19, does dim posibl gweld eich ffrindiau, felly mae’n deimlad ynysig.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.19 Dywedodd ei ymgynghorydd eu bod nhw wedi trafod ei opsiynau o ran cyflogaeth, yn ogystal â rhoi cymorth iddo gwblhau ei geisiadau swydd, ei gyfeirio at wefannau

swyddi, a thechnegau cyfweliad. At hyn, gwnaethant drafod ehangu ei syniadau o ran opsiynau cyflogaeth a sut gellid defnyddio sgiliau Gareth mewn amrediad eang o swyddi a sectorau (gan ei helpu i ystyried edrych yn ehangach wrth chwilio am swydd).

- 6.20 Oherwydd y cyfnod amser yr oedd Gareth wedi defnyddio'r gwasanaeth a'r cynnydd cysylltiedig mewn cyfweliadau ar-lein, dywedodd ei ymgynghorydd eu bod nhw wedi cael trafodaethau pwysig am sut i gymryd rhan mewn cyfweliadau o'r cartref ac ar dechnegau a syniadau a fyddai'n helpu Gareth i wneud yr argraff orau o'i gartref:

“Gwnaethon ni drafod technegau cyfweliad ac edrych ar gwestiynau enghreifftiol a pharatoi ar gyfer cyfweliadau a delweddau cefndir. Yn ei apwyntiad cyntaf roedd yn eistedd mewn gŵn llofft gyda phoster o grŵp roc yn y cefndir!”

(Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

Deilliannau

- 6.21 Ers hyn, mae Gareth wedi llwyddo i ddod o hyd i waith amser llawn mewn maes gwaith o'i ddewis. Ar y cyfan, roedd yn teimlo'n gadarnhaol o ran effeithiolrwydd y cymorth a gynigiwyd iddo, ac roedd yn credu ei fod wedi cael yr hyn roedd yn chwilio amdano. Fodd bynnag, roedd yn amharod i briodoli'r ffaith iddo ddod o hyd i swydd i gymorth Cymru'n Gweithio yn unig:

“Dydw i ddim am danbrizio neu orbrizio'r gwasanaeth. Roeddwn yn gwneud ceisiadau am gynifer o swyddi ac yn cael cyfweliadau. Roedd gallu siarad am y [swyddi] roeddwn wedi ymgeisio amdany'n nhw a'r profion roedd yn rhaid i mi eu gwneud ar gyfer y ceisiadau swydd a'r cyfweliadau [...] wedi tawelu fy meddwl.”

(Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.22 Roedd Gareth hefyd yn credu bod y cymorth a roddwyd gan Cymru'n Gweithio wedi helpu i leddfu ei bryderon mewn perthynas â dod o hyd i swydd. Roedd gallu trafod ei syniadau gyda rhywun a derbyn dilysiad ymgynghorydd Cymru'n Gweithio wedi ei helpu i symud ymlaen â'i gynllun gyrfa:

“Yn fy marn i, roedd eisiau adrodd ei stori i weld a oedd yn gwneud synnwyr [...]. Roedd ganddo syniadau ond nid oedd yn sylweddoli'r potensial, ond llwyddodd i wireddu hyn yn y pen draw. Roedd eisiau cadarnhad ei fod ar y llwybr cywir, [derbyn] sicrwydd a'r math yna o beth.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

Astudiaeth achos 3: Peter

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.23 Symudodd Peter i'r DU yn 2006 ar ôl bod yn byw ac yn astudio yn India a Singapore. Dechreuodd ar yrfa yn y sector lletygarwch yng Ngorllewin Cymru cyn symud i ardal drefol yn Ne Cymru gyda'i deulu i weithio. Dechreuodd weithio fel asesydd NVQ yn y sector lletygarwch yn 2009. Mae Peter yn y grŵp oedran 22–49 ac mae'n perthyn i leiafrif ethnig.
- 6.24 Ar ôl gweithio fel hyfforddwr ac asesydd yn y sector lletygarwch am 12 mlynedd, cafodd Peter ei ddiswyddo ym mis Awst 2020 o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar y sector lletygarwch. Fodd bynnag, nid oedd yn ddi-waith pan ddechreuodd ddefnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio, ac roedd yn gweithio mewn swydd rhan amser (yn y sector lletygarwch). Roedd hyn yn ei alluogi i ennill cyflog tra'n chwilio am y math o swydd roedd yn dymuno ei chael.

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.25 Roedd Peter yn gwybod y byddai'n fwy tebygol o gael swydd petai'n ennill rhagor o gymwysterau. Daeth ar draws Cymru'n Gweithio a'r rhaglen ReAct pan oedd yn chwilio am hyfforddiant priodol ar y rhynggrwyd. Yna penderfynodd ffonio Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2020 i drefnu apwyntiad, yn y gobaith y byddai'n gymwys am gymorth:

“O'r alwad gyntaf honno, roeddwn yn gwybod y bydden nhw'n gallu fy helpu, a fy mod yn gymwys am y cymorth a doedd dim byd yn mynd i fy rhwystro.”

(Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.26 Roedd Peter yn chwilio am nawdd er mwyn ennill Cymhwyster Aseswyr Lefel 4 gan nad oedd ganddo'r arian i dalu amdano.
- 6.27 Daeth yn amlwg yn fuan fod Peter yn gymwys am gymorth. Fodd bynnag, roedd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio yn teimlo ei fod o dan lawer o straen a phwysau pan ddaeth at y gwasanaeth. Roedd yn credu mai'r rheswm dros hyn oedd ei fod wedi cael ei ddiswyddo ac nid oedd wedi bod allan o waith o'r blaen. Roedd yn teimlo y byddai Peter (ar ôl derbyn hyfforddiant) yn dod yn fwy hyderus, yn cael teimlad o bwrpas a nod i anelu ato:

“Yn yr ymgynghoriad cyntaf roedd yn ymddangos yn siaradus ac roeddwn yn teimlo ei fod o dan gryn dipyn o straen [...]. felly gadewais iddo ddweud ei ddweud yn y lle cyntaf. Yng nghefn fy meddwl, roeddwn eisiau gweld sut y gallwn

ei helpu. Roedd yn rhaid i mi dorri ar ei draws, neu fe fyddai wedi siarad am yr awr gyfan [...]! [Roedd yn fater] o sicrhau cydbwysedd [a] gadael iddo siarad a cheisio deall sut gallwn ni ei helpu.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)

- 6.28 Nid oedd llawer o gyfleoedd ar gael i dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol oherwydd effaith pandemig COVID-19. Ond roedd Peter a’i ymgynghorydd yn credu ei bod yn bwysig sicrhau lle iddo ar gwrs ar y cyfle cyntaf. Roedd y straen roedd Peter yn ei wynebu ar y pryd yn ffactor pwysig hefyd.
- 6.29 Dywedodd ei ymgynghorydd ei fod yn cofio sut gwnaeth Peter golli galwad gan ddarparwr hyfforddiant yn ystod cyfarfod gyda Peter, a’i fod wedi ei annog i’w ffonio’n ôl ar ôl y cyfarfod. Yn sgil yr alwad hon cafodd Peter gynnig lle ar gwrs a oedd yn dechrau’r wythnos ganlynol. Gweithiodd ymgynghorydd Cymru’n Gweithio yn galed i brosesu’r cais am nawdd ReAct mewn ychydig ddyddiau gan alluogi Peter i sicrhau ei le ar y cwrs.

Deilliannau

- 6.30 Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd Peter yn dal i ddilyn y cwrs hyfforddiant. Roedd yn teimlo’n gadarnhaol iawn am y cymorth roedd wedi’i dderbyn gan Cymru’n Gweithio:
- “[...] dydw i erioed wedi cael y math yna o gymorth o unrhyw le arall ers dod i’r wlad yma. Wnes i erioed gael pethau fel yna. Cefais lawer o help gan ymgynghorydd Cymru’n Gweithio ac roedd wir eisiau i mi wneud y cwrs ar yr adeg honno ac rydw i wir eisiau gwneud y cwrs.” (Cyfweliad â Chwsmer, 2021)
- 6.31 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y sector lletygarwch (lle mae Peter yn gobeithio gweithio). Felly, er mwyn galluogi Peter i gadw ei opsiynau cyflogaeth yn agored, gwnaeth ei ymgynghorydd ei annog i ddefnyddio’r Cymhwyster Aseswyr Lefel 4 mewn sectorau eraill, ac mae Peter yn fodlon ystyried hyn bellach:
- “Un o’r pethau y gwnaethon ni ei ystyried oedd y rhwystrau o safbwynt y ffaith ei fod yn canolbwyntio ar y sector lletygarwch, ac yn ystod y cyfnod clo a oes pobl ar gael i’w hasesu. Gall rhai dyfarniadau asesu gael eu defnyddio yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn wir am Gymhwyster Asesu Lefel 4. Mae ganddo gymaint o brofiad, cymwysterau a sgiliau, byddai’n bosibl iddo arallgyfeirio a’u defnyddio mewn meysydd asesu eraill.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)

Astudiaeth achos 4: Matthew

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.32 Mae Matthew yn byw mewn ardal drefol yng Ngogledd Cymru a gadawodd yr ysgol yn yr haf 2020 heb gael unrhyw gymorth neu arweiniad gyrfaedd, ac eithrio cyfarfod byr i gynnal ‘arolwg gwiriad gyrfaedd’ a rhywfaint o waith grŵp. O ganlyniad, roedd Matthew mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), gan nad oedd wedi gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael yr ysgol.
- 6.33 Dechreuodd Matthew ddefnyddio gwasanaeth Cymru’n Gweithio ar ôl i’w fam wneud yr alwad gyntaf i’r gwasanaeth i drefnu cyfarfod ag ymgynghorydd. Roedd hi’n poeni am ei orbryder a’r ffaith ei fod yn ynysig oherwydd cyfnod clo COVID-19. Roedd Matthew a’i fam wedi clywed am Cymru’n Gweithio gan fod ei chwaer wedi defnyddio’r gwasanaeth yn y gorffennol.

Cymorth Cymru’n Gweithio

- 6.34 Pan ddechreuodd ddefnyddio’r gwasanaeth ym mis Medi 2020, roedd Matthew yn bendant ei fod am weithio yn y sector amaethyddiaeth ac roedd yn awyddus i gael hyfforddeiaeth neu ddechrau cwrs mewn coleg lleol. Fodd bynnag, dywedodd ei ymgynghorydd nad oedd Matthew wir yn deall beth allai hynny ei olygu ac nid oedd ganddo unrhyw syniad o ran llwybr gyrfa. Felly, yn y lle cyntaf, gwnaethant weithio gyda’i gilydd i nodi’r camau nesaf posibl ar gyfer Matthew:
- “Roedd eisiau gwybod beth oedd yr opsiynau a ble roeddynt. Pan wnaethon ni symud ymlaen i gael cyfweiliadau a thrafod camau pellach, roedd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth ynghylch lle gallai astudio a cholegau a thalu am drafnidiaeth. Yr wybodaeth ymarferol [...]. Nid oedd yn gwybod llawer am yr ochr ymarferol o fynd i’r coleg ac roedd angen rhoi cymorth iddo.” (Cyfweiliad ag Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)
- 6.35 Roedd ymgynghorydd Cymru’n Gweithio Matthew hefyd yn ansicr a fyddai cwrs coleg yn addas ar ei gyfer, gan nad oedd amgylchedd yr ysgol wedi bod yn hawdd iddo. Ar ôl sgwrsio am hyn, fodd bynnag, gwnaethant gytuno y byddai cwrs coleg mwy ymarferol ym maes amaethyddiaeth o fudd i Matthew, lle byddai’r cyfle i ddysgu mewn ffordd fwy ymarferol yn fwy addas ar gyfer ei arddull ddysgu.
- 6.36 Penderfynodd Matthew wneud cais am y cwrs gofalu am anifeiliaid, ac ymunodd â’r coleg ar ddechrau mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd lleoliad mwy gwledig y coleg a’r daith awr o hyd ar fws i gyrraedd y safle, penderfynodd Matthew nad oedd

y cwrs hwn, ar yr adeg hon, yn addas ar ei gyfer, a gadawodd y coleg ar ddiwedd mis Tachwedd. Er iddo adael y cwrs, roedd yr ymgynghorydd yn credu ei fod wedi dyfalbarhau digon i sylweddoli nad oedd yn addas ar ei gyfer ac fe wnaeth barhau i roi cymorth i Matthew ddod o hyd i rywbeth mwy addas.

Deilliant

- 6.37 Ers hyn, mae Cymru'n Gweithio wedi helpu Matthew i gael hyfforddeiaeth. Ar ôl goresgyn rhwystr cychwynnol i ddechrau ar yr hyfforddeiaeth, h.y. nid oedd Matthew yn gallu dod o hyd i'w Rif Yswiriant Gwladol, dechreuodd ym mis Ionawr 2021. Mae ei ymgynghorydd yn gobeithio y bydd hyn yn ei helpu i ennill profiad ymarferol pwysig ym maes amaethyddiaeth.
- 6.38 Mae ymgynghorydd Matthew yn credu ei fod wedi ymgysylltu'n dda â'r cymorth sydd ar gael a dywedodd nad oedd y problemau neu anawsterau a gafodd wrth dderbyn cymorth gyrfaoedd yn yr ysgol yn bodoli mwyach, ac mae'r ymgynghorydd yn priodoli hyn i'r ffaith nad oes gan Cymru'n Gweithio unrhyw gysylltiad â'r ysgol a'i fod yn cymryd rhan yn wirfoddol (yn hytrach nag fel rhan o'i addysg ysgol orfodol).

Astudiaeth achos 5: Jenny

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.39 Cafodd Jenny ei diswyddo ym mis Awst 2020. Oherwydd effeithiau COVID-19, roedd y feithrinfa lle'r oedd hi'n gweithio wedi gorfod cau yn barhaol. O ganlyniad, am y tro cyntaf mewn 20 mlynedd, doedd gan Jenny ddim swydd:
- “Rydw i'n meddwl [gan fy mod] wedi gweithio yn yr un lle am gyhyd, roeddwn wedi colli cysylltiad â phethau. Mae fel petai chi yn eich swigen eich hun.”
(Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)
- 6.40 Mae Jenny yn byw mewn ardal drefol yn Ne Cymru ac er ei bod hi'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, gofynnodd am gymorth Cymru'n Gweithio drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hi'n 59 oed.

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.41 Cafodd Jenny ei hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio gan y Ganolfan Waith i gael help a chymorth i ddychwelyd i fyd gwaith a dechreuodd ddefnyddio'r gwasanaeth ym mis Awst 2020 (proses y gwnaeth hi ei disgrifio fel un 'esmwyth'). Dywedodd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio Jenny fod gan y gwasanaeth gysylltiad cryf â'r Ganolfan Waith yn yr ardal honno. Oherwydd natur ei hatgyfeiriad o'r Ganolfan Waith, cysylltodd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio yn uniongyrchol â hi dros y ffôn (gan gynnwys y cyfarfod cychwynnol dros y ffôn).
- 6.42 Dywedodd Jenny ei bod yn poeni ar y dechrau beth fyddai Cymru'n Gweithio'n gofyn iddi. Fodd bynnag, roedd agwedd gadarnhaol ei hymgyngorydd Cymru'n Gweithio wedi tawelu ei meddwl. Roedd hyn yn bwysig i Jenny gan fod y broses o gael ei diswyddo wedi bod yn gyfnod anodd a phryderus:
- “[Roedd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio] yn hyfryd i siarad gydag ef ac yn gefnogol a charedig a gofynnodd [a oeddwn i eisiau] mynd yn ôl i'r gwaith a dywedodd y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu i'm helpu i fynd yn ôl i'r gwaith. Cyn hynny, roeddwn wedi ypsetio'n lân, ond ar ôl siarad â'r [ymgyngorydd Cymru'n Gweithio] roedd yn gwneud i chi deimlo y byddai popeth yn iawn.” (Cyfweiliad â Chyfranogwr, 2021)
- 6.43 Disgrifiodd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio Jenny pa mor bwysig oedd cynnig cymorth emosiynol yn y lle cyntaf er mwyn helpu Jenny i deimlo'n fwy cadarnhaol, cyn symud gam wrth gam tuag at nod Jenny o ddychwelyd i'r gwaith:
- “Weithiau os yw pobl yn teimlo braidd ar goll, maen nhw'n teimlo'n ddiymadferth, ond unwaith maen nhw'n dechrau dweud eu bod yn gallu gwneud hyn a chymryd camau, mae pobl yn teimlo mewn rheolaeth o'r sefyllfa; [hefyd], pan maen nhw'n gweld beth maen nhw wedi'i gyflawni, maen nhw'n teimlo'n fwy cadarnhaol.” (Cyfweiliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)
- 6.44 Cafodd Jenny gymorth i ddatblygu ei CV, derbyniodd gyngor ar gyfweiliadau a chafodd brofiad o ffug gyfweiliadau, cafodd gymorth i chwilio am swyddi, a chefnogaeth i ddefnyddio technoleg ar-lein ar gyfer cyfarfodydd a chyfweiliadau. Er iddi gael cynnig cyfle i dderbyn hyfforddiant ar raglen ReAct, roedd yn credu bod ganddi'r cymwysterau diweddaraf ac nid oedd yn teimlo bod angen unrhyw hyfforddiant pellach arni.
- 6.45 Dywedodd Jenny fod agwedd gadarnhaol ei hymgyngorydd yn bwysig iawn. Roedd hyn wedi ei chymhell i barhau i chwilio am waith, a rhoi sicrwydd iddi ei bod

yn gwneud y pethau iawn wrth chwilio am swydd. Ar ôl bod yn yr un swydd am amser hir, doedd hi ddim yn gwybod llawer am sut i chwilio am swydd a defnyddio gwefannau swyddi, er enghraifft. Ymhellach, roedd Jenny yn poeni am ei hoedran a sut gallai hynny fod yn rhwystr rhag dod o hyd i swydd:

“Doeddwn i ddim yn gwybod a fyddai unrhyw swyddi ar gael i mi ac roeddwn yn poeni am fy oedran — fe fyddai’n 60 [oed eleni]. Dywedais wrtho nad oeddwn yn credu y byddai unrhyw un eisiau rhoi swydd i mi, a dywedodd wrth gwrs y byddan nhw oherwydd bod gen i gymaint o brofiad.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.46 Heb gymorth Cymru’n Gweithio, roedd Jenny yn credu y byddai wedi bod yn anodd iawn aros yn gadarnhaol ac y byddai hi o bosibl wedi cael ei llethu gan effaith ei diswyddiad a diweithdra:

“Mae cael eich diswyddo yn sioc ac nid yw’n deimlad braf. Rydw i’n credu y byddai llawer o bobl yn teimlo’n un peth petai nhw’n colli eu swydd, yn enwedig os oedden nhw wedi bod wrth eu bodd yn eu swydd am amser mor hir. Mae’n gymaint o newid mewn bywyd, yn enwedig pan rydych chi’n hŷn.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

“Rwy’n credu ei bod hi wedi dechrau credu ynddi hi ei hun eto [...]. Rydw i’n credu’n gryf bod y swydd y gwnaeth hi ei chael yn ganlyniad pwysig. Roedd ei hwyliau a’i hysbryd yn well ac roedd ei chymhelliant yn fwy amlwg yn y cyfweliad.” (Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)

Deilliannau

- 6.47 Yn ddiweddar cafodd Jenny ei phenodi i swydd ran amser mewn ysgol leol fel nyrs feithrin. Mae gweithio gyda phlant lleol yn ei chymuned leol wedi bod yn destun balchder mawr i Jenny a dywedodd ei bod hi’n teimlo’n ffodus i gael swydd yn lleol ac i gefnogi ei chymuned leol.
- 6.48 Roedd Jenny yn teimlo bod ei phrofiad gyda Cymru’n Gweithio wedi bod yn gadarnhaol iawn a dywedodd mai ei hymgyngorydd Cymru’n Gweithio oedd wedi awgrymu ei bod yn edrych ar wefan y cyngor lleol am swyddi, gan fod hyn yn rhywbeth nad oedd hi wedi ei ystyried o’r blaen. Yn y gorffennol, roedd hi wedi bod yn ffonio ysgolion i ofyn am swyddi, heb sylweddoli fod ganddynt broses recriwtio ganolog:

“Yr ymgynghorydd Cymru’n Gweithio wnaeth awgrymu fy mod yn edrych ar wefan y cyngor lleol i weld y swyddi gwag yn yr ysgolion. Roeddwn i’n ffonio’r

ysgolion ac roedden nhw'n dweud nad ydyn nhw'n penodi pobl yn y ffordd yna.”
(Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.49 Yn olaf, roedd Jenny yn teimlo bod yr agwedd gadarnhaol a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei chyfnod gyda Cymru'n Gweithio wedi ei helpu yn ystod y cyfnod pan gafodd ei diswyddiad ac roedd heb waith. Roedd gwybod bod rhywun ar gael i gynnig cymorth yn ystod y cyfnod hwn yn gysur a rhyddhad mawr i Jenny. Dywedodd:

“Mae'n effeithio ar y teulu cyfan pan fyddwch chi'n colli eich swydd [...]. Byddai wedi bod yn hawdd i mi fynd i lawr, yn isel iawn, ond roeddwn ni'n gwybod fod rhywun yno i'm helpu ac y byddai pethau'n gwella.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Astudiaeth achos 6: Simon

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.50 Mae Simon yn byw yng Ngogledd Cymru ac mae'n 50 oed. Mae ganddo hanes cyflogaeth amrywiol, gan gynnwys gweithio ym maes ad-werthu, yswiriant, busnes, amaethyddiaeth, a logisteg. Gadawodd ei swydd ddiwethaf ar fferm ar ddiwedd 2019 am resymau iechyd meddwl ac roedd wedi gwneud rhywfaint o waith dros dro yn ystod cyfnod y Nadolig y flwyddyn honno. Yn dilyn hynny, roedd wedi dechrau chwilio am swydd newydd ar ddechrau 2020.
- 6.51 Roedd Simon wedi bod yn mynychu cwrs drwy'r Ganolfan Waith i'w helpu â'i sgiliau cyfrifiadurol er mwyn cael cymorth i ddychwelyd i fyd gwaith, ond roedd yn teimlo nad oedd yn cael llawer o fudd ohono. Roedd yn gwybod y byddai diweddaru ei CV yn gwella ei gyfleoedd o gael swydd arall yn fwy na'r cwrs roedd yn ei ddilyn.
- 6.52 Disgrifiodd ei hun fel rhywun sydd ag ofn technoleg a dywedodd fod ei allu a'i wybodaeth yn gyfyngedig o ran defnyddio technoleg:

“Roedd angen i mi lunio CV, ac roedd hwn yn rhywbeth y byddwn i wedi cael trafferth ei wneud. Roeddwn yn dilyn cwrs nad oedd yn ddefnyddiol mewn gwirionedd, ac roeddwn angen CV newydd ar frys. Felly, gan fy mod wedi cael profiad o Gyrfa Cymru yn 2008, meddyliais y byddai'n syniad da cysylltu â nhw.”
(Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.53 Aeth Simon i'w swyddfa Gyrfa Cymru leol ym mis Chwefror 2020 ac roedd yn defnyddio'r cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus i ddiweddaru ei CV. Daeth y

derbynnydd ato a chynnig rhagor o gymorth iddo ar ffurf Hyfforddwr Cyflogadwyedd. Cytunodd Simon a daeth yn ôl i'r ganolfan awr yn ddiweddarach i gyfarfod yr hyfforddwr.

- 6.54 Ar ôl cyfarfod yr Hyfforddwr Cyflogadwyedd am awr, roedd Simon wedi paratoi ei CV a hyd yn oed wedi ei anfon at wefan swyddi erbyn yr amser roedd wedi gadael yr apwyntiad. Dywedodd ei Hyfforddwr Cyflogadwyedd:

“Rydw i’n meddwl ei fod wrth ei fodd [oherwydd] roedd yn gallu gweld y cynnyrch terfynol ar ôl i ni fod yn eistedd gyda’n gilydd am awr ac roedd ganddo rywbeth i’w ddangos a mynd adref gydag ef.” (Cyfweliad â Hyfforddwr Cyflogadwyedd, 2021)

- 6.55 Dywedodd yr hyfforddwr nad oedd Simon yn hyderus iawn pan wnaethant gyfarfod. At hyn, roedd yn teimlo ei fod wedi bod yn tanwerthu ei hun yn ei swydd ddiwethaf ac roedd ganddo lawer mwy i’w gynnig i gyflogwr yn nhermau sgiliau a phrofiad:

“Weithiau bydd pobl yn aros yn yr unfan gan fod hynny’n hawdd ac maen nhw’n tanbrisió’r hyn sydd ganddyn nhw i’w gynnig [...]. Roedd yn rhaid ei atgoffa pa mor ddefnyddiol yw ei sgiliau. Weithiau dydy pobl ddim yn sylweddoli beth yw eu cryfderau.” (Cyfweliad â Hyfforddwr Cyflogadwyedd, 2021)

- 6.56 Roedd siarad am ei sgiliau a’i brofiad ac yna gweithio ar ei CV wedi rhoi hwb i Simon. Roedd rhagor o gymorth posibl ar gael i Simon drwy Cymru’n Gweithio, ond nid oedd Simon yn credu fod arno ei angen ar y pryd. Roedd Simon yn credu unwaith y byddai ganddo’r CV y byddai’n gallu symud ymlaen a chael swydd.

Deilliannau

- 6.57 Cafodd Simon swydd ran amser fel gyrrwr nwyddau cyn pen mis ar ôl ei sesiwn gyda’r Hyfforddwr Cyflogadwyedd. Roedd yn gweithio 16 awr yr wythnos ar y dechrau cyn cynyddu’r oriau i 30 awr yr wythnos.
- 6.58 Roedd Simon yn teimlo’n gadarnhaol ynglŷn â’i brofiad o dderbyn cymorth gan Cymru’n Gweithio a dywedodd mai’r gwasanaeth oedd i gyfrif am y ffaith iddo ddod o hyd i’r swydd. Roedd y ffaith ei fod wedi gallu cyfarfod yr Hyfforddwr Cyflogadwyedd, paratoi CV a derbyn gwybodaeth am sut i ddod o hyd i swyddi, ar yr un diwrnod wedi bod o fudd mawr iddo gan ei helpu i symud ymlaen a dechrau chwilio am waith ar unwaith:

“Rydw i wedi cael cymorth i lunio CV o’r blaen gan ffrind. Ond roedd cael cymorth rhywun sy’n gwneud hyn yn broffesiynol, mae’n well ei wneud fel hyn.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.59 Mae Simon yn awyddus i ddod o hyd i swydd amser llawn ac mae’n ystyried dychwelyd at Cymru’n Gweithio i gael cymorth i ddiweddarau ei CV fel y gall chwilio am swydd fwy addas:

“Fe wnes i gwblhau’r CV (sef fy mhrif nod) ac fe wnes i gael swydd. Efallai nad dyna’r swydd roeddwn i wir eisiau, mae’n debyg y byddwn i wedi hoffi cael rhagor o gyfle i chwilio. Ond yna daeth [COVID-19], felly roeddwn yn meddwl y byddai’n syniad i mi aros yn y swydd. Nid hon yw fy swydd berffaith, ond o leiaf rydw i’n gweithio.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Astudiaeth achos 7: Nick

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.60 Roedd Nick wedi bod yn gweithio mewn swydd reoli gyda’r Swyddfa Bost am dros 30 mlynedd pan gafodd ei ddiswyddo. Yna symudodd i weithio’n hunangyflogedig gyda banc cenedlaethol am ddwy flynedd. Pan ddaeth COVID-19, oherwydd natur ei swydd, daeth contract Nick i ben ac roedd yn ddi-waith. Roedd colli ei swydd wedi cael effaith fawr ar Nick:

“Doeddwn i erioed wedi cael diwrnod i ffwrdd o’r gwaith cyn hynny. Roedd yn rhywbeth nad oeddwn i wedi ei brofi erioed o’r blaen. Nid y pryder ariannol oedd yr unig ffactor — roedd yn cael effaith feddyliol arnaf hefyd. Yn sydyn, roeddwn allan o waith a doeddwn i erioed wedi cael profiad fel hyn o’r blaen [...]. [Roedden nhw’n] amseroedd pryderus dros ben.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.61 Mae Nick yn byw yn Ne Cymru ac mae yn ei bumdegau canol. Dywedodd ei ymgynghorydd Cymru’n Gweithio fod Nick yn credu y byddai’n gallu dod o hyd i swydd newydd yn hawdd. Fodd bynnag, ar ôl ymgeisio am nifer o swyddi ar-lein, nid oedd Nick yn cael unrhyw lwyddiant:

“Rydw i’n cofio siarad ag ef ac roedd yn swnio’n isel iawn. Roedd wedi bod yn gweithio am amser mor hir nes ei fod yn meddwl y byddai’n cael cynnig swydd yn gyflym. Roedd wedi ymgeisio am gannoedd o swyddi a doedd neb hyd yn oed yn cysylltu ag ef ... Rwy’n meddwl ei fod yn credu y byddai’n dod o hyd i rywbeth ac roedd yn cael ei wrthod sawl gwaith.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Gyrfaoedd, 2021)

Cymorth Cymru'n Gweithio

6.62 Esboniodd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio Nick fod yr apwyntiad cyntaf yn gyfle i gasglu gwybodaeth gefndir am hanes cyflogaeth Nick a dod i wybod am ei anghenion a'r cymorth roedd ei angen arno. Yn y cyfarfod cyntaf hwn daeth yn amlwg bod angen diweddarau CV Nick a rhoi cymorth iddo baratoi llythyr eglurhaol a oedd wedi'i deilwra i'r swydd benodol roedd yn gwneud cais amdani.

6.63 Dywedodd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio Nick ei fod wedi helpu Nick drwy gynnig cymorth a bod yno ar ei gyfer. Esboniodd sut mae pobl sydd allan o waith yn aml eisiau sicrwydd a chadarnhad eu bod ar y trywydd cywir. Dywedodd ei fod yn aml yn cysylltu â Nick i roi gwybod iddo am swyddi gwag newydd a hefyd er mwyn cadw 'mewn cysylltiad' ag ef:

“Roedd wedi ymgeisio am gannoedd o swyddi. Rydyn ni'n gweld hyn yn aml [...]. Mae pobl [wedi bod] yn gweithio mewn diwydiant am amser hir ac fel arfer maen nhw'n cael eu diswyddo neu'n colli eu swydd, ac mae'r dirwedd wedi newid llawer iawn. Roedd ei CV yn eithaf henffasiwn, ond doedd dim angen un arno yn y gorffennol. Roedd wedi gadael swydd ac roedd yn meddwl y byddai'n dod o hyd i swydd yn gyflym ac yna dechreuodd feddwl a fyddai byth yn llwyddo i fynd yn ôl i weithio.” (Cyfweiliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

6.64 Dywedodd Nick ei fod wedi synnu faint o gymorth roedd wedi'i dderbyn. Ei ddisgwyliad cychwynnol o Cymru'n Gweithio oedd ei fod yn wasanaeth i ddod o hyd i'r swyddi gwag oedd ar gael. Roedd yn credu bod lefel y cymorth personol a dderbyniodd yn hynod o werthfawr:

“Roeddwn i wir yn credu mai'r cyfan y bydden nhw'n ei wneud byddai anfon rhai manylion am swyddi ataf, ond roedd yn llawer iawn mwy na hynny. Mae'r gwasanaeth i dal i fy rhyfeddu — doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl. Roedd y cymorth a gefais yn wych.” (Cyfweiliad â Chyfranogwr, 2021)

Deilliannau

6.65 Gwnaeth Cymru'n Gweithio helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Nick am y farchnad lafur bresennol. Esboniodd Nick hefyd fod Cymru'n Gweithio wedi ei helpu i ehangu'r math o swyddi roedd yn chwilio amdanynt, a'i fod wedi ymgeisio'n aml am swyddi na fyddai wedi eu hystyried fel arfer, gan gynnwys swydd yn y gwasanaeth carchardai, rhywbeth na fyddai wedi ei ystyried heb gefnogaeth Cymru'n Gweithio:

“Gwnaethon nhw anfon swyddi mawr ataf — gwaith swyddfa, cyllid, a hefyd anfon yr holl swyddi gwag byw ataf hefyd. Roedd fel petai nhw’n gwneud i chi ddyblu eich ymdrechion o ran yr hyn a oedd yn berthnasol i’ch maes a’r swyddi eraill lle gallech chi wneud cais am rywbeth anarferol, a dyna beth wnes i. Ges i rywfaint o gynigion — [ar gyfer] y Gwasanaeth Carchardai fe wnes i gwblhau asesiad [a] chael cynnig swydd a fyddwn i byth wedi gwneud cais i weithio iddyn nhw. Fe wnaeth y swydd sefyll allan a fyddwn i byth wedi ei hystyried.”
(Cyfweliad â Chwsmer, 2021)

- 6.66 Roedd Nick yn gobeithio dod o hyd i waith gyda ‘chyflogwr ag enw da’, felly roedd yn falch o gael swydd gyda’r Gwasanaeth Carchardai:

“Roedd eisiau i’r swydd hon fod yn ei swydd olaf o bosibl cyn ymddeol ac roedd eisiau’r sicrwydd a’r pensiwn, tâl gwyliau, y math yna o beth. Yn ei swydd flaenorol, doedd ganddo ddim un o’r pethau hyn ... [Roedd eisiau] gweithio i gwmni lle byddai’n gallu gwneud cyfraniad.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru’n Gweithio, 2021)

- 6.67 Ar y cyfan, wrth siarad am ei brofiad o ddefnyddio Cymru’n Gweithio, roedd Nick yn teimlo ei fod wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi’i helpu i gael ei swydd newydd. Yn ei farn ef, un o’r pethau mwyaf cadarnhaol oedd ei fod wedi dod yn fwy hyderus drwy weithio gyda’r gwasanaeth, ac roedd hyn wedi ei helpu i ailystyried ei agwedd tuag at chwilio am waith ar ôl cael ei wrthod cynifer o weithiau yn y gorffennol:

“[Y] budd gorau [a ddaeth o Cymru’n Gweithio oedd], oherwydd fy mod i wedi gweithio am 31 mlynedd, roeddwn yn teimlo fy mod i wedi dod yn rhan o’r sefydliad — rydych chi mewn sefyllfa gyfforddus ac rydych chi’n gwybod popeth am y swydd. Ar ôl i chi adael, mae’n brofiad ofnus a dydych chi ddim yn sylweddoli eich bod yn gallu gwneud unrhyw beth arall [...]. Rydych chi’n dechrau magu hyder i deimlo y gallech chi fynd am gyfweliadau a gwerthu eich hun a gwneud argraff dda [...], gwneud pethau nad oeddech chi wedi breuddwydio y byddech chi’n gallu eu gwneud. Fe wnes i gael llawer mwy o hyder i ddal ati a chefais fy annog i feddwl y byddai pethau’n digwydd yn y pen draw [...], yn hytrach na chael fy ngwrthod o hyd.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Astudiaeth achos 8: Anne

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.68 Mae Anne yn byw yn Ne Cymru ac mae hi yn ei phumdegau hwyr. Ar ôl cael ei diswyddo ddwywaith mewn dwy flynedd, cysylltodd Anne â Cymru’n Gweithio i

geisio derbyn hyfforddiant gan ei bod yn credu y byddai'n bwysig wrth ei helpu i ddod o hyd i swydd. Disgrifiodd Anne ei sefyllfa fel hyn:

“Ym mis Mawrth, roedd y farchnad swyddi yn ofnadwy. Roeddwn i'n hawlio [Lwfans Ceisiwr Swyddi] ac yn gwneud ceisiadau am swyddi ym mhob man, ond doedd dim byd yn digwydd. Fe wnes i glywed yn y Ganolfan Waith y gallwn i fod yn gymwys i dderbyn hyfforddiant a gwnaethon nhw awgrymu fy mod i'n cysylltu [â Cymru'n Gweithio].” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.69 Er bod gan Anne 40 mlynedd o brofiad yn y sector ariannol, nid oedd ganddi gymwysterau a thystysgrifau i ddangos prawf o'i sgiliau. Roedd hi wedi sylwi bod cyfran fawr o'r swyddi a oedd yn cael eu hysbysebu yn gofyn am gymhwyster 'Sage 50'; hebdo, roedd Anne wedi'i chyfyngu o ran y math y swyddi y byddai hi'n cael ei hystyried yn addas ar eu cyfer:

“Er bod ganddi wybodaeth ymarferol o ddefnyddio'r feddalwedd, doedd ganddi ddim tystysgrifau o gwbl [...]. Felly roedd hi eisiau ychwanegu hyn at y profiad oedd ganddi. Mae'r darnau o bapur hyn yn bwysig. Efallai fod gan rywun 15 mlynedd o brofiad, ond dydy cyflogwyr ddim yn fodlon cymryd y risg hwnnw bellach.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.70 Disgrifiodd Anne sut roedd y cyfnod o fod yn ddi-waith a'r profiad o gael ei diswyddo ddwywaith wedi effeithio arni, yn enwedig gan ei bod hi'n credu mai ei swydd flaenorol oedd ei “swydd am oes”. Dywedodd:

“Roedd yn sioc. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn arfer dweud wrtha'i na allwn i fyth ymddeol. Yna, ar ôl i mi gael fy niswyddo am yr ail waith [...], doeddwn i ddim yn sylweddoli sut roedd y cyfan wedi effeithio arnaf. Roeddwn yn bryderus ac o dan straen hefyd [...]. Yna, aeth pethau i'r pen.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.71 Ar ôl i Anne gysylltu â Cymru'n Gweithio ym mis Ebrill 2020 drwy ffonio'r gwasanaeth, dechreuodd weithio gydag ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, a wnaeth ei helpu i ddefnyddio'r rhaglen ReAct i dderbyn cyfanswm o bedwar diwrnod o hyfforddiant yn gysylltiedig â defnyddio Sage 50 a Microsoft Excel.
- 6.72 Er ei bod yn cydnabod nad yw "dau ddiwrnod o hyfforddiant yn eich gwneud yn arbenigwr, ond mae'n eich helpu i gael eich troed yn y drws" (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021), mae hi hefyd yn mynd ati i "hyfforddi ei hun" gan ddefnyddio fideos ac ymarferion ar-lein.
- 6.73 Roedd Anne hefyd yn teimlo bod cymryd rhan yn yr hyfforddiant wedi dangos ei bod wedi bod yn cadw'n brysur yn ystod y cyfnod o fod yn ddi-waith. Mae Anne yn disgrifio ei hun fel rhywun sydd "bob amser yn dysgu", ac mae hi'n rhoi llawer o bwyslais ar ei datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd hi'n teimlo bod hyn yn dangos ei bod yn unigolyn sy'n barod i addasu ac yn awyddus "i roi cynnig ar bopeth":
- "Roeddwn yn argyhoeddedig petawn ni'n cael yr hyfforddiant ychwanegol hwn ar fy CV, byddai cyflogwyr yn gallu gweld nad oeddwn yn gorffwys ar fy rhwyfau yn ystod y cyfnod o fod yn ddi-waith." (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)
- 6.74 Dywedodd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio Anne fod y diffyg cyswllt wyneb yn wyneb wedi bod yn heriol. Gan fod Anne wedi dechrau cael cymorth gan Cymru'n Gweithio yn gynnar yn ystod cyfnod clo cyntaf COVID-19, ym mis Ebrill 2020, roedd y cymorth newydd symud ar-lein. Nid yw Anne a'i hymgyngorydd erioed wedi cyfarfod wyneb yn wyneb, ac mae eu holl sgysiau wedi cael eu cynnal dros y ffôn. Roedd hyn, ynghyd â'r her o weithio gartref wedi gwneud y broses o gynnig a defnyddio'r cymorth "ychydig yn fwy anodd" i Anne. At hyn, dywedodd Anne ei bod hi wedi gorfod benthyg gliniadur ei chwaer er mwyn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant ar-lein.

Deilliannau

- 6.75 Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, llwyddodd Anne i gael gwaith ac, ar adeg y cyfweliad, roedd hi'n gweithio mewn swydd dros dro yn ei maes. Roedd ennill y cymhwyster wedi ei galluogi i ymgeisio am swyddi lle'r oedd y cymhwyster yn ofynnol, gan greu mwy o gyfleoedd iddi. Yn ystod ei gwaith 'tempio', mae hi wedi gallu defnyddio ei sgiliau newydd ac ennill rhagor o brofiad cymwysedig. Dywedodd Anne:

"Roeddwn i'n teimlo'n llawer mwy cadarnhaol gan fy mod wedi derbyn yr hyfforddiant. Rydw i'n berson hyderus iawn, ond ar y pryd mae'n debyg nad

oeddwn i mor hyderus ag arfer ac roeddwn yn llai hyderus nag ydw i wedi bod ar unrhyw adeg arall yn fy mywyd. Rhoddodd dipyn o hwb i mi. Gan fy mod i'n gallu ychwanegu hyn at fy CV, roedd wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus [...]. Roeddwn yn gallu teimlo'n fwy positif ynglŷn ag ymgeisio am swyddi.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

Astudiaeth achos 9: Elena

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.76 Mae gan Elena, 25 oed, nifer o gymwysterau TGAU a Safon Uwch yn ogystal â hanes cyflogaeth amrywiol (gan gynnwys yn y sector ad-werthu, gweithio fel ffotograffydd hunan-gyflogedig, cymhorthydd addysgu, cymhorthydd meithrin, tywysydd teithiau, ynghyd â chael llawer o brofiad gwirfoddol amrywiol). At hyn, mae hi wedi dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant sy'n ychwanegu at ei phrofiad gwaith.
- 6.77 Yn ystod y cyfnod pan oedd hi'n ddi-waith, cysylltodd Elena â Gyrfa Cymru tua diwedd 2020 i gael cymorth i ysgrifennu ei CV. Yn dilyn hynny, cafodd ei hatgyfeirio i Cymru'n Gweithio. Yna defnyddio'r Gwasanaeth Cyswllt i drefnu ei hapwyntiad cyntaf.
- 6.78 Mae Elena yn byw yng Ngogledd Cymru ac mae ganddi rai anableddau corfforol a dysgu, ond mae hi'n benderfynol o beidio â gadael iddynt ei diffinio nac unrhyw swydd y gall ei chyflawni. Dywedodd ei hymgyngghorydd ei bod hi'n unigolyn penderfynol iawn, ac er bod ganddi rai rhwystrau rhag cael gwaith oherwydd ei hanableddau, nid yw hi'n eu hystyried felly.

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.79 O'r dechrau un, roedd Elena eisiau cymorth i ddiweddarau ei CV, gan ei fod yn chwe tudalen o hyd. Dywedodd ei hymgyngghorydd:
- “[Mae Elena] yn ysbrydoliaeth ac mae hi'n llawn cymhelliant [...]. Mae ei CV yn wych, ac mae ganddi lawer o brofiad gwaith [...]. Mae hi'n gwneud pethau ar ei liwt ei hun ac mae hi'n dangos ei bod hi ar gael. Mae diffyg cyfleoedd [...].” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)
- 6.80 Pan gysylltodd Elena â Cymru'n Gweithio, roedd hi'n cysgodi ac roedd yn awyddus i baratoi ei CV o bell a manteisio ar unrhyw hyfforddiant ar-lein am ddim o'i chartref:
- “Rydwn i wedi bod yn gwneud y cyrsiau hyn ar-lein. Mae'n ddefnyddiol dros ben. Roeddwn i'n teimlo bod fy ymennydd wedi troi yn slwtsh, felly mae hyn wedi fy helpu i gadw'r ymennydd yn brysur.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.81 Gweithiodd ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio gyda hi ar ei CV a chynigiodd unrhyw gyngor ac awgrymiadau ar gyfer ei wella. Yna cafodd Elena ei hatgyfeirio i gael cymorth pellach i wella'r CV gan Hyfforddwr Cyflogadwyedd. Roedd Cymru'n Gweithio yn hyblyg o ran y cymorth a gynigiwyd i Elena ac, oherwydd ei phryderon ynglŷn â mynychu sesiwn grŵp gan fod ganddi ddyslecsia, cynigiwyd cymorth ar-lein un i un iddi yn hytrach.

Deilliannau

- 6.82 Roedd Elena yn ystyried bod y cymorth a gafodd gan Cymru'n Gweithio wedi ei helpu i gymryd cam tuag at annibyniaeth. Mae hi'n byw gyda'i rhieni ar hyn o bryd ac yn cael anhawster dod o hyd i waith amser llawn fel cymhorthydd addysgu, a byddai dod o hyd i swydd barhaol yn golygu y byddai hi'n gallu ystyried symud i fyw i'w chartref ei hun yn y tymor hirach:

“Byddwn i'n hoffi cael mwy o annibyniaeth a chael fy nghartref fy hun, felly dyna un o fy nodau yn bendant.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.83 Heb y cymorth a oedd ar gael, roedd Elena yn credu na fyddai hi wedi newid ei CV o gwbl, ac na fyddai wedi cael derbyn yr hyfforddiant sgiliau ar-lein a awgrymwyd gan Cymru'n Gweithio. Roedd hi'n teimlo bod y cymorth a'r hyfforddiant sgiliau wedi ei helpu i baratoi ar gyfer y cyfnod pan fydd yn gallu rhoi'r gorau i gysgodi a dechrau chwilio am waith:

“Mae gen i lawer gormod o bethau cadarnhaol i ddweud amdany'n nhw, a bod yn onest [...]; maen nhw wedi bod yn dda iawn, iawn.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.84 Ar y llaw arall, fodd bynnag, dywedodd ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio mai'r adborth a gafwyd gan yr Hyfforddwr Cyflogadwyedd oedd nad oedd Elena wedi bod yn ymgysylltu â nhw na'r cymorth a oedd ar gael. Esboniodd ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio efallai ei bod hi'n teimlo ei bod hi wedi cael popeth roedd ei angen arni o'r cyfarfodydd cychwynnol. Yn sicr, roedd Elena yn teimlo ei bod hi wedi derbyn cymorth a chysylltiad da gan dîm Cymru'n Gweithio ac ni wnaeth hi godi unrhyw bryderon.

- 6.85 Roedd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio o'r farn y gallai Elena elwa mwy ar gymorth arbenigol i'w helpu i gael swydd, gan fudiadau fel Scope.²⁴ Gallai hyn helpu

²⁴ Elusen cydraddoldeb anabledd yw Scope sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr. Mae'n ymgyrchu dros gydraddoldeb a thegwch cymdeithasol i bobl anabl ac yn cynnig gwybodaeth a chymorth ymarferol i bobl ag

i ddileu rhai o'r rhwystrau mae hi'n eu hwynebu o ran cael swydd. Roedd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio wedi cyfeirio Elena i'r gwasanaethau a oedd ar gael yn y sefydliadau hyn, ond roedd yn credu nad oedd gan Elena ddiddordeb. Roedd hyn oherwydd nad oedd hi'n dymuno cael ei diffinio oherwydd ei hanableddau ac, felly, nid oedd yn teimlo bod angen y cymorth arni. Roedd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio yn parchu'r dewis hwnnw ac wedi parhau i roi cymorth i Elena:

“Rydw i'n meddwl ei bod hi wedi defnyddio'r gwasanaeth a chael adnoddau ohono. Byddai hi wedi gallu cael mwy o fudd ohono petai hi wedi derbyn rhywfaint o'r cymorth a oedd ar gael gan y sefydliad dan sylw, ond rydw i'n deall ei rhesymau dros ei wrthod.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

Astudiaeth achos 10: Linda

Rhywfaint o wybodaeth gefndir

- 6.86 Mae Linda yn byw yng Nghanolbarth Cymru ac mae hi yn ei phumdegau hwyr. Mae ei hanes cyflogaeth yn cynnwys gweithio yn y byd academiaidd a'r sector elusennol, ac mae hi hefyd wedi rhedeg buses ymgynghorol yn y gorffennol. Yn ei swydd ddiwethaf roedd Linda yn gweithio i elusen genedlaethol ac yn darparu hyfforddiant, ond cafodd ei diswyddo yn annisgwyl tua diwedd 2020.
- 6.87 Cafodd y profiad hwn effaith enfawr ar Linda. Esboniodd sut roedd hi wedi colli ei hincwm dros nos ac nad oedd ganddi asedau na chynilion wrth gefn. Gan ei bod wedi cael hanes cyflogaeth mor amrywiol, roedd y cyfnod hwn o fod yn ddi-waith yn 'amser dychrynlyd'. Dywedodd ei bod hi wedi gwneud cais am swydd ac roedd yn obeithiol y byddai'n llwyddiannus gan fod ganddi'r holl sgiliau a hyfforddiant perthnasol, ond ni wnaeth hi gyrraedd y rhestr fer hyd yn oed, a chlywodd yn ddiweddarach fod dros 400 o bobl wedi ymgeisio am yr un swydd. Pan glywodd hyn, sylweddolodd Linda nad oedd hi'n gallu cystadlu yn y farchnad waith, ac nad oedd hi eisiau gwneud hynny. Dywedodd:

“Roedd yn brofiad ysgytwol, a sylweddolais nad oes gen i'r egni i gymryd rhan mewn marchnad swyddi gystadleuol felly fe wnes i gymryd amser i edrych ar yr hyn roeddwn i eisiau ei wneud.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

anableddau. Nod ei strategaeth 5-mllynedd bresennol, h.y. Cydraddoldeb bob dydd ('Everyday Equality'), yw sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfleoedd cyfartal, ac mae hyn yn cynnwys meysydd penodol, o gynorthwyo pobl anabl i fyw eu bywydau yn ôl eu dewis a dadlau o blaid sicrwydd ariannol i bobl anabl.

- 6.88 Ar ôl dod i'r casgliad bod tri pheth pwysig yn ei bywyd — ei chi, gallu gweithio gartref, a gweithio fel addysgwr — penderfynodd ddechrau ei busnes ei hun, yn rhedeg cyrsiau hyfforddiant ar-lein. Er mwyn cyflawni hyn roedd hi'n teimlo bod angen iddi dderbyn hyfforddiant ar sut i farchnata'r busnes a'i lansio a'i datblygu ar-lein.

Cymorth Cymru'n Gweithio

- 6.89 Gwelodd Linda hysbyseb am Cymru'n Gweithio a'r rhaglen ReAct ar y cyfryngau cymdeithasol a meddylodd y gallent fod yn ddefnyddiol i'w helpu i gael hyfforddiant mewn marchnata ar-lein i gefnogi ei busnes newydd. Cysylltodd â'r Gwasanaeth Cyswllt ym mis Tachwedd 2020 a threfnodd apwyntiad gydag ymgynghorydd Cymru'n Gweithio.
- 6.90 Ar ôl cyfarfod Linda yn rhithiol, roedd ei hymgyngghorydd yn teimlo ei bod hi'n mynd i banig a bod angen cymorth arni i'w thawelu ac i feddwl yn fwy pwylllog:
- “Yn y lle cyntaf, roeddwn yn ceisio ei thawelu a gwrando ar yr hyn roedd hi eisiau ei wneud. Yna fe wnes i sôn am becyn ReAct ac fe wnaethon ni drafod pa fath o hyfforddiant roedd hi'n credu y byddai ei angen arni a chynigiais arweiniad o ran ble y byddai hi'n gallu dod o hyd i'r hyfforddiant. Y cyfan a wnes i mewn gwirionedd oedd dweud beth oedd ei angen arni a'i chael i gydnabod hynny. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n gwybod pa fath o gymorth roedd ei angen arni ond nad oedd hi'n gallu mynegi hynny ar y pryd.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)
- 6.91 Gyda chymorth ei hymgyngghorydd, daeth Linda o hyd i gwrs hyfforddiant ar-lein a dechrau ei ddilyn. Er bod Linda yn teimlo nad oedd strwythur y dysgu ar-lein yn addas iawn i'r ffordd mae hi fel arfer yn dysgu, roedd hi'n credu bod y cymorth a'r arweiniad a gynigiwyd iddi gan ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio yn ddefnyddiol iawn.

6.92 Dywedodd ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio fod yr angen i weithredu'n gyflym bob amser yn amlwg wrth weithio gyda Linda er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fylchau yn ei hincwm. Er mwyn rhoi cymorth amserol iddi, dywedodd ei bod wedi rhoi ei rhif ffôn uniongyrchol i Linda, ac roedd hi'n aml yn cysylltu â hi i ofyn cwestiynau cyflym er mwyn sicrhau bod modd symud ymlaen yn gyflym:

“Rydw i'n meddwl ei bod hi'n gwerthfawrogi'r ffaith bod rhywun cyfeillgar wrth law i wrando arni ac i roi adborth cadarnhaol iddi.” (Cyfweliad ag Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, 2021)

Deilliannau

6.93 Roedd Linda o'r farn bod gallu dechrau ar yr hyfforddiant yn gyflym yn gwbl hanfodol. Cysylltodd â Cymru'n Gweithio ym mis Tachwedd, dilynodd y cwrs hyfforddiant ym mis Rhagfyr, ac yna roedd wedi sefydlu'r busnes erbyn mis Ionawr. At hyn, roedd yn teimlo bod y cymorth a'r wybodaeth a gafodd ac y cyfeiriwyd hi ati wedi bod yn fuddiol, a dywedodd:

“Roeddwn yn mynd i fyd nad oeddwn yn gwybod dim amdano ac roeddwn yn ansicr o'r manylion cyfreithiol ac fe wnaethon nhw roi'r wybodaeth honno i mi. Gwnaethon nhw roi [...] cynllun busnes [...]. Fe wnes i ei ddefnyddio fel templed ar gyfer fy nghynllun busnes. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi ei wneud hebddo. Roedd yn ddefnyddiol ac roeddwn yn gallu ei anfon at bobl wrth gysylltu â nhw i drafod y busnes.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

6.94 Roedd hi'n teimlo bod ei hymgyngghorydd Cymru'n Gweithio yn dangos empathi ac roedd yn gallu uniaethu'n dda â hi, gan olygu eu bod wedi datblygu perthynas gadarnhaol:

“Byddwn i wedi teimlo'n fwy unig [heb y cymorth]. Dydw i ddim yn teimlo mor unig o wybod bod pobl eraill eisiau i mi lwyddo.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

6.95 I gloi, er bod Linda yn gwerthfawrogi cymorth Cymru'n Gweithio, roedd hi'n credu mai hi oedd yn gyfrifol am sefydlu ei busnes yn llwyddiannus:

“Dydw i ddim eisiau iddyn nhw gael y clod i gyd. Fi sy'n gyfrifol am y llwyddiant. Fe wnes i greu busnes mewn tair wythnos [tra'n] gweithio dyddiau [16-awr]. Fel y dywedais i, gwnaethon nhw agor drysau i gael gwybodaeth a mynediad [at hyfforddiant]. Felly roedd y profiad o ymgysylltu â nhw yn bleserus. Roedd yn beth braf gwybod bod pobl yn fy nghefnogi.” (Cyfweliad â Chyfranogwr, 2021)

- 6.96 Roedd yr ymgynghorydd Cymru'n Gweithio yn cytuno â'r farn hon, a bod gan Linda'r atebion a llawer iawn o wybodaeth eisoes ond, yn hollbwysig, ei bod hi wedi llwyddo (gyda chymorth Cymru'n Gweithio) i feithrin yr hyder a'r capasiti i fwrw ymlaen â'i syniadau ar gyfer ei busnes a bod teimlo'n bwysig wedi ei helpu i wneud hynny.

Casgliad

- 6.97 Mae'r astudiaethau achos a nodwyd uchod yn enghreifftiau defnyddiol iawn o'r ffordd mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu. Yn benodol, maent yn dangos ei fod yn wasanaeth sy'n gwneud llawer mwy na 'dadansoddi ac atgyfeirio', a bod tîm Cymru'n Gweithio yn ymdrin ag unigolion sydd weithiau mewn cyfnodau anodd iawn yn eu bywydau oherwydd, er enghraifft, eu bod wedi'u diswyddo. At hyn, mae'r dull gweithredu yn galluogi'r ymgynghorwyr i adnabod a chwilio am atebion i'r rhwystrau niferus mae'r cwsmeriaid yn eu hwynebu wrth iddynt chwilio am swydd neu swydd wahanol.
- 6.98 Roedd pob un o'r cwsmeriaid a gafodd eu cyfweld yn credu bod Cymru'n Gweithio wedi bod o fudd iddynt. Dywedodd llawer o'r cwsmeriaid fod agwedd 'gadarnhaol' a'r sicrwydd a roddwyd gan aelodau tîm Cymru'n Gweithio wedi bod yn bwysig. Mae'r rhain yn amlwg yn ffactorau sy'n mynd y tu hwnt i'r ffordd y gellid disgrifio gwasanaeth Cymru'n Gweithio ar bapur ac mewn adroddiadau fel hwn.
- 6.99 Mae'r agwedd bersonol yn amlwg o'r astudiaethau achos ac yn agwedd allweddol ar lwyddiant y gwasanaeth a ddarperir, wrth i aelodau tîm Cymru'n Gweithio ddatblygu cyd-berthnasoddd effeithiol â'u cwsmeriaid, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau heriol a achoswyd gan bandemig COVID-19.
- 6.100 Roedd llawer o'r unigolion yn yr astudiaethau achos wedi'u synnu gan lefel y cymorth a gynigiwyd iddynt. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd diffyg gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth gyffredinol o'r ffordd mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu.
- 6.101 Mae'r ffaith bod tîm Cymru'n Gweithio yn ymwybodol o'r problemau iechyd meddwl sydd gan gwsmeriaid o bosibl, fel straen a gorbryder o ganlyniad i ddiweithdra a/neu ddiswyddo (gweler astudiaeth achos 3: Peter ac astudiaeth achos 8: Anne), yn werth ei nodi hefyd. Roedd llawer o'r staff yn credu bod hyn yn rhan greiddiol o'u swydd a rôl Cymru'n Gweithio yn fwy eang.

- 6.102 Mae tîm Cymru'n Gweithio yn gweithio gyda chwsmeriaid i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r rhesymau dros yr angen i gymryd camau penodol neu weithredu, sydd nid yn unig yn cynnig ateb ond hefyd yn cyflwyno datrysiad mwy cynaliadwy ac yn datblygu sgiliau. Mae pwyslais ar alluogi cwsmeriaid i feddwl am eu hatebion eu hunain a datblygu cydnherthedd. Ymhellach, mae'n bwysig nodi bod yr holl gwsmeriaid dan sylw yn yr astudiaethau achos hyn naill ai wedi dod o hyd i waith arall neu roedd ganddynt gynllun fwy clir i'r dyfodol.
- 6.103 Fodd bynnag, roedd yr astudiaethau achos hefyd yn tynnu sylw at rai meysydd posibl ar gyfer eu gwella, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael i raddedigion, er bod angen nodi mai astudiaethau achos yw'r rhain (yn hytrach nag asesiad mwy cynhwysfawr o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu). Er bod Cymru'n Gweithio yn gwasanaethu pawb, roedd cwsmeriaid ac aelodau staff yn teimlo nad oedd y cymorth i raddedigion mor gryf ag y gallai fod (gweler astudiaeth achos 2: Gareth). Er bod gan y rhan fwyaf o raddedigion fynediad i wasanaethau cyflogadwyedd yn eu sefydliadau, mae'n bosibl y gellid gwneud mwy i gynnig cymorth i'r cwsmeriaid hyn, e.e. darparu gwybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth mwy perthnasol.
- 6.104 Mae'r astudiaethau achos hyn hefyd yn amlygu'r ffaith bod nifer o faterion yn gallu effeithio ar allu unigolyn i gael mynediad i fyd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (gan gynnwys lleoliadau gwledig a mynediad i wasanaethau). Yn bwysig iawn, nid oedd unrhyw un o'r ffactorau hyn wedi effeithio ar allu'r cwsmeriaid yn yr astudiaethau achos i gael mynediad i gymorth Cymru'n Gweithio, er yn amlwg nid yw hyn yn angenrheidiol yn wir yn fwy eang.

7. Casgliad

- 7.1 Mae'r bennod olaf hon yn dwyn ynghyd canfyddiadau allweddol yr adroddiad cyntaf hwn o'r gwerthusiad o wasanaeth Cymru'n Gweithio.
- 7.2 Mae'r broses o ddatblygu damcaniaeth newid Cymru'n Gweithio wedi darganfod, er bod y rhesymeg gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth yn syml, bod cymhlethdod y rhwystrau y mae'n rhaid i rai unigolion eu goresgyn (fel y dangoswyd yn yr astudiaethau achos ym Mhennod 6) yn ychwanegu haen o gymhlethdod yn nhermau sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r unigolion dan sylw a dangos cyswllt achosiaeth rhwng y canlyniad hwnnw a'r cymorth a ddarparwyd gan Cymru'n Gweithio.
- 7.3 Prif allbwn (h.y. gweithgareddau) y gwasanaeth yw nifer y cwsmeriaid sy'n ymgysylltu ac yna'n derbyn cymorth. At hyn, mae gennym ddiddordeb yn nodweddion y cwsmeriaid hynny er mwyn deall y grwpiau o bobl sy'n derbyn cymorth, neu beidio, gan y gwasanaeth. Ymhellach, mae gennym ddiddordeb yn y math o gymorth a ddarperir er mwyn gallu deall pa fath o gymorth sydd fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysicach i'r gwerthusiad o bosibl yw'r deilliannau, sy'n cynrychioli'r hyn sy'n digwydd o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynhelir.
- 7.4 Nodir dau fath o ddeilliannau yn y ddamcaniaeth newid: deilliannau o ran rheolaeth y gwasanaeth, a deilliannau i'r unigolion sy'n derbyn cymorth. Bydd yn bwysig i'r gwerthusiad ystyried y ddau fath, a bydd y ddau felly yn rhan o fframwaith y gwerthusiad a nodir yn Atodiad 3.
- 7.5 Mae'r deilliannau o ran rheolaeth y gwasanaeth yn feintiol — (a) nifer yr atgyfeiriadau i gael rhagor o gymorth, a (b) nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio (gan adlewyrchu'r ffaith bod modd atgyfeirio unigolion fwy nag unwaith neu i fwy nag un gwasanaeth). Fodd bynnag, mae 'ansawdd' y deilliannau hynny yn bwysig hefyd o safbwynt gwerthusol. A yw unigolion yn cael eu hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol/effeithiol i fynd i'r afael â'u hanghenion arbennig/penodol? Bydd gwerthuso hyn yn heriol, er yn bwysig iawn gan ei fod yn ganolog i resymeg gwasanaeth Cymru'n Gweithio.
- 7.6 Mae'r deilliannau ar gyfer unigolion sy'n derbyn cymorth gan Cymru'n Gweithio yn dod yn sgil gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth (ar ôl ymgysylltu â Cymru'n Gweithio) am y materion canlynol: (a) eu potensial/galluoedd personol (cryfderau, gwendidau, ac ati), (b) y cyfleoedd mewn perthynas â'r canlynol (i) y farchnad

lafur/swyddi a'r (ii) hyfforddiant/cymorth datblygiad personol y gallant eu derbyn, a'r (c) dull o oresgyn rhwystrau a all fod yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i gael gwaith. Mae'r cyfweiliadau cwmpasu yn awgrymu y dylai hyn arwain at ddeilliannau cadarnhaol yn nhermau cymhelliant personol unigolion a/neu eu hunan-hyder, pethau yr ydym wedi cyfeirio atynt yn aml fel 'deilliannau meddal'. Bydd y gwerthusiad yn ymgysylltu ag unigolion sydd wedi derbyn cymorth gan Cymru'n Gweithio i ystyried a oes tystiolaeth bod y deilliannau hyn wedi cael eu cynhyrchu.

- 7.7 Mae cam olaf y ddamcaniaeth newid yn ymwneud ag effaith y gwasanaeth. Rydym yn ystyried y dylai Cymru'n Gweithio gyfrannu at gyflawni polisiâu cyflogadwyedd a datblygu economaidd allweddol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg na all y gwasanaeth sicrhau'r effeithiau hynny ar ei ben ei hun — mae dibyniaeth ar yr hyfforddiant a'r cymorth y bydd Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio ei gwsmeriaid iddynt. Rôl Cymru'n Gweithio yw adnabod anghenion unigolion, ond nid yw'n darparu'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r anghenion hynny. Dyma'r rhagdybiaeth allweddol yn namcaniaeth newid Cymru'n Gweithio — bod y cymorth y caiff unigolion eu hatgyfeirio ato ar gael ac yn effeithiol. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried sut dylid barnu llwyddiant Cymru'n Gweithio.
- 7.8 Mae'r adolygiad o'r wybodaeth reoli ar gyfer Cymru'n Gweithio ym Mhennod 4 yn dangos gwasanaeth a wnaeth ymgysylltu'n rheolaidd â thros 2,000 o gwsmeriaid oedolion newydd fesul mis ac atgyfeirio/cyfeirio bron i 30,000 o gwsmeriaid (yn oedolion ac yn bobl ifanc) yn ystod ei flwyddyn gyntaf. At hyn, roedd y flwyddyn gyntaf yn cynnwys 37,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a 4,000 o sesiynau grŵp gyda chwsmeriaid, yn ogystal â niferoedd sylweddol yn cysylltu dros y ffôn a thrwy'r gwasanaeth ar-lein.
- 7.9 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar y rhan fwyaf o bethau yn ystod 2020, gan gynnwys Cymru'n Gweithio (fel y dengys y dadansoddiad o'r wybodaeth reoli). Dangosodd ymchwil cynradd gydag aelodau tîm Cymru'n Gweithio ar gyfer yr adroddiad hwn mai'r farn gyffredinol yn Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru oedd bod y gwasanaeth wedi ymdopi â'r cyfyngiadau o ganlyniad i'r pandemig yn gadarnhaol. Er bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn wahanol, roeddynt wedi parhau ac wedi bod yn effeithiol. Ymhellach, cyflwynwyd sawl gwasanaeth newydd, gan wella gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ystod y pandemig. Yn ddealladwy, roedd rhywfaint o effaith ar ansawdd y gwasanaeth oherwydd, yn benodol, y diffyg cymorth wyneb yn wyneb yn sgil cau canolfannau gyrfaoedd. Roedd gweithgareddau allgymorth, nodwedd allweddol o wasanaeth

Cymru'n Gweithio, hefyd wedi cael eu cyfyngu o ganlyniad i'r pandemig (ac roedd hyn yn anorfod wedi cael effaith).

- 7.10 Yn bwysig iawn, dywedodd tîm Cymru'n Gweithio fod effaith y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol. Yn benodol, ystyrid bod darparu'r cymorth dros y ffôn/fideo wedi gwella mynediad i'r gwasanaeth mewn rhai achosion; y farn oedd y dylid parhau â'r dull hwn yn y dyfodol, ynghyd ag ailgyflwyno'r cymorth wyneb yn wyneb a gynigir. Dyma enghraifft o sut gall amgylchiadau heriol arwain at arloesi a newid cadarnhaol yn y dull o ddarparu gwasanaeth.
- 7.11 Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag anwybyddu effaith y pandemig ar ddarpariaeth y gwasanaethau y byddai Cymru'n Gweithio wedi atgyfeirio/cyfeirio unigolion iddynt fel rheol. Mae gan hyn oblygiadau amlwg ar allu Cymru'n Gweithio i dderbyn atgyfeiriadau yn effeithiol a gwneud atgyfeiriadau yn ddiweddarach, ac felly, ar ei allu i sicrhau'r effaith y cynlluniwyd y gwasanaeth i gyfrannu ati (fel y nodir yn y ddamcaniaeth newid). Gwelwyd newid dramatig yn yr 'ecosystem' y mae Cymru'n Gweithio'n gweithredu ynddi hefyd yn ystod 2020 yn sgil cyflwyno cymorth newydd mewn ymateb i effaith COVID-19 gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar y ffordd y bydd Cymru'n Gweithio yn gweithredu hefyd.
- 7.12 Mae ymwybyddiaeth ymhlith tîm Cymru'n Gweithio y bydd cynnydd yn debygol yn y galw am gymorth yn y dyfodol pan fydd ymyriadau fel y cynllun ffyrlo yn dod i ben a bydd y rheini sydd wedi rhoi'r gorau i feddwl am eu gyrfa 'am y tro' yn penderfynu ymgysylltu unwaith yn rhagor. Yn wir, mae cynlluniau yn eu lle i ymdopi â sefyllfa o'r fath, a darparwyd adnoddau ychwanegol (gan gynnwys cyllideb ychwanegol) gan Lywodraeth Cymru. At hyn, mae'r cynnydd sylweddol tebygol yn y galw am gymorth o ganlyniad i effaith economaidd y pandemig (yn benodol cynnydd mewn diswyddiadau) a'r pwysau tebygol ar y gwasanaeth i ddarparu cymorth yn ystod y misoedd nesaf yn amlwg, gan arwain rhai aelodau staff i fynegi pryder ynglŷn â gallu'r gwasanaeth i ateb y cynnydd yn y galw yn effeithiol. Bydd yr effaith ragweladwy hon yn cael ei hadolygu wrth i'r gwerthusiad symud i'r cam nesaf.
- 7.13 Mae'r 10 astudiaeth achos o unigolion a dderbyniodd gymorth gan Cymru'n Gweithio yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'r deilliannau cadarnhaol y gall eu sicrhau i'r unigolion dan sylw. Mae'r astudiaethau achos yn dangos yr amrediad eang o faterion y mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ymdrin â nhw wrth helpu unigolion. Yn bwysig iawn, maent hefyd yn dangos bod y materion hynny yn aml yn llawer ehangach na'r hyn a allai


gael ei ystyried yn draddodiadol yn faterion 'cyflogaeth'. Un o'r canfyddiadau allweddol yw bod Cymru'n Gweithio yn llawer mwy na gwasanaeth 'dadansoddi anghenion ac atgyfeirio' sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n wynebu cyfnodau anodd iawn o bosibl yn eu bywydau. Nodwyd bod agwedd 'gadarnhaol' aelodau tîm Cymru'n Gweithio a'r sicrwydd roedd unigolion wedi'i dderbyn ganddynt yn bwysig iawn, ynghyd â'r 'agwedd bersonol'. Mae'r ffordd y caiff y gwasanaeth/cymorth ei ddarparu yr un mor bwysig felly â'r gwasanaeth a ddarperir. Dyma faterion y bydd y gwerthusiad yn parhau i'w hystyried gydag amrediad ehangach o gwsmeriaid wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.

Beth yw cam nesaf y gwerthusiad?

- 7.14 Mae'r fframwaith a amlinellir yn Atodiad 3 yn gosod y sylfaen ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad. Bydd yr ymchwil a gynhelir fel rhan o'r cam nesaf yn cynnwys ymgynghori â'r canlynol:
- Unigolion sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth
 - Y timau rheoli a chyflenwi
 - Rhanddeiliaid a sefydliadau partner
- 7.15 Mae disgwyl i adroddiad nesaf y gwerthusiad gael ei gyhoeddi ar ddiwedd yr haf 2021.


Atodiad 1: Modelau Damcaniaeth Newid ar gyfer Cymru'n Gweithio

Damcaniaeth newid yn seiliedig ar weithgareddau a deilliannau ar gyfer Cymru'n Gweithio



Damcaniaeth newid a ddatblygwyd ar sail taith cyfranogwr

Dylid nodi bod cymeriad Sam, sy'n sail ar gyfer taith y cyfranogwr isod, yn ffuglennol, ac mae'n cael ei ddefnyddio yma at ddibenion dangosol yn unig.



Atodiad 2: Data Atodol Arolwg Ar-lein o Staff Rheng-flaen Cymru'n Gweithio

Tabl A3.1: Rôl ymatebwyr yr arolwg

Ymateb	N o'r Cyfanswm	
Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio	58	64%
Hyfforddwr Cyflogadwyedd	13	14%
Ymgynghorydd dan Hyfforddiant	9	10%
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	7	8%
Gweinyddydd	3	3%
Rheolwr Datblygu Gweithredol	1	1%

Tabl A3.2: Ardaloedd awdurdod lleol lle'r oedd yr ymatebwyr yn gweithio

Ardal Awdurdod Lleol	Nifer
Cyngor Sir Ynys Môn	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	1
Cyngor Sir Ceredigion	2
Dinas a Sir Abertawe	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg	2
Cyngor Sir Ddinbych	3
Cyngor Sir Fynwy	3
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	4
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	4
Cyngor Sir y Fflint	4

Ardal Awdurdod Lleol	N
Cyngor Gwynedd	4
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	4
Cyngor Dinas Casnewydd	4
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	5
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5
Cyngor Sir Penfro	5
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	6
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	6
Cyngor Sir Powys	7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	7
Cyngor Caerdydd	8
Cyngor Sir Gâr	10

Atodiad 3: Fframwaith y Gwerthusiad

Cyflwyniad

Yn yr atodiad hwn rydym yn amlinellu'r fframwaith a ddatblygwyd yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodwyd ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn ac a fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer y gwerthusiad yn y dyfodol.

Mae'r fframwaith wedi'i rannu yn bedair thema sy'n seiliedig yn fras ar daith unigolyn drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio:

- Thema 1: Ymgysylltu a darpariaeth y cymorth
- Thema 2: Atgyfeirio a chymorth dilynol
- Thema 3: Ar ôl atgyfeirio
- Thema 4: Canlyniadau

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys y cwestiwn mae'r gwerthusiad yn ceisio ei ateb a'r dangosyddion gwrthrychol a goddrychol a fydd yn cael eu casglu er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw. Yna mae'r golofn olaf yn nodi ffynonellau'r data a fydd yn cael eu casglu.

Thema 1: Ymgysylltu a darpariaeth y cymorth

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
1. Sut mae Cymru'n Gweithio (CG) yn cyrraedd unigolion yn uniongyrchol ac yn eu denu at y gwasanaeth?	Data rheoli'r gwasanaeth	Barn rheolwyr a staff CG
2. O ble y daw'r atgyfeiriadau i'r gwasanaeth? <i>Pa mor effeithiol yw eu dulliau ymgysylltu eraill â phartïon eraill a gwaith meithrin perthnasoedd? (Gan gynnwys gweithgareddau allgymorth)</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	- Barn rheolwyr a staff CG - Barn rhanddeiliaid a phartneriaid
3. Sut mae CG yn ymgysylltu ag unigolion yn y lle cyntaf? <i>Ble mae CG yn ymgysylltu ag unigolion, yn eu cyfarfod a'u cynghori?</i> <i>Dros y ffôn, sgwrsio ar y we, ymweliadau gwe, wyneb yn wyneb, allgymorth cymunedol, digwyddiadau?</i> <i>Sut mae ymgynghorwyr CG yn rhoi cymorth mewn ffordd hyblyg i unigolion drwy CG?</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	Barn rheolwyr a staff CG
4. A yw lleoliadau CG yn hygyrch i ateb anghenion unigol? <i>Ystyried y pellter a deithiwyd gan unigolion i gynnal asesiad/cyfweliad CG</i> <i>Gallu i gwblhau'r asesiad yn y lleoliad a ddewiswyd</i> <i>Hygyrch yn nhermau anabledau?</i>	Data rheoli'r gwasanaeth — nifer a mathau'r cwsmeriaid	- Barn rheolwyr a staff CG - Barn cyfranogwyr

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
5. A yw Gyrfa Cymru yn defnyddio'r adnodd categoreiddio? <i>Sut mae hwn yn cael ei ddefnyddio? Sut mae'r pwysoli yn cael ei gymhwyso? A oes gan y rhai sy'n ei ddefnyddio hyder yn y broses asesu a'r allbynnau?</i>	Nifer o weithiau y defnyddiwyd yr adnodd categoreiddio	Barn rheolwyr a staff CG
6. Pa mor effeithiol yw'r broses asesu? <i>Faint o amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r asesiad?</i> <i>A yw'r holl rwystrau yn cael eu datgan yn y cam asesu?</i> <i>Sut mae cryfderau'r unigolion yn cael eu hystyried yn yr asesiad?</i> <i>A yw unigolion yn cwblhau'r asesiad llawn?</i> <i>Faint sy'n bobl sy'n gadael cyn cael eu hatgyfeirio a beth yw'r rhesymau dros hynny?</i> <i>A ydyn nhw'n asesu anghenion unigolyn yn briodol?</i> <i>A yw'r pwysoliadau a ddefnyddir yn briodol i rwystrau'r unigolyn a nodwyd?</i> <i>A yw'r cyngor a'r arweiniad a roddir wrth gynnal yr asesiad yn gyson ac yn gywir?</i>	- Data rheoli'r gwasanaeth - Data sicrwydd ansawdd	- Barn rheolwyr a staff CG - Barn cyfranogwyr
7. Pa adborth a dderbynnir ar asesiad/gwasanaeth CG? <i>Gan gwsmeriaid</i> <i>Gan ymyriadau atgyfeiriadau</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	- Barn cyfranogwyr - Barn sefydliadau atgyfeirio
8. A oes rhestr aros o'r ymholiad i'r cyswllt cyntaf?	Data rheoli'r gwasanaeth	Amherthnasol
Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
9. Beth yw rhaniad ieithyddol yr asesiadau a roddir? (Gan gynnwys ieithoedd heblaw am Saesneg a'r Gymraeg)	Data rheoli'r gwasanaeth	Amherthnasol

10. Pa heriau a wynebwyd wrth gyflenwi CG a sut cafodd y rhain eu datrys? • <i>Lleoliadau</i> • <i>Technoleg</i> • <i>Adnoddau/capasiti i gyflawni</i> • <i>Amrywiadau rhanbarthol</i>	• Data rheoli'r gwasanaeth — data ar fynediad i wasanaethau	• Barn rheolwyr a staff CG
11. Pwy sy'n defnyddio gwasanaeth CG? Pwy sydd ddim yn ei ddefnyddio? • <i>Amrywiadau rhanbarthol</i> • <i>Niferoedd fesul rhanbarth</i> • <i>Uchafswm capasiti fesul rhanbarth</i> • <i>Demograffeg y buddiolwyr (gan gynnwys eu statws cyflogaeth)</i>	• Data rheoli'r gwasanaeth	• Amherthnasol
12. Faint o bobl sy'n gadael y gwasanaeth ar ôl cael eu hatgyfeirio gan CG cyn cyrraedd y darparwr?	• Data rheoli'r gwasanaeth	• Barn rheolwyr a staff CG

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
13. Materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg: <i>Beth sy'n cael ei wneud i adnabod y rheini sydd eisiau cynnal yr asesiad CG drwy gyfrwng y Gymraeg?</i> <i>Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r galw am ddarparu asesiad CG drwy gyfrwng y Gymraeg?</i> <i>A oes cyfleoedd digonol ar gyfer y rheini sy'n dymuno defnyddio cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg?</i> <i>Pa gamau sydd yn eu lle i sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth CG yn cael eu mapio yn erbyn cyfleoedd cyflogaeth?</i> <i>Pa mor strategol yw'r gwaith mapio hwn?</i> <i>A oes cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth CG (a) dderbyn cymorth sgiliau iaith Gymraeg a (b) chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg? Sut mae'r cyfleoedd uchod yn cael eu cyflwyno i ddefnyddwyr gwasanaeth CG?</i> <i>Faint o bobl sy'n manteisio ar y cyfleoedd (a) i dderbyn cymorth sgiliau iaith Gymraeg a (b) chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg?</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	Barn rheolwyr a staff CG
14. Sut mae CG yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid? (Gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol)	Nifer yr ymgysylltiadau â phartneriaid, cyfarfodydd, ac ati	Barn rheolwyr a staff CG

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
15. Sut mae ymgynghorwyr CG yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur leol?	• Amherthnasol	• Barn rheolwyr a staff CG
16. A yw ymgynghorwyr CG yn ymgysylltu â chyflogwyr? Os felly, sut?	• Nifer yr ymgysylltiadau â chyflogwyr	• Barn rheolwyr a staff CG
17. Beth yw cost darparu gwasanaeth CG ac atgyfeiriadau dilynol? (Gan gynnwys cost fesul cwsmer, fesul atgyfeiriad, ac ati)	• Data rheoli'r gwasanaeth	• Amherthnasol

Thema 2: Atgyfeirio i gymorth dilynol

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
18. I ble mae CG yn atgyfeirio unigolion? <i>Pa ymyriadau, e.e. gofal plant, cymorth 'cyswllt ysgafn' Gyrfa Cymru, cymorth awdurdod lleol (gwaith/gwasanaethau ieuenctid)?</i> <i>Amrywiadau daearyddol</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	Amherthnasol
19. Faint o bobl sy'n gadael atgyfeiriad CG ar ôl cyrraedd yr ymyriad?	Data rheoli'r gwasanaeth	Amherthnasol
20. A oedd y cymorth y gwnaeth CG atgyfeirio unigolion iddo ar gael? <i>Pwy mae ymgynghorwyr CG yn rhoi gwybod iddynt os oes diffyg darpariaeth (os yn gymwys) a sut maent y gwneud hynny?</i> <i>Beth fydd yn digwydd i'r unigolyn os nad oes cymorth addas ar gael?</i>	Data rheoli'r gwasanaeth	Barn rheolwyr a staff CG
21. Sut mae ymgynghorwyr CG yn sicrhau bod y rhestr ddarpariaeth ar gyfer y cymorth maent yn atgyfeirio pobl iddo yn cael ei diweddarau?	Amherthnasol	Barn rheolwyr a staff CG
22. Sut mae ymgynghorwyr CG yn sicrhau bod y ddarpariaeth y maent yn atgyfeirio'r unigolyn iddo o ansawdd da?	Amherthnasol	Barn rheolwyr a staff CG

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
23. Pa mor sydyn bydd unigolion yn derbyn cymorth 'ysgafn'?	• Data rheoli'r gwasanaeth	• Amherthnasol
24. A yw unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio i gael cymorth yn gallu cael mynediad i'r cymorth?	• Amherthnasol	• Barn rheolwyr a staff CG • Barn cyfranogwyr • Barn darparwyr
25. A yw unigolion yn gallu defnyddio'r cymorth y cawsant eu hatgyfeirio ato gan CG ar unwaith, neu a oes rhestr aros?	• Amherthnasol	• Barn cyfranogwyr • Barn darparwyr
26. Pa mor bell mae'n rhaid i unigolion deithio i gael mynediad i'r cymorth y cawsant eu hatgyfeirio ato gan CG?	• Amherthnasol	• Barn cyfranogwyr • Barn darparwyr
27. A wnaeth yr asesiad a'r atgyfeiriad anfon yr unigolion i'r math cywir o gymorth?	• Amherthnasol	• Barn cwsmeriaid • Barn staff CG • Barn darparwyr
28. A fyddai cwsmeriaid /buddiolwyr wedi gallu cael mynediad i'r gwasanaeth hwn pe na baent wedi cael asesiad cychwynnol gan CG?	• Amherthnasol	• Barn cwsmeriaid • Barn staff CG • Barn darparwyr

Thema 3: Ar ôl atgyfeirio

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
29. Faint o bobl sy'n dychwelyd at CG i gael asesiad arall? Pam maent yn dychwelyd? <i>Os yw unigolion yn dychwelyd:</i> <i>A ydynt yn cael eu hatgyfeirio i'r un ymyriadau cymorth neu rai gwahanol?</i> <i>A ydynt yn dweud eu bod yn wynebu rhwystrau gwahanol i'r rhai a nodwyd yn yr asesiad CG cyntaf?</i> <i>Beth oedd y rhwystrau cyntaf a gafodd eu goresgyn yn sgil y cymorth a dderbyniwyd?</i>	Data rheoli'r gwasanaeth data	Barn rheolwyr a staff CG

Thema 4: Gwerthusiad o'r deilliannau

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
30. Pa 'ddeilliannau meddal' gafodd eu sicrhau gan gwsmeriaid o ganlyniad uniongyrchol i'w hymgysylltiad â Cymru'n Gweithio? <i>Newid o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth</i> <i>Potensial i oresgyn rhwystrau rhag cael gwaith</i> <i>Cymhelliant</i> <i>Hunan-hyder</i>	Amherthnasol	Barn cwsmeriaid
31. Pa gynnydd a wnaed o ran sicrhau gwaith yn dilyn asesiad CG a'r atgyfeiriad dilynol i'r ymyriad? <i>Deilliannau i unigolion yn ôl demograffeg ac mewn perthynas â'r asesiadau (a) yn uniongyrchol ac yn sgil myfyrio arnynt, a (b) chwe mis yn ddiweddarach</i>	Amherthnasol	Barn cwsmeriaid
32. A yw rhai unigolion yn derbyn cymorth ond ddim yn symud ymlaen naill ai i addysg, cyflogaeth, nac yn gwneud camau i gael mynediad i addysg/cyflogaeth neu hyfforddiant?	Amherthnasol	Barn cwsmeriaid
33. I ba raddau gall deilliannau gael eu priodoli i ymyriad Cymru'n Gweithio?	Amherthnasol	- Barn rheolwyr CG - Barn rhanddeiliaid

Cwestiwn Gwerthuso	Dangosydd Gwrthrychol	Dangosydd Goddrychol
34. Sut mae CG yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau LIC ac yn cyfrannu atynt? • <i>Cyflogadwyedd</i> • <i>Y Gymraeg</i> • <i>Cydraddoldeb</i> • <i>Anabledd</i> • <i>Hil</i>	• Amherthnasol	• Barn rheolwyr CG • Barn rhanddeiliaid